

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent



Cynllun Datblygu Lleol hyd at 2021

Ddatganiad Ygrifenedig

Rhagair gan yr Aelod Gweithredol dros Adfywio

Mae Blaenau Gwent yn newid. Mae economïau yn newid, cymunedau yn esblygu, a thros gyfnod caiff tirluniau eu trawsnewid. Mae'r grymoedd hyn yn cerfio ein Bwrdeisdref Sirol yn barhaus i'w wneud y lle hardd ac amrywiol y mae heddiw. Mae manteisio i'r eithaf ar y newidiadau hyn yn golygu bod yn rhaid deall yr heriau sy'n ein hwynebu a chynllunio'n ofalus ac yn strategol ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhaid i ni, er enghraifft, gynyddu gweithgaredd economaidd a sicrhau amrywiaeth yn yr economi, ateb anghenion tai a gwella tai, a gwneud canol ein trefi yn fwy bywiog a hyfyw; ond mae angen cyflawni hyn mewn modd sensitif a heb wanhau'r amgylchedd unigryw a'n hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol. Mae angen i ni hefyd ostwng ein dibyniaeth ar danwydd ffosil a datblygu strategaethau i lesteirio effeithiau newid hinsawdd.

Mae sensitifrwydd a manylder y materion hyn yn golygu y bu cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Blaenau Gwent yn broses hir a chymhleth. Fe'i hadeiladwyd ar sylfaen gadarn o astudiaethau cymdeithasol ac economaidd arbenigol, gwerthusiadau amgylcheddol a nifer fawr o ymgynghoriadau cyhoeddus. Y canlyniad yw cynllun cynhwysfawr gydag uchelgais glir o wneud Blaenau Gwent yn 'lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef'.

Hoffwn ddiolch i'r holl swyddogion, aelodau, rhanddeiliaid a'r rhai a gymerodd ran ym mhob ymgynghoriad cyhoeddus am eu holl waith caled ac ymroddiad yn ystod datblygu'r cynllun. Yn awr, gyda'u help parhaus, gallwn symud ymlaen a chyflawni ein Gweledigaeth.



Cynghorydd Brian Scully
Aelod Gweithredol Adfywio



FOREWORD



CYNNWYS

Tudalen

1.0 CYFLWYNIAD	1
Beth yw'r Cynllun Datblygu Lleol?	1
Beth mae'n ei wneud?	1
Sut y cafodd ei baratoi?	2
Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma?	3
2.0 CYD-DESTUN POLISI	5
Ewropeaidd	5
Cenedlaethol	6
Rhanbarthol	8
Lleol	9
3.0 CYD-DESTUN A HERIAU BLAENAU GWENT	13
Cyd-destun Blaenau Gwent	13
Heriau i'r Dyfodol	15
4.0 GWELEDIGAETH AC AMCANION	19
Gweledigaeth	19
Amcanion	19
5.0 STRATEGAETH OFODOL	23
Ardal Strategaeth y Gogledd – Twf ac Adfywio	24
Ardal Strategaeth y De - Adfywio	25
6.0 POLISI'AU STRATEGOL	27
SP1 Ardal Strategaeth y Gogledd - Twf ac Adfywio Cymunedol	27
SP2 Ardal Strategaeth y De - Adfywio	30
SP3 Yr Hierarchaeth Manwerthu a Bywiogrwydd a Hyfywedd Canol y Trefi	31
SP4 Cyflenwi Tai Ansawdd Da	33
SP5 Dosbarthiad Gofodol Safleoedd Tai	35
SP6 Sicrhau Hygyrchedd	36
SP7 Newid Hinsawdd	38
SP8 Twf Economaidd Cynaliadwy	40
SP9 Cymunedau Egniol ac Iach	43
SP10 Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol	44
SP11 Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Hanesyddol	46
SP12 Sicrhau Cyflenwad Digonol o Fwynau	47
SP13 Sicrhau Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy	48
7.0 POLISI'AU RHEOLI DATBLYGU	51
DM1 Datblygiadau Newydd	51
DM2 Dylunio a Gwneud Lle	56
DM3 Darpariaeth Seilwaith	58
DM4 Ynni Carbon Isel a Digarbon	60
DM5 Rheoli Prif Ganol Tref a Chanol Trefi Ardal	62

DM6 Rheoli Canol Tref Leol Blaenau Gwent	63
DM7 Tai Fforddiadwy	64
DM8 Safleoedd Eithriad Tai Fforddiadwy	66
DM9 Safleoedd Carafanau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	67
DM10 Cyfyngiadau Defnyddio Dosbarth - Cyflogaeth	67
DM11 Diogelu Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden	69
DM12 Darparu Cyfleusterau Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored	70
DM13 Diogelu Gofod Agored	71
DM14 Diogelu a Gwella Amgylchedd	72
DM15 Diogelu a Gwella'r Seilwaith Gwyrdd	73
DM16 Diogelu Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd	74
DM17 Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol	75
DM18 Meini Prawf ar gyfer Asesu Ceisiadau Mwynau	76
DM19 Diogelu Mwynau	78
DM20 Gwastraff	79

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU **81**

SB1 Ffiniau Aneddiadau	81
MU1 Coridor Gogleddol Glynebwy	82
MU2 'Y Gweithfeydd	84
MU3 Ffatri NMC a Depo Bysiau	86
AA1 Ardal Weithredu	86
R1 Dyraniadau Manwerthu	87
H1 Dyraniadau Tai ac Ymrwymadau Tai HC1	89
GT1 Llety Sipsiwn a Theithwyr	91
T1 Llwybrau Beiciau	92
T2 Gwelliannau i'r Rhwydwaith Rheilffordd a Gorsafoedd	93
T3 Diogelu Seilwaith Rheilffordd Segur	94
T4 Gwelliannau i Wasanaethau Bws	94
T5 Ffyrdd Newydd i Hwyluso Datblygiad	95
T6 Gwelliannau i Briffyrdd i Hybu Adfywio	95
EMP1 Dyraniadau Cyflogaeth	97
EMP2 Diogelu Ardal Gyflogaeth	98
ED1 Darpariaeth Addysg	99
CF1 Canolfan Gymunedol	100
TM1 Twristiaeth a Hamdden	101
L1 Cyfleusterau Hamdden Ffurfiol	103
ENV1 Lletemau Gwyrdd	103
ENV2 Ardaloedd Tirlun Arbennig	104
ENV3 Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur	105
ENV4 Cynlluniau Adfer Tir	107
ENV5 Mynwentydd	108
M1 Diogelu Mwynau	108
M2 Parthau Clustog Mwynau	109
M3 Ardaloedd lle na fydd Gweithio Glo yn Dderbyniol	110
M4 Ardaloedd a Ffafrir	111
W1 Tir ar gyfer Rheoli Gwastraff	112



9.0	CYFLENWI A GWEITHREDU	113
	Gofynion Arolwg ar gyfer Pob Dyranriad	135
	FFIGURAU	
	Ffigur 1: Cyd-destun Aneddiadau	14
	Ffigur 2: Diagram Cysylltu Canol Trefi	23
	Ffigur 3: Diagram Allweddol	26
	Ffigur 4: Cynllun Cysyniad Mynegol o Goridor Gogleddol Glynebwy	83
	Ffigur 5: Cynllun Cysyniad Mynegol o 'Y Gweithfeydd'	85
	ATODIADAU	
	Atodiad1: Fframwaith Monitro	139
	Atodiad 2: Dynodiadau Statudol	159
	Atodiad 3: Rhestr o Ddogfennau Ategol	163
	Atodiad 4: Rhestr o Gyfarwyddyd Cynllunio Atodol	167
	Atodiad 5: Ffiniau Canol Trefi ac Ardaloedd Manwerthu Sylfaenol	169
	Atodiad 6: Hierarchaeth Ffyrdd a Rhwydwaith Creiddiol	174
	Atodiad 7: Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol	175
	Atodiad 8: Ardaloedd Diogelu Agregau	176
	Atodiad 9: Ardaloedd Diogelu Glo	177
	Atodiad 10: Parthau Clustog - Ardal Trefil, Six Bells a Drifft Blaentyleri	178
	Atodiad 11: Ardaloedd lle nad yw Gweithio Glo yn Dderbyniol	179
	Atodiad 12: Rhestr Termau	180

1.0 CYFLWYNIAD

BETH YW'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL?

- 1.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol ('y Cynllun') yn llywio datblygiad ardal ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cynllun yn rhoi gweledigaeth glir i ddangos sut y gall datblygiad newydd fynd i'r afael â'r heriau y mae'r Sir yn eu hwynebu a lle, pryd a faint o ddatblygiad newydd all ddigwydd hyd at 2021. Y nod yw rhoi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd am y fframwaith cynllunio ar gyfer Blaenau Gwent, ac eithrio'r ardal sy'n dod o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer yr holl ardal. Unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu, bydd yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio gyda'r Cynllun hwn pan fydd yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio os nad oes rhesymau da i wneud fel arall.

BETH MAE'N EI WNEUD?

- 1.2 Yn bennaf oll, mae'r Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn â llunio dyfodol Blaenau Gwent fel lle i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef. Mae hyn yn golygu penderfynu pa fath o le y dylai fod yn 2021, gan roi ystyriaeth i'r materion ehangach.
- 1.3 **Cyd-destun Ewropeaidd:** Mae Blaenau Gwent yn anghysbell o brifddinasoedd mwy ffyniannus Ewrop. Fodd bynnag, mae wedi ei leoli yn y ddwy ardal cydweithredu ranbarthol (Bwa'r Iwerydd ac Ardal Gogledd Orllewin Ewrop), lle mae pwyslais yr Undeb Ewropeaidd ar oresgyn anfanteision lleoliad ymylol, drwy wella mynediad, cydweithredu rhyngranbarthol a gwell cysylltiadau i'r 'prifddinasoedd craidd'. Teimlir dylanwad Ewrop yn uniongyrchol drwy nifer o raglenni cyllid y mae Blaenau Gwent yn cynnig amdanynt.
- 1.4 **Cyd-destun Cenedlaethol:** Mae pwyslais Llywodraeth Cymru ar adeiladu cymunedau cynaliadwy yng Nghymru drwy fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynir gan newid poblogaeth a newid economaidd. Mae angen i Gymru dyfu mewn ffordd fydd yn gwella gallu cystadleuol ac yn cynorthwyo ardaloedd llai llewyrchus i gynyddu eu lefelau ffyniant cyffredinol a gostwng effeithiau amgylcheddol. Mae mesurau allweddol yn cynnwys ffocws ar ddatblygu cynaliadwy sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o dir, yn gostwng yr angen i deithio ac yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol.
- 1.5 **Cyd-destun Rhanbarthol:** Mae Cynllun Gofodol Cymru (Gorffennaf 2008) yn dynodi Blaenau Gwent o fewn De Ddwyrain Cymru - Rhanbarth y Brifddinas, fydd yn gweithredu fel rhanbarth dinas gyda rhwydwaith, sy'n gostwng diffyg cydraddoldeb ac yn gwireddu ei rôl genedlaethol a photensial rhyngwladol. Mae llwyddiant yr ardal yn dibynnu ar Gaerdydd yn datblygu ei swyddogaethau fel prifddinas, ynghyd â rolau cryf a neilltuoel y trefi a dinasoedd eraill. Mae Glynebwy yn un o 14 anheddiad allweddol y dynodwyd fod ganddynt rôl allweddol i'w chwarae yn llwyddiant y rhanbarth. Rôl Glynebwy yw gweithredu fel canolbwynt gwasanaeth a chyflogaeth ar gyfer gogledd ddwyrain ardal Blaenau'r Cymoedd, yn cynnwys Blaenau Gwent, rhannau o dde Powys a rhannau dwyreiniol Sir Fynwy.

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.6 Mae angen datblygu'r fframwaith trosfwaol hwn ar y lefel leol. I wneud hyn mae angen cael darlun clir o sefyllfa bresennol Blaenau Gwent. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gwneud hyn drwy osod cyd-destun Blaenau Gwent a dynodi'r heriau allweddol. Mae'n amlwg o hyn fod angen i'r ardal gadw ei phoblogaeth, cynyddu'r amrywiaeth yn ei heconomi, adfywio canol ei threfi a gwella cyfleoedd ar gyfer preswylwyr.
- 1.7 Gyda dealltwriaeth o'r heriau, mae wedyn yn bosibl dynodi gweledigaeth o sut y dylai Blaenau Gwent edrych yn 2021. Caiff pedair thema a 16 amcan clir eu datblygu o'r weledigaeth i fynd i'r afael â'r heriau a ddynodwyd.
- 1.8 Mae'r Cynllun wedyn yn nodi strategaeth sy'n dynodi'r lleoliadau cyffredinol ar gyfer cyflawni anghenion datblygu strategol megis tai, cyflogaeth, manwerthu a chyfleusterau cymunedol. Mae'r ffocws ar adfywio'r ardal drwy greu rhwydwaith o ganolbwyntiau cynaliadwy o amgylch prif ganolbwynt Glynebwy ond yn cydnabod bod pwyslais ar dwf yn y gogledd a Glynebwy yn neilltuol.
- 1.9 Mae'r Cynllun yn rheoli datblygiad yr ardal drwy osod polisïau ar wahanol faterion, drwy ddyrannu tir ar gyfer datblygu a dynodi tir ar gyfer ei ddiogelu. Mae'r cynllun yn cynnwys 21 polisi neilltuol sy'n trin datblygiad tir ar wahanol faterion o amgylch y pedair prif thema. Mae'r Cynllun hefyd yn dyrannu tir ar gyfer manwerthu, tai, cludiant, cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol, cyfleusterau hamdden, mynwentydd, mwynau a gwastraff. Mae hefyd yn cynnwys nifer o bolisïau i ddiogelu'r amgylchedd naturiol.
- 1.10 Mae'r Cynllun yn nodi'r amserlen ddisgwyliedig a lefel yr ymyriad sydd ei angen i sicrhau y caiff y cynigion eu rhoi ar waith. Mae'r adran cyflenwi a gweithredu yn elfen bwysig wrth sicrhau y caiff y dyraniadau eu cyflenwi.
- 1.11 Mae'n neilltuol o bwysig bod system reolaeth gref er mwyn sicrhau y caiff y Cynllun ei gyflenwi ar amser, i ddynodi materion fel y codant ac ystyried os oes angen adolygiad. Mae Atodiad 1 yn nodi fframwaith fonitro fanwl i alluogi hyn i ddigwydd.

SUT Y CAFODD EI BARATOI?

- 1.12 Casglwyd llawer iawn o wybodaeth i roi'r sail ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Daw peth o hyn o ffynonellau presennol megis y Cyfrifiad a'r Mynegai Amddifadedd Lluosog, ond mae llawer yn ymchwil wreiddiol a gomisiynwyd neu a gynhaliwyd gan y Cyngor. Mae'r rhan fwyaf o hyn yn hygyrch drwy'r Rhyngrwyd neu medrir ei weld yn swyddfeydd y Cyngor. Defnyddiwyd yr wybodaeth, y cyfeirir ati'n aml fel y "sylfaen tystiolaeth" i helpu dynodi'r materion sy'n wynebu'r ardal ac i ddatblygu a phrofi gwahanol ddatrysiadau neu opsiynau. Cyfeirir at y sylfaen tystiolaeth ym mhob rhan o'r Cynllun a dynodir rhestr yn Atodiad 3.
- 1.13 Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda chynrychiolwyr o sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, drwy gyfres o weithdai gyda hwyluswyr, i ddynodi materion ac opsiynau yng nghyd-destun gwaith cyffredinol ar y dewis o strategaeth ac astudiaethau ymchwil penodol. Cafodd y digwyddiadau hyn eu dogfennu ac maent yn rhan o'r sylfaen tystiolaeth. Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y

strategaeth a ffafir. Mae'r sylwadau a'r wybodaeth o'r prosesau hyn oll wedi helpu i ffurfio'r Cynllun Datblygu Lleol. Wrth baratoi'r Cynllun Adnau, mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau cynllunio lleol cyfagos i sicrhau y rhoddyd ystyriaeth i faterion traws-ffin.

1.14 Mae sicrhau datblygu cynaliadwy yn elfen allweddol o'r system gynllunio. "Yng nghyd-destun Cymru, mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol:

- Mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
- Mewn ffyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau - gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.

Datblygu cynaliadwy yw'r broses a ddefnyddiwn i gyflawni nod cynaliadwyedd."

(Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Llywodraeth Cymru, 2009).

1.15 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gosod datblygu cynaliadwy yng nghanol y strategaeth ofodol ar gyfer Blaenau Gwent. Defnyddiwyd Arfarniad Cynaliadwyedd i helpu dynodi materion profi opsiynau a dynodi'r opsiwn a ffafir sy'n ffurfio sylfaen y Cynllun hwn. Dogfennir hyn yn yr adroddiad cynaliadwyedd a gyhoeddwyd gyda'r Cynllun. Mae polisiâu'r Cynllun hefyd yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cynaliadwy o wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

SUT I DDEFNYDDIO'R DDOGFEN YMA?

1.16 Mae'n rhaid darllen y Cynllun Datblygu Lleol fel cyfanwaith. Mae'r holl bolisiâu wedi'i rhyng-gysylltu ac mae'n rhaid eu darllen gyda'i gilydd i ddeall yr effaith gyfun ar gynig cynllunio.

Fformat y Cynllun Datblygu Lleol

1.17 Mae'r bennod hon wedi rhoi trosolwg o Gynllun Datblygu Lleol Blaenau Gwent ac mae'r adran hon yn rhoi esboniad byr o sut i ganfod eich ffordd o amgylch y ddogfen.

1.18 Mae **Pennod 2** yn nodi elfennau allweddol polisi Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi dylanwadu ar ffurfio'r Cynllun.

1.19 Mae **Pennod 3** yn amlinellu cyd-destun Blaenau Gwent ac yn dynodi heriau ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

1.20 Mewn ymateb i'r heriau, mae **Pennod 4** yn cynnwys Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer datblygu Blaenau Gwent dros gyfnod y Cynllun ac yn cynnwys set o amcanion i'r Cynllun eu cyflawni.

1.21 Mae **Pennod 5** yn gosod y strategaeth ofodol ar gyfer cyflawni anghenion strategol yn ystod cyfnod y Cynllun.

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.22 Mae **Pennod 6** yn gosod 13 Polisi Strategol sydd eu hangen i gyflawni'r Weledigaeth ac amcanion strategol a gweithredu'r strategaeth.
- 1.23 Mae **Pennod 7** yn nodi polisiau seiliedig ar bwnc i roi fframwaith ar gyfer ystyried holl geisiadau cynllunio'r dyfodol.
- 1.24 Mae **Pennod 8** yn nodi sut y caiff y strategaeth ei chyflawni yn y fan a'r lle, hynny yw, lle mae datblygu newydd i gael ei leoli a lle mae tir i gael ei ddiogelu.
- 1.25 Mae **Pennod 9** yn canolbwyntio ar gyflenwi a gweithredu dyraniadau tir a gynhwysir ym Mhennod 8. Mae'r Pennod yn amcangyfrif cwblhau datblygu yn nhermau 3 cham; 2006-2011; 2011-2016; a 2016-2021.
- 1.26 Mae'r Atodiadau yn cynnwys:
1. Fframwaith Monitro - Mae'r atodiad hwn yn nodi'r dull ar gyfer asesu gweithredu'r Polisiau a Strategaeth y Cynllun
 2. Rhestr Dynodiadau Statudol
 3. Rhestr Dogfennau Cefnogi
 4. Rhestr Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol
 5. Ffiniau Canol Tref ac Ardaloedd Manwerthu Sylweddol
 6. Hierarchaeth a Rhwydwaith Craidd Ffyrdd
 7. Rhwydwaith Beicio Cymunedol
 8. Ardaloedd Diogelu Agregau
 9. Ardaloedd Diogelu Glo
 10. Parthau Clustogi - Chwarel Trefil, Six Bells a Drifft Blaentyleri
 11. Ardaloedd lle nad yw Gweithio Glo yn Dderbyniol
 12. Rhestr Termau

Map Cynigion

- 1.27 Mae'r Map Cynigion yn dangos ar sail Arolwg Ordnans y lleoliad daearyddol a maint datblygiadau safleoedd penodol a'r polisiau diogelu a ddynodir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. Cynlluniwyd traws-gyfeirio o allwedd y Map Cynigion i bolisiau a chynigion y Cynllun i gynorthwyo egluro a chysondeb.

Map Cyfyngiadau

- 1.28 Mae'r Map Cynigion yn gyffredinol yn osgoi ymgorffori dynodiadau nad ydynt yn uniongyrchol yn gynigion y Cynllun Datblygu Lleol ei hunan (e.e. ardaloedd risg llifogydd, ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig a henebion rhestredig). Dangosir y rhain ar Fap Cyfyngiadau ar wahân, sydd hefyd yn defnyddio sylfaen Arolwg Ordnans, ac yn rhoi gwybodaeth ategol i'r Cynllun. Mae'n bwysig nodi nad yw'r cyfyngiadau a ddangosir ar y Map Cyfyngiadau yn gyffredinol yn ddynodiadau a wnaed gan y Cyngor ac y gall fod newid ynddynt.

2.0 CYD-DESTUN POLISI

- 2.1 Mae'r bennod hon yn gosod elfennau allweddol polisi Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi dylanwadu ar y Cynllun. Er mwyn i Flaenau Gwent fanteisio i'r eithaf ar ei photensial, mae'n rhaid i'r Cynllun gydymffurfio gyda strategaethau Ewropeaidd, cenedlaethol a rhanbarthol. Mae gwybodaeth fanylach ar sut y bu'r polisiau hyn yn sylfaen i'r gwahanol bynciau yn y Cynllun ar gael yn y Papurau Cefndir.

EWROPEAIDD

Rhaglen Weithredol Cydgyfeirio Ewropeaidd 2007-2013

- 2.2 Y weledigaeth yw i ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, y mae Blaenau Gwent yn rhan ohono, fod yn rhanbarth egniol, entrepreneuriaidd gyda datblygiad economaidd cynaliadwy o'r math diweddaraf, gyda'i bobl yn byw mewn cymunedau llewyrchus, cryf, iach, diogel a dwyieithog gydag amgylchedd naturiol ac adeiledig sy'n gwella'n barhaus.
- 2.3 Caiff cyflenwi'r weledigaeth ei gynorthwyo gan fuddsoddi tua £1.4 biliwn o Gronfeydd Strwythurol, drwy 9 Blaenoriaeth a ddynodwyd.
- 2.4 Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)
- Adeiladu economi seiliedig ar wybodaeth
 - Gwella gallu cystadleuol busnes
 - Datblygu seilwaith strategol ar gyfer economi modern
 - Creu amgylchedd busnes deniadol
 - Adeiladu cymunedau cynaliadwy
- 2.5 Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)
- Cyflenwi'r sgiliau i bobl ifanc y maent eu hangen ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol
 - Cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgaredd economaidd
 - Gwella lefelau sgiliau a hyblygrwydd y gweithlu
 - Gwella gwasanaethau cyhoeddus (Creu'r Cysylltiadau)
- 2.6 Mae 19 dogfen strategaeth weithredol (fframweithiau strategol) yn llywio cyflenwi gweithgaredd, yn cynnwys 5 fframwaith gofodol yn cwmpasu'r chwe ardal a ddynodwyd yng Nghynllun Gofodol Cymru a 14 fframwaith thema.

Rhaglen Cronfa Strwythurol Ewrop 2014 – 2020

- 2.7 Bydd y rhaglen Ewropeaidd nesaf yn debyg i raglen weithredol Cydgyfeirio Ewrop a bydd yn anelu i gyflawni nodau Ewrop 2020 y Comisiwn o '*Fwy o swyddi a bywydau gwell - drwy dwf economaidd deallus, cynaliadwy a chynhwysol*'. Bydd buddsoddiad o tua £2 biliwn yn helpu i gyflawni a chyflenwi'r weledigaeth drwy nifer o ddrafft reoliadau fydd â ffocws mewn ardaloedd yn cynnwys:

2.0 CYD-DESTUN POLISI

- 2.8 Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)
- Ymchwil ac arloesedd
 - Effeithiolrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy
 - Gallu cystadleuol busnesau bach a chanolig
- 2.9 Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)
- Hyrwyddo cyflogaeth a chefnogi symudedd llafur
 - Buddsoddi mewn addysg, sgiliau a dysgu gydol oes
 - Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac atal tloedi (o leiaf 20% o ESF)
 - Gwellu galluedd sefydliadol a gweinyddiaeth gyhoeddus effeithiol
 - Mwy o bwyslais ar ymladd yn erbyn diweithdra ieuencid
 - Cryfhau darpariaeth ar gyfer cydweithredu trawswladol, arloesedd cymdeithasol, cydraddoldeb rhyw a chyfle cyfartal
- 2.10 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cyd-fynd â'r strategaeth a blaenoriaethau presennol a nodwyd yn nogfen rhaglen weithredol Cydgyfeirio Ewrop 2007 - 2013 a bydd yn parhau i raglenni a ariennir gan Ewrop yn y dyfodol 2014-2020.

CENEDLAETHOL

Cynllun Gofodol Cymru - Pobl, Lleoedd, Dyfodol (Gorffennaf 2008)

- 2.11 Wrth ddatblygu Cynllun ar gyfer Blaenau Gwent, mae'n rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth i Gynllun Gofodol Cymru. Themâu creiddiol y Cynllun yw:
- Creu cymunedau cynaliadwy
 - Hybu economi cynaliadwy
 - Gwellu ein hamgylchedd
 - Sicrhau hygyrchedd cynaliadwy
 - Parchu nodweddion unigryw
 - Gweithio gyda'n cymdogion.
- 2.12 Mae Blaenau Gwent o fewn De-Ddwyrain Cymru - Rhanbarth y Brifddinas. Y weledigaeth ar gyfer yr ardal yw:
- 'Ardal arloesol a medrus sy'n cynnig ansawdd bywyd uchel - sy'n rhyngwladol, ac eto'n gadarn Gymreig. Bydd yn cystadlu'n rhyngwladol drwy godi ei phroffil bydeang a hynny drwy gysylltiadau cryfach rhwng y Cymoedd a'r arfordir a chysylltiadau cryfach â'r DU a gweddill Ewrop, gan fod o gymorth i ledaenu ffyniant yn yr Ardal a bod o fudd i rannau eraill o Gymru.'*
- 2.13 Mae Blaenau Gwent ynghyd ag awdurdodau cyfagos Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Torfaen, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd a Bro Morgannwg wedi cydweithio i ddynodi mwy o fanylion ar sut y bydd yr ardal yn datblygu yn y dyfodol. Cafodd Rhanbarth y Brifddinas ei wahanu'n dair ardal, Blaenau'r Cymoedd a Mwy, Coridor Cysylltiadau a Dinas ac Arfordir.
- 2.14 Mae Blaenau Gwent o fewn ardal Blaenau'r Cymoedd a Mwy: ardal y cydnabyddir ei bod yn wynebu heriau cymdeithasol sylweddol iawn a grëwyd yn sgil yr

aillstrwythuro economaidd ar ddiwedd yr 20fed ganrif. Yn nhermau 'Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy', **dynodir Glynwby yn anheddiad allweddol** sydd â rôl hanfodol i'w chwarae yn llwyddiant Rhanbarth y Brifddinas. Mae'n rhaid iddo sefyll ar ei draed ei hun a bod yn llwyddiannus, a lle bo'n addas, **weithredu fel canolbwynt gwasanaeth a chyflogaeth ar gyfer aneddiadau llai**. Bydd yn **darparu fframwaith canolog y bydd cysylltiadau trafndiaeth cynaliadwy, mawr yn cael eu datblygu o'i hamgylch**. Bydd aneddiadau eraill yn yr ardal angen cyfleusterau siopa, hamdden, cymunedol a diwylliannol modern, tai mwy deniadol a fforddiadwy, canol trefi bywiog a glân, cefn gwlad agored a hygyrch a chyfleoedd cyflogaeth.

- 2.15** Yn ogystal â bod yn ardal Blaenau'r Cymoedd a Mwy, mae Blaenau Gwent o fewn un o dair Ardal Cyfle Strategol a ddynodwyd yn Rhanbarth y Brifddinas. Yn gysylltiedig gyda throi ffordd Blaenau'r Cymoedd (A465) yn ffordd ddeuol, y syniad o ddynodi'r Ardal Cyfle Strategol yw rhoi mwy o gydlyniaeth i ddatblygiad yr ardal.
- 2.16** Yn nhermau 'Sicrhau Hygyrchedd Cynaliadwy', y brif flaenoriaeth yw gwneud defnydd gwell o seilwaith trafndiaeth presennol yr ardal, er mwyn cynnig **mynediad mwy cynaliadwy at swyddi ac at wasanaethau**. Mae'r egwyddorion cyffredinol sy'n llywio'r blaenoriaethau yn cynnwys: pennu targedau ymestynnol ar gyfer gwella amseroedd teithio mewn bus ac ar drên rhwng aneddiadau allweddol; mesurau sy'n rhoi blaenoriaeth i fysis ar ffyrdd allweddol er mwyn sicrhau bod bysus yn gallu teithio'n gyflym rhwng yr aneddiadau allweddol, dylai gwasanaethau bus a thrafnidiaeth gymunedol gysylltu cymunedau eraill â'r prif goridorau trafndiaeth hyn; y flaenoriaeth ar gyfer trafndiaeth ar y ffyrdd yw sicrhau bod capasiti presennol y ffyrdd yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl; a chlustnodi llwybrau beicio a cherdded diogel ar gyfer cymudwyr a chymunedau.
- 2.17** Yn nhermau 'Hybu Economi Cynaliadwy' mae angen i'r ardal ddatblygu **presenoldeb cryfach mewn gwasanaethau uwch eu gwerth a'r economi gwybodaeth**, a manteisio ar gyfleoedd i greu swyddi mewn **twristiaeth, yn y diwydiannau creadigol, ynni adnewyddadwy, ailgylchu a gwastraff**. Dylai ymyriadau strategol, sy'n canolbwyntio ar **adfywio a buddsoddi yn ardaloedd mwyaf difreintiedig** rhanbarth y Brifddinas fod **ar hyd coridorau trafndiaeth cynaliadwy ac yn cefnogi'r aneddiadau allweddol**. Bydd hefyd gyfle i ddylanwadu ar **leoliad cyflogaeth y sector cyhoeddus** er mwyn helpu i gyfrannu at y patrwm cynaliadwy o ddatblygu yn yr ardal.
- 2.18** Bydd Rhaglen Blaenau'r Cymoedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad yr economi, gan gynnwys y **sector twristiaeth a hamdden cynaliadwy**, sydd â'r potensial i gyfrannu i raddau helaethach o lawer nag a wna ar hyn o bryd. Credir bod gweithredu effeithlon i **gynyddu lefel sgiliau a rhoi'r sgiliau y bydd pobl eu hangen** yn neilltuoel o bwysig yn ardal Blaenau'r Cymoedd.
- 2.19** Yng nghyswllt 'Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd', ystyrir bod gwneud i Dde Ddwyrain Cymru weithio fel **rhanbarth amgylcheddol rhwydweithiol** yn ganolog er mwyn mynd i'r afael â heriau'r gorffennol a datblygiadau'r dyfodol. Y prif elfennau yw:

2.0 CYD-DESTUN POLISI

- Diogelu ardaloedd bywyd gwyllt yn cynnwys cynefinoedd afon a'u cyfuno i greu coridorau bywyd gwyllt; a
- Gweithredu i gryfhau'r rhwydweithiau amgylcheddol fydd yn gwella ansawdd bywyd a chefnogi twristiaeth a hamdden.

2.20 Yn nhermau 'Parchu Nodweddion Unigryw', mae angen i bob tref a dinas feithrin ei hunaniaeth unigryw ei hun, gan adeiladu ar ei hanes a'i diwylliant er mwyn creu rhwydwaith o aneddiadau â chymeriad iddynt sy'n cyd-fynd â'i gilydd a phob un yn cryfhau atyniad y rhanbarth yn gyffredinol. Bydd **cydnabod gwerth yr amrywiaeth o dirweddau yn yr ardal ynghyd â'i hamgylcheddau adeiledig a chymunedau unigryw** yn allweddol i feithrin hyder a helpu i farchnata cyfle rhanbarthol ar gyfer mewnfuddsoddiad a thwristiaeth.

2.21 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn cyflwyno strategaeth ofodol glir ar gyfer y rhanbarth yn nhermau Cymru a hefyd strategaeth glir ar gyfer Blaenau Gwent o fewn Rhanbarth De Ddwyrain Cymru.

RHANBARTHOL

Syniadau Blaengar - Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020 (Mehfin 2006)

2.22 Mae ardal Rhaglen Blaenau'r Cymoedd yn cynnwys Blaenau Gwent i gyd ac mae ganddi rôl allweddol mewn sianelu buddsoddiad a chydlynu gweithredu yn yr ardal. Mae felly'n hollbwysig fod y Cynllun yn gydnaws gyda'r fframwaith eang ar gyfer newid a nodir yn Syniadau Blaengar, Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020. (Mehfin 2006). Mae'r Strategaeth yn rhoi fframwaith ar gyfer adfywio'r ardal gyda ffocws ar 5 thema blaenoriaeth:

- Amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig sy'n ddeniadol ac a ddefnyddir yn helaeth
- Tirlun economaidd sy'n ffynnu ac yn cynnig cyfleoedd newydd
- Poblogaeth sydd wedi cael addysg dda, sy'n fedrus ac yn iachach
- Profiad deniadol a chydlynol ym maes twristiaeth a hamdden
- Hyder y cyhoedd mewn dyfodol disglair i bawb gyda'i gilydd.

2.23 Mae pob un o'r 5 thema blaenoriaeth wedi helpu i lunio'r Cynllun Datblygu Rhanbarthol:

Cynghrai'r Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru - Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (2009)

2.24 Gweledigaeth Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru yw:

"System drafndiaeth fodern, hygyrch, integredig a chynaliadwy ar gyfer De Ddwyrain Cymru sy'n cynyddu cyfle, hyrwyddo ffyniant i bawb ac yn diogelu'r amgylchedd, lle mae cerdded, beicio, trafndiaeth gyhoeddus a chludo nwyddau cynaliadwy yn darparu gwir amgennau teithio."

- 2.25 Mae blaenoriaethau Cynghrair Trafndiaeth De Ddwyrain Cymru (Sewta) yn adeiladu ar y weledigaeth hon, mynd i'r afael â phroblemau a gosod cyfeiriad cyffredinol y Cynllun (yn nhrefn blaenoriaeth):
1. Gwella mynediad i bawb i wasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth, yn neilltuo wrth gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.
 2. Cyfrannu'r cyfrannau o dripiâu a wneir drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.
 3. Lleihau'r galw ar y system drafnidiaeth.
 4. Datblygu system drafnidiaeth effeithiol, diogel a dibynadwy gyda gwell cysylltiadau trafndiaeth rhwng y 14 anheddiad allweddol yn Ne Ddwyrain Cymru a rhwng De Ddwyrain Cymru a gweddill Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop.
 5. Darparu system drafnidiaeth sy'n annog ffyrdd o fyw iach ac egniol.
 6. Gostwng yn sylweddol allyriad nwyon tŷ gwydr ac effaith y system drafnidiaeth ar gymunedau lleol.
 7. Sicrhau fod datblygiadau yn hygyrch gyda thrafnidiaeth gynaliadwy ac yn gwneud trafndiaeth gynaliadwy a chynllunio teithio yn elfen integrol o gynlluniau adfywio.
 8. Gwneud gwell defnydd o'r system drafnidiaeth bresennol.
- 2.26 Mae'r themâu hyn yn ffurfio sylfaen strategaeth drafnidiaeth y Cynllun. Mae Glynebwy yn un o'r 14 anheddiad allweddol y mae trafndiaeth effeithiol, diogel a dibynadwy i gael eu seilio o'u hamgylch.

Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru (RWP) (2008)

- 2.27 Mae'r Strategaeth Wastraff Ranbarthol yn nodi'r cyfuniad a ffafrir o dechnolegau rheoli gwastraff/adennill adnoddau a chapasiti ar gyfer trin y rhagolwg yn codi o'r holl ffrydiau gwastraff a reolir, ac elfen ofodol sy'n llywio lleoliad cyfleusterau newydd. Mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i Blaenau Gwent ddynodi **4ha o dir ar gyfer cyfleusterau gwastraff rhanbarthol**.

Datganiad Technegol Agregau Rhanbarthol De Cymru (Hydref 2008)

- 2.28 Y prif argymhellion yn deillio o'r Datganiad ar gyfer Blaenau Gwent yw:
- Er mwyn cyflawni cyfran gyfrannol o alw, dylai'r MPA asesu'r potensial i wneud **dyraniad adnoddau o 3 miliwn tunnell o leiaf** yn y Cynllun Datblygu Rhanbarthol. Dylai hyn fod o galchfaen lle bo hynny'n ymarferol.
 - Mae angen edrych a diogelu ar adnoddau calchaen carbonifferaidd ychwanegol.
 - Mae angen edrych a dewis/diogelu adnoddau tywodfaen carbonifferaidd eraill ar gyfer defnydd posibl yn y dyfodol.

LLEOL

Perthynas i Gynlluniau a Phartneriaethau eraill

- 2.29 Mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol yn gorff trosfwaol sy'n monitro gweithredu'r Strategaeth Gymunedol yn ogystal â'r 4 cynllun strategol arall o fewn Blaenau Gwent:-

2.0 CYD-DESTUN POLISI

- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant
- Cynllun Diogelwch Cymunedol
- Cynllun Datblygu Lleol
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc

2.30 Mae'r Bartneriaeth Adfywio'n gweithio'n agos gyda'r 4 partneriaeth strategol arall a'u cynlluniau i sicrhau dull gweithredu cyson i gael gwell canlyniadau ar gyfer pobl Blaenau Gwent:



Gwneud Gwahaniaeth - Strategaeth Gymunedol ar gyfer Blaenau Gwent 2010-2030

2.31 Mae'r Strategaeth Gymunedol yn ganolog i'r holl gynlluniau strategol gan mai hi yw'r fframwaith drosfwaol ar gyfer yr holl gynllunio o fewn y fwrdeisdref.

2.32 Mae'r Strategaeth Gymunedol yn adeiladu ar waith y Cynllun Cymunedol 'Gorffennol Balch, Dyfodol Disglair' (2005-2009) ac yn datblygu'r weledigaeth o wneud Blaenau Gwent yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef. Mae gan y Strategaeth Gymunedol saith thema allweddol ac mae gan bob thema ei gweledigaeth ei hun.

Cymunedau Bywiog a Hygyrch
Creu cymunedau y mae pobl yn eu mwynhau ac eisiau byw ynddynt

Cymunedau Ffyniannus
Cynnig y cyfleoedd, cefnogaeth ac adnoddau yn ein cymunedau i bobl ffynnu

Cymunedau Teg a Diogel
Gwneud i bobl deimlo'n ddiogel a bod ganddynt ran yn ein cymunedau

Cymunedau sy'n Dysgu
Rhoi'r sgiliau i lwyddo i bobl

Cymunedau Iach
Helpu pobl i fod yn iach a chael y gofal a'r gefnogaeth gywir pan maent ei angen

Cymunedau Gwyrdd a Chynaliadwy
Gwella ein hamgylchedd heddiw ar gyfer yfory

Arwain Cymunedau
Gweithio gyda ac ar gyfer ein cymunedau

- 2.33 Ar gyfer pob un o'r themâu hyn, mae'r Strategaeth yn gofyn:
- Beth sydd angen i ni wneud?
 - Sut y bwriadwn wneud hynny?
 - Pa wahaniaeth fydd yn ei wneud?
 - Beth yw rhai enghreifftiau o'r prosiectau a'r gweithgareddau fydd yn ein helpu i wneud y gwahaniaeth yma?
- 2.34 Bydd y Cynllun Datblygu Lleol, y Strategaeth Adfywio a'r Bartneriaeth Adfywio yn uniongyrchol gyfrifol am gyflenwi: Cymunedau Bywiog a Hygyrch, Cymunedau Ffyniannus a Chymunedau Gwyrdd a Chynaliadwy. Fodd bynnag, dylid cydnabod fod rhyngberthynas rhwng pob thema ac y bydd gwaith a wneir ar un thema yn aml yn cael effaith gadarnhaol ar rai neu'r cyfan o'r themâu eraill. Dylai'r Cynllun Datblygu fynegi, mewn termau cynllunio defnydd tir addas, yr elfennau hynny o'r strategaeth gymunedol sy'n cyfeirio at ddatblygu a defnydd tir.
- 2.35 Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol, a ddatblygwyd dan 'Raglen Cymru ar gyfer Gwella' yn nodi adfywio fel thema sylfaenol.

Strategaeth a Gweithredu Adfywio Blaenau Gwent - Drafft Ddiwygiad Cyntaf (Rhagfyr 2010)

- 2.36 Nod drosfwaol y Strategaeth yw '**Rhannu Manteision Adfywio yn Eang**' a chyflawnir hyn drwy sicrhau y caiff manteision adfywio eu rhannu gan bawb ym Mlaenau Gwent.
- 2.37 Mae'r Strategaeth yn dynodi chwe egwyddor:

Egwyddor 1: Amrywio'r Economi a Datblygu Gweithgynhyrchu

Adeiladu ar amrywio'r economi lleol drwy hyrwyddo a chefnogi meysydd newydd o gyfle a datblygu cryfderau diwydiant gweithgynhyrchu Blaenau Gwent.

Egwyddor 3: Hyrwyddo Dysgu a Sgiliau Modern

Creu diwylliant dysgu gydol oes gydag ymrwymiad i wella sgiliau sylfaenol a hanfodol drwy gyfranogiad mewn addysg uwch i bawb.

Egwyddor 4: Canolbwyntio Buddsoddiad mewn Cymunedau Allweddol

Canolbwyntio buddsoddiad yng nghymunedau allweddol Blaenau Gwent fel eu bod yn lleoedd mwy dymunol i fyw, dysgu a gweithio ynddynt.

2.0 CYD-DESTUN POLISI

Egwyddor 5: Cyflenwi 'Y Gweithfeydd' fel rhaglen arweiniol genedlaethol

Gyrru'r prosiect trawsnewidiol ymlaen a hyrwyddo'r newidiadau a'r cyfleoedd yn eang i gynyddu'r manteision i'r holl Fwrdeistref.

Egwyddor 6: Datblygu Seilwaith Trafnidiaeth

Buddsoddi mewn prosiectau allweddol i wella cysylltiadau allanol a chefnogi hygyrchedd ledled y Fwrdeisdref.

2.38 Mae pob un o'r egwyddorion hyn wedi helpu i lunio'r Cynllun Datblygu Lleol.

Strategaeth Tai Leol Blaenau Gwent (2007-2012)

2.39 Prif nod y Strategaeth Tai Leol yw:-

"Rhoi fframwaith strategol i sicrhau fod gan bawb ym Mlaenau Gwent y cwmpas a'r dewis i sicrhau cartref gweddus a fforddiadwy ac sydd mewn amgylchedd iach a diogel."

2.40 Mae'r Strategaeth yn nodi amcanion tai allweddol ar draws daliadaethau am y cyfnod hyd 2012, ynghyd â fframwaith cynllunio gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny. Mae'r amcanion yn seiliedig o amgylch:

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb
- Fframwaith cynllunio defnydd tir
- Tai fforddiadwy
- Polisi adnewyddu sector preifat
- Datblygu cynaliadwy
- Effeithiolrwydd ynni
- Digartrefedd
- Cefnogi pobl
- Rheolaeth tai
- Adfywio cymunedol

2.41 Mae'r Strategaeth Tai Leol wedi dylanwadu ar y polisïau tai yn y Cynllun.

2.42 **Drwy sicrhau fod y Cynllun yn cydymffurfio gyda'r strategaethau a dogfennau polisi allweddol hyn, gall Blaenau Gwent chwarae ei rhan yn natblygiad yr ardal ehangach. Gall hefyd sicrhau cyllid a chefnogaeth ar gyfer cyflawni prosiectau.**


3.0 CYD-DESTUN A HERIAU BLAENAU GWENT

CYD-DESTUN BLAENAU GWENT

- 3.1 Diben y Cynllun Datblygu Lleol yw helpu llunio twf yr ardal dros gyfnod y Cynllun. Mae lleoliad Blaenau Gwent yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru, 20 milltir i'r gogledd o Gasnewydd ac 20 milltir i'r gogledd ddwyrain o Gaerdydd, yn cynnig cyfleoedd i fanteisio o lwyddiant Rhanbarth Dinas Caerdydd. Mae gan ardal Blaenau Gwent arwynebedd o tua 10,900 hectar ac amcangyfrif poblogaeth o 69,300 (2006). Mae ganddi un o'r dwyseddau poblogaeth uchaf yng Nghymru gan fod y rhan fwyaf o'r boblogaeth wedi crynhoi mewn 23% o'r arwynebedd, yn nhrefi Glynebwy, Tredegar, Brynmawr, Blaenau ac Abertyleri. Fel canlyniad caiff Blaenau Gwent ei nodweddu gan berthynas agos rhwng cymunedau trefol poblog iawn a rhannau helaeth o ardaloedd gwledig agored.
- 3.2 Mae gwreiddiau Blaenau Gwent yn yr amrediad eang o adnoddau lleol a naturiol ar gyfer gwneud haearn a dur. Fel canlyniad, daeth diwydiant trwm i lenwi llawer o'r tri phrif gwm sef Sirhywi, Ebwy Fach ac Ebwy Fawr. Er i'r diwydiant glo ddirywio yn y 1970au a'r 1980au, roedd y diwydiant dur yn gyflogwr sylweddol hyd at gau gwaith Glynebwy yn 2002. Mae'r sector gweithgynhyrchu a dyfodd o amgylch y diwydiannau hyn yn parhau i ffurfio rhan bwysig o economi Blaenau Gwent.
- 3.3 Arweiniodd twf cynnar a chyflym yn yr economi a'r boblogaeth at ehangiad ffisegol sylweddol gyda rhesi lawer o derasau wedi'u hadeiladu'n agos at weithleoedd ar hyd lloriau'r cymoedd neu ar ochrau'r cymoedd. Y tai teras hyn a godwyd cyn 1919 yw 55% o'r stoc tai presennol.
- 3.4 Bu poblogaeth yr ardal yn gostwng ers ei frig o 127,611 yn 1921. Fodd bynnag, ymddengys fod y tueddiad hwn yn arafu a rhagwelir y bydd poblogaeth Blaenau Gwent yn cynyddu yn rhan gyntaf y 21ain ganrif.
- 3.5 Bu newid sylweddol ac adfywio yn yr ardal ers y 1970au. Cafodd rhai o'r terasau 19eg ganrif oedd wedi dod yn anaddas eu chwalu a gweithredwyd rhaglenni adnewyddu ar gyfer rhai o'r anheddau oedd ar ôl. Adeiladodd rhaglen tai cyngor sylweddol nifer o stadau ar ymylon y trefi a'r pentrefi.
- 3.6 Yn y 1980au dechreuodd yr ardal ar gyfnod o newidiadau sylweddol yn nhermau cyflogaeth. Arweiniodd cau'r holl byllau glo a cholli gwneud dur a swyddi gweithgynhyrchu cysylltiedig at golled ddifrifol mewn swyddi. Fodd bynnag, mae llawer o'r cyn safleoedd hyn wedi manteisio o gynlluniau adfywio cymunedol. Gwnaeth y Cyngor ymdrech benderfynol, drwy amrywiaeth o ddulliau, i ddenu mewnfuddsoddiad i'r ardal ac ysgogi ehangu busnesau cynhenid. Roedd ailddatblygu ar safle'r hen waith dur (Safle'r Wyl Gerddi) yn cynnwys llawer o dai preifat newydd mawr eu hangen, parciau, canolfan fanwerthu a pharc busnes newydd.
- 3.7 Bu gwelliant syfrdanol yn y bryntni amgylcheddol a'r llygredd a oedd yn sgil-gynnyrch diwydiannoli cyflym. Mae'r tirlun wedi newid - cafodd tomennydd gwastraff oedd unwaith mor amlwg yn y cymoedd eu symud neu eu tirlunio.


- 3.8 Yn dilyn ei dynodi fel ardal Amcan Un yr Undeb Ewropeaidd yn 2000, a chyflwyno Rhaglen Blaenau'r Cymoedd yn 2006, cyflymodd y broses tuag at drawsnewid. Buddsoddwyd adnoddau ychwanegol a daeth y canlyniadau yn fwy amlwg. Mae agor y rheilffordd i Gaerdydd, gwelliannau yng nghanol trefi, buddsoddiad mewn cyfleusterau diwylliannol megis y Metropole yn Abertyleri, Sefydliad Glynebwy a Sefydliad Llanhilledd eisoes yn adfywio rhannau o'r Fwrdeisdref.

Ffigur 1: Cyd-destun Aneddiadau



HERIAU I'R DYFODOL

- 3.9** Mae gan y Cyngor lawer ar ôl i'w wneud. Diben y Cynllun Datblygu Lleol yw cefnogi camau nesaf adfywio parhaus yr ardal drwy ddarparu'r fframwaith statudol ar gyfer llywio patrwm gofodol newydd, ac ansawdd yr amgylchedd a ffurfiau dylunio. Bydd hyn yn golygu parhau a gwella'r hyn a ddechreuwyd eisoes a hefyd ragweld y tueddiadau mwy diweddar mewn cymdeithas ac adlewyrchu anghenion a chyfleoedd newydd. Mae angen mynd i'r afael â'r heriau dilynol:
- 3.10 Her 1: Amrywiaethu'r economi** Mae'r ardal yn dioddef o lefelau uchel o ddiweithdra ac anweithgaredd economaidd, dibyniaeth uchel ar fudd-daliadau a chyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig sydd gyda'i gilydd yn arwain at incwm aelwydydd isel. Mae sicrhau swyddi ar gyfer y dyfodol yn her allweddol i'r ardal. Bydd hyn yn golygu cynyddu'r gyfran o swyddi mewn sectorau gyda rhagolygon da am dwf, megis gwasanaethau, busnes seiliedig ar wybodaeth, gweithgynhyrchu uwch, twristiaeth a thechnolegau cynaliadwy. Yr her yw darparu tir, gwasanaethau ac amgylcheddau fydd yn denu buddsoddiad.
- 3.11 Her 2: Rolau newydd ar gyfer canol trefi** Mae canol trefi'n dioddef o gyfraddau uchel o adeiladau gwag a phresenoldeb isel manwerthwyr cenedlaethol o gymharu â threfi eraill yn y cymoedd. Mae'r rhan fwyaf yn dioddef oherwydd dominyddiaeth siopau manwerthu bwyd allan o'r dref. Mater allweddol yw bod y canol trefi yn cystadlu yn erbyn ei gilydd ac nad oes ganddynt rolau clir. Yr her yw darparu hierarchaeth fanwerthu newydd, dynodi rolau clir a chyfyngu difrod o ddatblygiadau manwerthu allan o'r dref.
- 3.12 Her 3: Sefydlogi'r boblogaeth** Bu'r ardal yn colli poblogaeth ers 1921, fel canlyniad i bobl yn gadael yr ardal i ganfod cyflogaeth mewn mannau eraill. Un o'r broblem gydag allfudiad net yw ei fod yn tueddu i ddigwydd ymysg y bobl fwy symudol ac economaidd weithgar. Yr her yw darparu tir ar gyfer tai a darparu'r swyddi i gadw pobl yn yr ardal.
- 3.13 Her 4: Diwallu anghenion tai a gwella tai** Adeiladwyd cyfran uchel o dai Blaenau Gwent cyn 1919, gyda 20% o hyn un ai'n anaddas neu angen atgyweirio sylweddol. Mae hefyd brinder yn nhermau fflatiau a thai ar wahân. Yn fwy diweddar daeth fforddioldeb yn broblem gan i brisiau tai godi'n sylweddol iawn yn 2006. Yr her yn awr yw sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnwys amrywiaeth o fathau tai a daliadaethau, bod tai sector cymdeithasol yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru gan fod o fudd i'r amgylchedd; gostwng y nifer o adeiladau gwag a gwella ansawdd stoc tai preifat.



- 3.14 Her 5: Gwella cyrhaeddiad addysg a sgiliau** Nid oes gan gyfran uchel o oedolion unrhyw gymwysterau ac mae cyrhaeddiad addysgol yn gyffredinol isel. Er bod cyrhaeddiad addysgol wedi gwella'n sylweddol yn ddiweddar, mae angen gwneud mwy yn y maes hwn. Yr her yw sicrhau y rhoddir y seilwaith yn ei le i gyflawni gofynion y Cynllun Plant a Phobl Ifanc a bod y cyfleusterau hyn yn hygyrch i bawb.
- 3.15 Her 6: Gwella hygyrchedd** Mae gallu cael mynediad i wasanaethau, swyddi a marchnadoedd yn ofyniad allweddol ar gyfer llwyddiant unrhyw ardal. Mae angen cysylltiadau da y tu mewn a'r tu allan i Flaenau Gwent. Yr her yw helpu i ddatblygu rhwydwaith trafndiaeth sy'n gwella cysylltiadau o fewn a thu allan i Flaenau Gwent. Mae gwneud ffordd Blaenau'r Cymoedd yn ffordd ddeuol a gwelliannau i reilffordd Glyn Ebwy yn allweddol.
- 3.16 Her 7: Creu rhwydwaith o ganolbwyntiau** Mae Blaenau Gwent yn cynnwys nifer o drefi a phentrefi ond dim ond ychydig sy'n ddigon mawr i fod yn hunangynhaliol yn nhermau ffurfio ystod a chymysgedd digonol o wasanaethau. Fel canlyniad, mae'n hollbwysig creu rhwydwaith o ganolbwyntiau i roi lefel gynaliadwy o wasanaethau ar gyfer yr ardal. Mae'r rhwydwaith yma o ganolbwyntiau hefyd yn rhan allweddol o sicrhau anheddiadau cynaliadwy lle gellir cael mynediad rhwydd i wasanaethau lleol a rhanbarthol drwy ddulliau trafndiaeth cynaliadwy.
- 3.17 Her 8: Cefnogi trafndiaeth gynaliadwy** Ar gyfer y tripiâu hynny sy'n rhaid eu gwneud, bydd angen i gyfran lawer mwy fod drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Byddai hyn hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i ostwng allyriadau carbon a darparu ar gyfer y rhai heb fynediad i gar. Mae perchnogaeth ceir yn isel ym Mlaenau Gwent ac mae'r gwasanaethau bysiau ar ddydd Sul yn wael. Yr her yw creu amgylchedd a rhwydwaith trafndiaeth lle daw'n ddewis mwy deniadol i gerdded, beicio neu deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- 3.18 Her 9: Hyrwyddo iechyd a llesiant i bawb.** Mae angen i ddiogelu ac adnewyddu anheddiadau roi ystyriaeth i bob agwedd o ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yno, yn cynnwys iechyd, diogelwch a rhyddid rhag ymyrraeth. Yn neilltuol, mae gan Blaenau Gwent ddisgwyliad oes isel a nifer uchel o bobl gyda salwch hirdymor cyfyngol. Mae ofn troseddu hefyd yn fater allweddol i breswylwyr. Yr her yw creu amgylcheddau sy'n hyrwyddo iechyd, diogelwch ac ymdeimlad o lesiant i bawb.
- 3.19 Her 10: Creu lle sy'n cefnogi ei amgylchedd gwyrdd** Mae gosodiad Blaenau Gwent, ar ffiniau Bannau Brycheiniog a Dyffryn Wysg, gyda mynyddoedd cadarn a chymoedd heddychlon, yn ased pwysig sydd angen ei werthfawrogi gan breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae'r amgylchedd naturiol gyda'i amrywiaeth o fywyd gwylt yn werthfawr ynddo'i hun ond gall hefyd gyfrannu at lesiant economaidd a chymdeithasol yr ardal. Yr her yw diogelu a hybu'r asedau naturiol i gefnogi adfywio Blaenau Gwent a hefyd fel nodweddion ynddynt eu hunain.
- 3.20 Her 11: Creu lleoedd gyda synnwyr neilltuol o hunaniaeth** Mae gan Flaenau Gwent leoliad, hanes a thirlun neilltuol a gallai hyn fod yn allweddol i drawsnewid yr ardal. Bydd yn golygu cyflwyno etifeddiaeth y gorffennol i genedlaethau'r dyfodol, yn cynnwys treftadaeth ardal oedd yn cynhyrchu haearn, glo a dur, y cysylltiadau

3.0 CYD-DESTUN A HERIAU BLAENAU GWENT

gyda mudiad y Siartwyr a man geni Aneurin Bevan. Yr her yw diogelu a hybu'r gorau o blith yr adeiladau a'r treflun.

- 3.21** Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i gymeriad, diwylliant a hanes Cymru. Er nad oes gan Flaenau Gwent nifer mor fawr o siaradwyr Gymraeg ag sydd mewn rhannau eraill o'r wlad, mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau fod y system cynllunio gofodol yn diogelu a hybu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig lle bo'n bosibl.
- 3.22 Her 12: Defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol** Mae defnydd cyfrifol o adnoddau ffisegol yr ardal yn rhan allweddol o ddyfodol gwell. Mae llygredd aer a dŵr, sŵn, halogiad tir a diffeithdod wedi bod yn falltodd ar yr ardal ers amser maith ac wedi effeithio ar iechyd a llesiant pobl ac mae hon yn etifeddiaeth sydd angen ei hunioni. Mae newid hinsawdd yn golygu fod yr ardaloedd lle mae risg llifogydd yn cynyddu. Aiff llawer o wastraff i domen lanw ac mae angen gostwng hynny. Mae angen cyfyngu ecsbloetiad mwynau. Yr her yw helpu i sicrhau fod yr amgylchedd ffisegol yn iach a diogel, y caiff tir ei ddefnyddio'n effeithiol; y caiff gwastraff ei leihau, ei ailgylchu a'i brosesu'n gynaliadwy; a bod ail-ddefnyddio neu ailgylchu deunyddiau adeiladau a dymchwel a gwastraff diwydiannol yn gostwng faint o wastraff a gynhyrchir a hefyd yn cadw adnoddau prin a lleihau difrod i'r amgylchedd.
- 3.23 Her 13: Dylunio a datblygu cynaliadwy** Mae gan Blaenau Gwent y potensial i gynhyrchu llawer mwy o'i ynni ei hun drwy ddulliau cynaliadwy sy'n gostwng allyriadau carbon. Gallai dyluniad a gosodiad adeiladau gyfrannu at ostyngiad yn y defnydd o ynni a'r nwyon tŷ gwydr a allyrrir. Yn y cyfamser, mae peth newid mewn hinsawdd yn sicr o ddigwydd a bydd angen addasu ar gyfer hyn yn natblygiad yr ardal yn y dyfodol. Yr her yw helpu, drwy'r broses ddatblygu, i sicrhau'r potensial ar gyfer gostwng nwyon tŷ gwydr ac effeithiau newid hinsawdd.
- 3.24 Her 14: Lledaenu manteision adfywio** Wrth ochr yr heriau, mae cyfleoedd sydd angen eu cymryd. Er enghraifft, daeth cau'r gwaith tunplat yng Nglynebwy yn 2002 â newidiadau sylfaenol i strwythur economi Blaenau Gwent, gan golli ffynhonnell o gyflogaeth sicr ar gyflogau da. Mae'n awr yn cynrychioli cyfle adfywio trawsnewidiol enfawr fydd ag effaith dybryd ar yr amgylchedd a'r economi lleol. Yn ogystal, mae cynlluniau ar gyfer y safle hwn wedi creu cyfle adfywio allweddol arall i'r gogledd o ganol tref Glynebwy. Yr her yw sicrhau y caiff manteision adfywio'r safleoedd hyn eu lledaenu ar draws Blaenau Gwent.
- 3.25 Mae'r heriau hyn yn rhoi darlun clir o'r hyn y mae angen i'r Cynllun Datblygu Lleol fynd i'r afael ag ef.**

4.0 GWELEDIGAETH AC AMCANION

GWELEDIGAETH

- 4.1 Gyda dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r ardal, cafodd Gweledigaeth gyffrous a heriol o sut y dylai'r ardal edrych mewn 15 mlynedd ei datblygu a bydd yn llywio datblygiad Blaenau Gwent yn y dyfodol. Mae'r Weledigaeth yn cynnwys Gweledigaeth y Strategaeth Gymunedol o wneud Blaenau Gwent yn *'lle gwell i fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef'*.

Drwy gydweithio, erbyn 2021 daw Blaenau Gwent yn rhwydwaith o gymunedau cynaliadwy a bywiog lle mae gan bobl y sgiliau, yr wybodaeth a'r cyfleoedd i sicrhau gwell ansawdd bywyd a bydd preswylwyr yn byw mewn cymunedau diogel, iach a ffyniannus, gyda mynediad i ystod o dai fforddiadwy ansawdd da a chanol trefi llewyrchus. Caiff yr amgylchedd a hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol unigryw Blaenau Gwent eu diogelu a'u gwella i greu lle bydd pobl eisiau byw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef.

AMCANION

Gwireddu'r Weledigaeth

- 4.2 Cafodd y Weledigaeth ei gwahanu yn bedair thema allweddol, a dynodwyd 16 amcan ynddynt i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir.

Thema 1: Creu Rhwydwaith o Gymunedau Cynaliadwy a Bywiog

1. Erbyn 2021, Glynebwy fydd y prif ganolbwynt gwasanaeth a manwerthu ar gyfer y Fwrdeisdref Sirol a gefnogir gan rwydwaith o ganolbwyntiau ardal/lleol bywiog sy'n darparu ystod o wasanaethau a chyfleusterau lleol ar gyfer eu
2. cymunedau lleol. Bydd cysylltiad da rhwng y canolbwyntiau ardal â phrif ganolbwynt Glynebwy drwy dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth.
(Gweler Polisiâu Strategol 1, 2, 3 a 6)
3. Erbyn 2021, bydd y boblogaeth wedi cynyddu o 68,914 i 70,849 fel canlyniad i newid naturiol a phobl yn cael eu denu i'r ardal. Bydd y strwythur poblogaeth cyffredinol yn gyffredinol yn debyg i'r hyn yw yng Nghymru.
(Gweler Polisiâu Strategol 4 a 5)
4. Erbyn 2021, bydd 3,500 o gartrefi newydd wedi eu hadeiladu, gyda thua 1,000 ohonynt yn fforddiadwy. Bydd safleoedd tai newydd ynghyd â gwelliannau i gartrefi presennol wedi helpu i greu cymunedau cynaliadwy.
(Gweler Polisiâu Strategol 4 a 5)
5. Erbyn 2021, bydd darpariaeth dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth, yn arbennig drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio wedi cynyddu a bydd amllder y system drafnidiaeth gyhoeddus wedi gwella.
(Gweler Polisi Strategol 6)

4.0 GWELEDIGAETH AC AMCANION

6. Cafodd pob datblygiad eu hadeiladu yn unol gyda chanllawiau dylunio, ac maent yn gynaliadwy, yn ddiogel drwy ddyluniad ac yn addas ar gyfer eu cyd-destun ac wedi helpu i wella ansawdd yr amgylchedd ffisegol a naturiol.
(Gweler Polisi Strategol 7)
7. Mae datblygiadau newydd wedi lleihau cyfraniadau pellach i newid hinsawdd a lle, briodol, wedi eu lliniaru neu addasu i'r effeithiau a ragwelir. Cyflawnwyd hyn drwy:
 - Uchafu'r defnydd o dir;
 - Hyrwyddo ail-ddefnyddio ac adfer tir ac adeiladau diffaith;
 - Drwy ffocysu datblygiad ymaith o ardaloedd sy'n agored i lifogydd;
 - Drwy ostwng defnydd ynni drwy wella dylunio a lleoli datblygiad yn agos at ganolbwyntiau a llwybrau trafndiaeth gyhoeddus; a
 - Drwy gynyddu'r cyflenwad o ynni adnewyddadwy.*(Gweler Polisi Strategol 7)*

Thema 2: Creu Cyfleoedd ar gyfer Twf Economaidd Cynaliadwy a Hyrwyddo Dysgu a Sgiliau

7. Erbyn 2021 bydd y cynlluniau adfywio ar gyfer 'Y Gweithfeydd', Coridor Gogleddol Glynebwy a safleoedd adfywio allweddol eraill wedi eu sicrhau gan fod o fudd i breswylwyr y Fwrdeisdref Sirol drwy ddarparu swyddi, cartrefi, cymuned a seilwaith gwyrdd.
(Gweler Polisiâu Strategol 1, 2, 3, 8 a 9)
8. Erbyn 2021, bydd cyfraddau cyflogaeth a gweithgaredd economaidd wedi cynyddu a diweithdra wedi gostwng gyda lefelau'n nes at y cyfartaleddau cenedlaethol. Cyflawnwyd hyn drwy arallgyfeirio'r sylfaen economaidd i adeiladu, gwasanaethau busnes, iechyd a gofal cymdeithasol, twristiaeth a hamdden a diwydiannau amgylcheddol, tra'n cefnogi'r sector gweithgynhyrchu.
(Gweler Polisi Strategol 1 a 8)
9. Erbyn 2021, bydd 50 hectar o dir cyflogaeth ac amrywiaeth o safleoedd wedi eu darparu sy'n diwallu anghenion busnesau lleol ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol.
(Gweler Polisi Strategol 8)
10. Erbyn 2021, bydd cyflenwi'r Hafan Dysgu, ysgolion newydd a gwasanaethau addysg integredig, yn cynnwys dysgu gydol oes, wedi hwyluso gwelliannau ac ehangu cyfleoedd ar gyfer lefelau addysg a sgiliau.
(Gweler Polisi Strategol 8)

4.0 GWELEDIGAETH AC AMCANION

Thema 3: Creu Cymunedau Diogel, Iach a Bywiog a Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig Unigryw

11. Erbyn 2021, bydd rhwydwaith hygyrch o ofodau gwyrdd agored a seilwaith hamdden ansawdd uchel wedi helpu i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden egnïol ac yn cyfrannu at welliannau mewn iechyd a llesiant.
(Gweler Polisi Strategol 9)
12. Cafodd tirlun gwerthfawr Blaenau Gwent ei ddiogelu, ei wella a'i reoli ac ynghyd ag elfennau eraill o'r dreftadaeth naturiol, wedi helpu i feithrin twristiaeth gynaliadwy a hyrwyddo balchder cymunedol.
(Gweler Polisi Strategol 10)
13. Erbyn 2021, cafodd adnoddau bioamrywiaeth Blaenau Gwent eu gwella a chafodd cysylltedd rhwydweithiau ecolegol eu gwella o lefelau 2006.
(Gweler Polisi Strategol 2 a 10)
14. Cafodd amgylchedd hanesyddol a diwylliannol Blaenau Gwent ei ddiogelu a'i wella a chyfrannodd at adfywiad yr ardal.
(Gweler Polisi Strategol 2 a 11)

Thema 4: Creu cyfleoedd i sicrhau Cyflenwad Digonol o Adnoddau a Gostwng Gwastraff

15. Erbyn 2021, cafodd y 3 miliwn tunnell o adnoddau mwynol y mae'r Cynllun Rhanbarthol yn galw am eu darparu ym Mlaenau Gwent eu dynodi a diogelwyd adnoddau o bwysigrwydd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
(Gweler Polisi Strategol 12)
16. Mae dull gweithredu cynaliadwy ac integredig o reoli gwastraff wedi lleihau cynhyrchu gwastraff a'i effaith ar yr amgylchedd, ac uchafu'r defnydd o wastraff na fedrir ei osgoi fel adnodd. Erbyn 2021, cafodd y targedau ailgylchu a chompostio cenedlaethol a amlinellwyd yn Strategaeth Gwastraff: 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' eu cyflawni.
(Gweler Polisi Strategol 13)

- 4.3** Os yw'r Weledigaeth ar gyfer y Fwrdeisdref Sirol i gael ei gwireddu, mae'n rhaid gwneud cynnydd i gyflawni'r amcanion hyn. Rhaid cydnabod na all un ai'r Cynllun na'r Cyngor gyflawni'r Weledigaeth hon ar eu pen eu hunain a bod angen cefnogaeth gwahanol bartneriaid yn cynnwys sefydliadau sector cyhoeddus eraill, y sector preifat a'r sector gwirfoddol ac, yn bwysicaf oll, breswylwyr Blaenau Gwent.

4.0 GWELEDIGAETH AC AMCANION


5.0 STRATEGAETH OFODOL

- 5.1 Mae'r Bennod hon yn cyflwyno'r Strategaeth ar gyfer Blaenau Gwent, hynny yw, mae'n dynodi'r lleoliadau bras ar gyfer cyflawni anghenion datblygu strategol megis tai, cyflogaeth, manwerthu a seilwaith, sydd eu hangen i sicrhau y caiff y Weledigaeth ei chyflawni'n llwyddiannus.
- 5.2 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi rhoi ystyriaeth i argaeledd safleoedd; parodrwydd y sector preifat i fuddsoddi, sensitifrwydd yr amgylchedd; y seilwaith trafnidiaeth a gwasanaethau sylfaenol ar draws Blaenau Gwent; canlyniadau cyfranogiad y cyhoedd ac ymgynghoriad; a chanlyniad yr Arfarniad Cynaliadwyedd, wrth benderfynu ar Strategaeth Ofodol '**Twf ac Adfywio**'.

Twf ac Adfywio

- 5.3 Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar adfywio'r ardal drwy adeiladu rhwydwaith o ganolbwyntiau ardal o amgylch prif ganolbwynt Glynebwy, tra'n cydnabod fod rhaniad gogledd de yn nhermau cyfleoedd i dyfu. Mae creu rhwydwaith integredig o ganolbwyntiau modern sydd wedi eu hadfywio yn rhoi cyfle i drawsnewid yr ardal. Mae'n creu dull i gydlynu buddsoddiad a sicrhau y caiff manteision twf ac adfywio eu rhannu'n eang. Mae sicrhau cysylltiadau da rhwng prif ganolbwynt Glynebwy a chanolbwyntiau ardal Tredegar, Brynmawr ac Abertyleri yn hollbwysig i sicrhau hyn, yn eu tro yn sicrhau bod pob canolbwynt yn hygyrch i'r ardaloedd a wasanaethant. Yn achos ardal Ebwy Fach Uchaf, caiff Canolbwynt Ardal Brynmawr hefyd ei gefnogi gan ganol tref leol Blaenau, sy'n gwasanaethu anghenion lleol. Cefnogir ardaloedd pob un o'r 4 canolbwynt gan Gynlluniau Adfywio Ardal Holistig sy'n darparu prosiectau a chamau gweithredu mwy manwl i sicrhau y caiff yr ardaloedd hyn eu hadfywio drwy weithio partneriaeth.

Ffigur 2: Diagram Cysylltiadau Trefi



5.0 STRATEGAETH OFODOL

ARDAL STRATEGAETH Y GOGLEDD - TWF AC ADFYWIO

- 5.4 Mae ardal Strategaeth y Gogledd yn cynnwys: tair ardal canolbwynt Tredegar, Glynebwy ac Ebwy Fach Uchaf. Mae'r pwyslais ar dwf ac adfywio cynaliadwy gyda'r rhan fwyaf o dwf wedi'i grynhoi yn ardal prif ganolbwynt Glynebwy.

Tai

- 5.5 Mae atal y gostyngiad mewn poblogaeth yn her allweddol ar gyfer yr ardal. Mae galluogi'r twf mewn poblogaeth o 68,914 i 70,849 yn rhan bwysig o'r Strategaeth yma. I ddarparu ar gyfer y twf hwn bydd angen 3,500 o gartrefi newydd rhwng 2006-2021. Mae rhan helaeth o'r twf hwn oherwydd y cynnydd yn nifer yr aelwydydd un-person. Darperir dros 80% o dai newydd yn Ardal Strategaeth y Gogledd gyda 56% yng Nglynebwy, yn bennaf mewn dau safle strategol sef Coridor Gogledd Glynebwy a'r 'Gweithfeydd'. Bydd Tredegar yn darparu 23% o'r tai ac Ebwy Fach Uchaf yn darparu 14%.

Ardaloedd Allweddol ar gyfer Newid

- 5.6 Caiff elfen sylweddol o'r twf hwn ei dargedu ar Lynebwy er mwyn manteisio ar gyfleoedd enfawr ar gyfer adfywio trawsnewidiol. Dynodwyd dau safle strategol. Yr ardal gyntaf yw Coridor Gogledd Glynebwy lle mae ardaloedd helaeth o dir cyflogaeth ar gael a daw tir pellach ar gael oherwydd y bydd rhai safleoedd yn adleoli i'r 'Gweithfeydd'. Yr ail ardal yw safle'r hen waith dur, a gaiff yn awr ei alw 'Y Gweithfeydd', sydd eisoes â chaniatâd cynllunio. Yn yr ardaloedd hyn y bydd y newid mwyaf.

- 5.7 Bydd **Coridor Gogledd Glynebwy yn darparu:**

- Safle cyflogaeth strategol
- Cyflogaeth a gwasanaethau ochr ffordd
- Canolbwynt hamdden masnachol
- 700 o gartrefi

- 5.8 Bydd **'Y Gweithfeydd'** yn darparu:

- Ysbyty cyffredinol lleol
- Parc busnes
- Hafan Dysgu
- Canolfan hamdden
- Canolfan gelfyddydau
- Tua 520 o gartrefi

Cyflogaeth

- 5.9 Her allweddol arall i'r ardal yw cynyddu cyfleoedd cyflogaeth a sicrhau amrywiaeth economi. Mae sicrhau ystod a chymysgedd addas o safleoedd cyflogaeth ansawdd uchel a all gefnogi anghenion cyflogaeth sy'n datblygu yn her allweddol arall i'r ardal. Mae dyraniadau cyflogaeth newydd wedi eu crynhoi yn ardal Glynebwy (85%). Mae cyrhaeddiad addysgol isel a diffyg sgiliau yn her arall i'r ardal. Bydd gan

yr Hafan Dysgu newydd sydd ar y gweill ar gyfer safle 'Y Gweithfeydd' ran allweddol wrth fynd i'r afael â'r her yma.

Canol Trefi

- 5.10 Mae hyfywedd canol trefi yn her allweddol arall. Bu dynodi hierarchaeth manwerthu yn rhan sylweddol o'r strategaeth. Mae Glynebwy i ddod yn ganolfan fanwerthu isranbarthol, felly mae mwyafrif y datblygiad manwerthu newydd yn canolbwyntio ar Lynebwy. Dynodir Tredegar a Brynmawr fel canolfannau siopa ardal a byddant yn bennaf yn gwasanaethu anghenion eu hardaloedd eu hunain. Dynodir Blaenau fel canol tref leol i wasanaethu anghenion lleol. Mae'r Cynllun hefyd yn dynodi rolau newydd ar gyfer canol trefi. Daw Glynebwy yn ganolfan weinyddol a diwylliannol Blaenau Gwent. Bydd canol trefi Tredegar, Brynmawr a Blaenau yn ymchwilio rolau ategol yn ymwneud â thwristiaeth, treftadaeth a diwylliant.

Trafnidiaeth

- 5.11 Bydd angen gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus i hwyluso'r lefel yma o ddatblygiad a chânt eu darparu drwy gyfnewidfeydd bysiau gwell yng Nglynebwy a Brynmawr; ymestyn rheilffordd Glynebwy i adeilad y Swyddfa Gyffredinol yn 'Y Gweithfeydd'; gorsaf reilffordd newydd yng Nglynebwy a Cwm; a gwelliannau i'r rhwydwaith cerddwyr/beiciau. Mae angen gwella ffordd yr A4046 rhwng ffordd Blaenau'r Cymoedd a'r 'Gweithfeydd' a chaiff ffordd ddosbarthu ymylol newydd ei hadeiladu drwy safle'r 'Gweithfeydd'. Bydd y cynnig i wneud ffordd Blaenau'r Cymoedd rhwng Tredegar a Brynmawr yn ffordd ddeuol yn cynorthwyo i ysgogi adfywiad a thwf yr ardal yma. Mae hefyd angen gwella cysylltiadau ffordd pwysig i'r de os yw Blaenau Gwent i gael cysylltiadau da gydag aneddiadau allweddol Cynllun Gofodol Cymru yn y de.

ARDAL STRATEGAETH Y DE - ADFYWIO

- 5.12 Mae ardal Strategaeth y De yn cynnwys Cwm Ebwy Fach Isaf. Bydd y ffocws ar adfywio'r ardal ac uchafu'r potensial a gynigir gan osodiad unigryw a nodweddion diwylliannol yr ardal. Mae ardal y de yn wahanol i'r gogledd oherwydd topograffeg yn yr ardal. Mae'r cwm yn culhau yn yr ardal yma ac ochrau'r cwm yn fwy serth. Mae'r aneddiadau ar ochrau'r cwm.

Tai

- 5.13 Ychydig o gyfle sydd i ddarparu tai oherwydd diffyg safleoedd addas, felly dim ond 7% o gartrefi newydd a ddyrannwyd i'r ardal hon. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar adfywio'r ardal drwy ailddefnyddio adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio ac adeiladau diffaith.

Canol Trefi

- 5.14 Abertyleri yw'r canolbwynt ardal sy'n gwasanaethu'r aneddiadau o amgylch a chaiff ei dynodi fel ganolfan siopa ardal. Bydd canol y dref hefyd yn ymchwilio cyfleoedd i ddatblygu rolau ategol yn ymwneud â hamdden a thwristiaeth.

5.0 STRATEGAETH OFODOL


Cyflogaeth

- 5.15 Yn nhermau cyflogaeth, dyrannwyd dros 2ha o dir ym Mharc Busnes Roseheyworth a dynodwyd prosiect twristiaeth yn Llynnoedd Cwmtlyeri.

Trafnidiaeth

- 5.16 Bydd rheilffordd a gorsaf newydd yn gwella cysylltiadau gyda Chasnewydd a Chaerdydd, a bydd cynlluniau i wella coridor bysus Brynmawr i Gasnewydd yn gwella gwasanaethau bws. Yn nhermau ffyrdd, yr allwedd yw sicrhau gwelliannau yn yr arfaeth i'r A467 i'r de o Abertyleri.

Ffigur 3: Diagram Allweddol



6.0 POLISIAU STRATEGOL

- 6.1 Mae'r Bennod hon yn cyflwyno'r Strategaeth yn fwy manwl drwy ddynodi polisiau strategol ar bob agwedd o ddatblygu. Mae'r polisiau'n seiliedig ar y themâu a ddynodwyd o'r Weledigaeth ac yn trafod yr amcanion y mae angen i'r Cynllun Datblygu Lleol eu cyflawni.

CREU RHWYDWAITH O GYMUNEDAU BYWIOG A CHYNALIADWY

SP1 Ardal Strategaeth y Gogledd - Twf ac Adfywio Cymunedol

Bydd angen i gynigion yn Ardal Strategaeth y Gogledd sicrhau twf ac adfywio cynaliadwy sydd er budd Blaenau Gwent i gyd. Cyflawnir hyn drwy:-

- a. Gefnogi creu rhwydwaith o ganolbwyntiau cynaliadwy o amgylch prif ganolbwynt Glynebwy.
- b. Hyrwyddo Glynebwy fel prif ganolbwynt Blaenau Gwent lle bydd y rhan fwyaf o dwf cymdeithasol ac economaidd yn digwydd yn cynnwys datblygiadau manwerthu sylweddol a datblygiadau gweinyddol a diwylliannol.
- c. Cyflenwi cynlluniau arweiniol adfywio cynaliadwy strategol yn 'Y Gweithfeydd' a 'Choridor Gogleddol Glyn Ebwy'.
- ch. Cefnogi rolau newydd ar gyfer canol trefi ardaloedd a lleol:-
 - Bydd Canol Tref Ardal Tredegar yn ehangu ei gynig twristiaeth drwy uchafu manteision treftadaeth leol;
 - Bydd Canol Tref Ardal Brynmawr yn ymchwilio cyfleoedd i ddatblygu rolau ategol yn ymwneud â thwristiaeth; a bydd
 - Canol Tref Leol Blaenau yn adeiladu ar ac yn ymelwa ar ei dreftadaeth leol.
- d. Galluogi amrywiaeth yn y sylfaen economaidd drwy ddatblygiad defnydd cymysg yng nghanolbwyntiau ardal Tredegar a Brynmawr lle mae'n cefnogi ac atgyfnerthu rolau y canol trefi.
- dd. Cefnogi atyniad cyrchfan newydd a fyddai'n denu nifer fawr o bobl i'r ardal a darparu nifer sylweddol o swyddi.

- 6.2 Bu lefelau uchel o fuddsoddiad cyhoeddus yn seilwaith Ardal Strategaeth y Gogledd ac aeth hyn law yn llaw â buddsoddiad sector preifat. Mae strategaeth datblygu'r Cynllun yn anelu i adeiladu ar gyfleoedd adfywio sylweddol yn yr ardal i sicrhau fod holl ardal Blaenau Gwent yn cael budd.


6.0 POLISIAU STRATEGOL

- 6.3 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn dynodi Glynebwy fel anheddiad allweddol sydd â rôl hollbwysig yn llwyddiant Rhanbarth y Brifddinas. Mae'r Strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd Glynebwy ac yn ei dynodi fel y prif ganolbwynt yng nghanol y rhwydwaith o ganolbwyntiau cysylltiedig ar draws y Fwrdeisdref Sirol. Mae agoriad diweddar cysylltiad rheilffordd i Gaerdydd, gwaith cyfredol ar Ffordd Blaenau'r Cymoedd ac argaeledd dau safle strategol yn rhoi cyfleoedd sylweddol i Lynebwy.
- 6.4 Disgwylir i Brif Canol Tref Glynebwy berfformio rôl fanwerthu isranbarthol (Polisi SP3) tebyg i Ferthyr Tudful ac Aberdâr. Glynebwy fydd y brif ganolfan fanwerthu lle bydd y pwyslais ar gydbwysedd da rhwng siopa cymharu (dim bwyd) a siopa cyfleuster (bwyd). Dyrennir tir ar gyfer manwerthu cymharu a chyfleuster newydd yng nghanol tref Glynebwy, dan bolisi R1. Glynebwy fydd y ffocws ar gyfer darpariaeth gwasanaeth ym Mlaenau Gwent a bydd yn darparu gwasanaethau megis yr ysbyty, Hafan Dysgu, canolfan gelfyddydol a'r brif ganolfan ddinesig. Caiff rôl ddiwylliannol Glynebwy ei datblygu drwy gynlluniau i ymestyn ac adnewyddu'r Swyddfeydd Cyffredinol hanesyddol yn hen waith dur Glynebwy i fod yn atyniad hanes teulu ac achau i ymwelwyr fydd hefyd yn cynnwys adleoli Archifdy Gwent. Mae hefyd gynlluniau ar gyfer defnyddio Sefydliad Glynebwy ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, dysgu a menter gymdeithasol.
- 6.5 Mae'r Strategaeth hefyd yn cydnabod potensial dau safle tir llwyd allweddol ym mhrif ganolbwynt Glynebwy a allai gynnwys datblygiadau newydd sylweddol i helpu adfywio'r ardal. Mae gan hen safle'r gwaith dur, Y Gweithfeydd, ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer tai, ysbyty, Hafan Dysgu, canolfan hamdden, canolfan ddiwylliannol, canolfan gelfyddydau, canolfan adnoddau amgylcheddol, cyflogaeth, gorsaf reilffordd newydd a gofod agored yn cynnwys parc gwlypdir. Mae'r gwaith o adfer y safle 80ha yn mynd rhagddo'n dda.
- 6.6 Mae safle Coridor Gogleddol Glynebwy wedi'i ddyrannu ar gyfer defnydd cymysg yn cynnwys tai, cyflogaeth a hamdden. Un o gryfderau'r safle yw ei sefyllfa yng nghyswllt Ffordd Blaenau'r Cymoedd a'i rôl fel porth o'r gogledd i ganol Glynebwy. Mae dros 70 hectar o dir ar gael neu daw ar gael dros gyfnod y Cynllun, ac mae safle cyflogaeth strategol mewn sefyllfa flaenllaw ar Ffordd Blaenau'r Cymoedd yn rhan o hynny. Mae'r safle'n cynnig cyfleoedd i ymateb i anghenion cymunedol ac integreiddio agweddau amgylcheddol ar gyfer manteision cadarnhaol.
- 6.7 Bydd y ddau safle yn gynlluniau arweiniol ac yn cynnwys safonau uchel o ddylunio.
- 6.8 Dynododd rhanddeiliaid a phreswylwyr fod rôl canol trefi yn fater allweddol. Mae'r Cynllun yn anelu i ddynodi rolau newydd ar gyfer canolfannau trefi ardal a lleol er mwyn iddynt fanteisio o'r twf arfaethedig mewn twristiaeth a hamdden. Bydd Canol Tref Ardal Tredegar yn uchafu'r cyfleoedd i ddatblygu rolau ategol o amgylch twristiaeth. Mae'r buddsoddiad arfaethedig yn Nhŷ a Pharc Bedwellte a datblygu Parc Bryn Bach yn rhoi cyfle i Dredegar ddenu ymwelwyr ac i'r dref fanteisio drwy ddarparu ar gyfer anghenion yr ymwelwyr. Mae'r etifeddiaeth hanesyddol yn rhoi cyfle i adeiladu cyfleoedd twristiaeth o amgylch llwybrau treftadaeth megis Llwybr Aneurin Bevan a llwybrau'r Gwneuthurwyr Haearn.

- 6.9 Mae lleoliad Brynmawr fel porth i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Rhanbarthol y Cymoedd a Safle Treftadaeth Byd Blaenafon yn rhoi cyfle i wasanaethu ymwelwyr un ai drwy roi cyfleuster aros (cyfarwyddo a rhoi gwybodaeth i deithwyr) neu drwy annog pobl i aros dros nos ym Brynmawr. Mae Brynmawr hefyd yn fan cychwyn Llwybr Ebwy Fach ac mae ganddi amgueddfa sy'n adlewyrchu'r dreftadaeth leol gyfoethog.
- 6.10 Bydd Canol Tref Leol Blaenau yn anelu i adeiladu ar ac ymelwa ar ei threftadaeth leol. Mae etifeddiaeth hanesyddol y dref yn rhoi cyfleoedd i adeiladu cyfleoedd twristiaeth o amgylch llwybrau treftadaeth mewn cysylltiad gyda Mudiad y Siartwyr yn yr ardal. Sefydlwyd Arddangosfa a Gwybodaeth y Siartwyr eisoes yng Nghapel Salem yng nghanol y dref. Mae gan yr ardal hefyd gysylltiadau cryf gyda'r diwydiant glo a gweithiau haearn o gofio mai Nantyglo a Blaenau oedd y ganolfan fwyaf yn y byd ar gyfer cynhyrchu haearn ar un amser.
- 6.11 Bydd gan ddigwyddiadau twristiaeth, hamdden a diwylliannol yng nghanol y trefi rôl allweddol ym mhroffil Blaenau Gwent a denu ymwelwyr i'r ardal.
- 6.12 Caiff cynlluniau defnydd cymysg sy'n diwallu anghenion eu hardaloedd a chefnogi rôl y trefi eu hannog yng nghanolbwyntiau Tredegar a Brynmawr. Rhoddir cefnogaeth neilltuol lle mae cynlluniau yn gwella cyflogaeth yng nghanol y trefi yn y sectorau manwerthu, gwasanaeth, hamdden neu dwristiaeth.
- 6.13 Os yw twristiaeth i fod â mwy o rôl yn economi ac adfywio'r ardal, mae Blaenau Gwent angen atyniad cyrchfan sylweddol. Mae Brynmawr mewn safle da o ran mynediad i Ffordd Blaenau'r Cymoedd a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae felly botensial gwych ar gyfer atyniad a fedrai ddenu nifer fawr o bobl i'r ardal a darparu nifer sylweddol o swyddi.
- 6.14 Disgwylir i unrhyw gynigion greu delwedd gref o Flaenau Gwent a chynyddu ei phroffil yn yr arena genedlaethol a rhyngwladol. Mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn dderbyniol yn nhermau eu heffaith ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig a defnyddiau tir cyfagos.

Amcanion, Polisiâu Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcanion:** 1,5, 6, 7 a 8
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM3, DM5 a DM6
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, MU3, AA1, R1, T1, T2, T4 and T6
- **Papurau Cefndir:** Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Glynebwy, Prif Gynllun 'Y Gweithfeydd' a Manwerthu (wedi'i ddiweddarau)



6.0 POLISIAU STRATEGOL

SP2 Ardal Strategaeth y De – Adfywio

Bydd angen i gynigion yn Ardal Strategaeth y De adfywio'r ardal drwy:-

- a. Sicrhau bod cysylltiadau da rhwng canolbwynt ardal Abertyleri a Glynebwy, ei ganolbwynt ardal, a'r rhanbarth ehangach drwy gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus diogel, aml a dibynadwy;
- b. Cefnogi Canol Tref Ardal Abertyleri i ddatblygu rolau ategol yn ymwneud â diwylliant, hamdden a thwristiaeth;
- c. Cyflenwi cyfleoedd 'twristiaeth gweithgaredd' yn yr ardal;
- ch. Sicrhau symud diffeithdod drwy hyrwyddo aildddefnydd tir ac adeiladau diffaith;
- d. Cyflenwi cynlluniau adfywio sy'n darparu datblygiad preswyl a seilwaith; a
- dd. Adeiladu ar hunaniaeth unigryw yr ardal drwy ddiogelu a gwella'r amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol.

- 6.15 Y prif wahaniaeth rhwng y de a'r gogledd yw bod llai o gyfleoedd ar gyfer datblygu yn y de, nid yw'r cysylltiadau gystal ac mae cyfyngiadau topograffig. Fodd bynnag, mae gan yr ardal ymdeimlad cryf o falchder cymunedol a thirlun ysblennydd. Mae angen i'r Strategaeth adeiladu ar y cryfderau hyn er mwyn sicrhau adfywio a chreu cymunedau cynaliadwy.
- 6.16 Mae'n bwysig fod gan yr ardal hon gysylltiadau da gyda Glynebwy a'r rhanbarth ehangach. Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o gynigion ar gyfer rheilffordd, cerdded, beicio a gwelliannau i ffordd yr A467 a fydd yn helpu i fynd i'r afael â mater hygyrchedd. Mae hefyd gynlluniau i wella'r gwasanaeth bysus ar hyd coridor yr A467. Ac eithrio gwelliannau beicio a bysus, disgwylir yr holl welliannau tuag at ddiwedd cyfnod y Cynllun (mae manylion pellach yn y tabl Cyflenwi a Gweithredu ym Mhennod 9).
- 6.17 Bydd Canol Tref Abertyleri yn ymchwilio'r cyfleoedd i ddatblygu rolau ategol yn ymwneud â hamdden a thwristiaeth. Mae The Guardian ym Mharc Arrael Griffin eisoes yn profi'n atyniad twristiaeth poblogaidd y dylai Abertyleri gael budd ohono. Un o gryfderau Canol Tref Ardal Abertyleri yw sefyllfa'r ganolfan o gymharu â'r tirluniau coetir a thir uchel. Mae cyfleoedd i ddatblygu seilwaith newydd i alluogi pobl i ddefnyddio'r amgylcheddau hyn ac i ymchwilio'r cwmpas ar gyfer beicio mynydd fel ffordd o 'agor lan' gosodiad naturiol y dref. Bydd y gwaith diweddar i adnewyddu'r Metropole a'r buddsoddiad yng nghanol y dref yn hybu rôl ddiwylliannol Abertyleri yn nhermau celfyddydau ac adloniant. Mae'r rôl ddiwylliannol eisoes wedi ei gwella yn ardal strategaeth y de drwy adfer Sefydliad Llanhiledd, oedd yn rhan o becyn adfywio cynhwysfawr.

- 6.18 Mae angen cyfleoedd lleol ar gyfer cyflogaeth i sicrhau fod y cymunedau hyn yn gynaliadwy. Mae'r ardal wledig o amgylch yn cynnig cyfleoedd yn nhermau twristiaeth gweithgaredd, sy'n sector o'r diwydiant twristiaeth sy'n anelu i ddenu ymwelwyr drwy ddatblygu cynnyrch gweithgaredd megis beicio, cerdded, marchogaeth, chwaraeon dŵr, antur a physgota. Caiff y safleoedd a ddyrennir ar gyfer gweithgaredd twristiaeth eu dynodi ym Mholisi TM1.
- 6.19 Caiff buddsoddiad yn yr ardal ei dargedu at symud adeiladau diffaith a danddefnyddir a'u hailddefnyddio ar gyfer datblygiadau preswyl, cymunedol neu fasnachol.
- 6.20 Mae'n hollbwysig fod pob datblygiad newydd yn diogelu'r amgylchedd a hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal yma, gan ei fod yn allweddol i lwyddiant yr ardal.

Amcanion, Polisiâu Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcanion:** 1, 5, 6, 7, 13 a 14
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM3, DM5, DM14, DM15, DM16 a DM17
- **Dyraniadau:** R1, H1, HC1, T1, T2, T4, T6, ENV2, ENV3, ENV4 a TM1
- **Papurau Cefndir:** Trafnidiaeth, Manwerthu (diweddarwyd), Twristiaeth a'r Amgylchedd (diweddarwyd)

SP3 Yr Hierarchaeth Manwerthu a Bywiogrwydd a Hyfywedd Canol y Trefi

1. Er mwyn sicrhau canol trefi ffyniannus a diogelu cyfleusterau siopa lleol, diffinir hierarchaeth fanwerthu fel sy'n dilyn:

Prif Ganol Tref

- a. Bydd gan Glynebwy rôl fanwerthu is-ranbarthol.

Canolfannau Tref Ardal

- b. Bydd Abertyleri, Tredegar a Brynmawr yn gweithredu fel canolfannau siopa ardal yn bennaf yn gwasanaethu anghenion eu hardaloedd. Caiff Canol Tref Ardal Brynmawr ei gysylltu gyda darpariaeth manwerthu newydd ym Mharc Manwerthu Glanyllyn.

Canol Trefi Lleol

- c. Bydd Blaenau yn gweithredu fel canolfan siopa leol a gaiff ei diogelu a'i gwella i ddarparu cyfleusterau ar gyfer cymunedau lleol.

Canolfannau Cefnogaeth

- ch. Caiff siopau lleol mewn canolfannau cymdogaeth eu diogelu i ateb anghenion siopa lleol bob dydd.

2. Er mwyn gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi:

6.0 POLISIAU STRATEGOL

- a. Caiff siopau, swyddfeydd a safleoedd masnachol eraill, lle'n briodol, eu gwella drwy adnewyddu ac ailddatblygu;
- b. Gweithredir cyfleoedd i wella'r cynnig manwerthu;
- c. Darparu gwell mynediad i gerbydau a threfniadau cylchredeg, gwell cyfleusterau trafniadaeth gyhoeddus a darparu gofodau parcio ychwanegol lle bo angen; a
- ch. Gwella mynediad a chyfleusterau i'r anabl.

3. Er mwyn mynd i'r afael ag angen manwerthu lleol, mae angen darpariaeth ar gyfer dros 10,200 m sg o ofod llawr cymharu a 2,445 m sg o ofod llawr cyfleustra dros gyfnod y cynllun.

- 6.21 Er mwyn cyflawni anghenion manwerthu'r dyfodol mewn modd cydlynol a chynaliadwy, sefydlwyd hierarchaeth manwerthu. Ar frig yr hierarchaeth mae Prif Ganol Tref Glynebwy (rôl isranbarthol), a ddilynir gan Abertyleri, Tredegar a Brynmawr (Canol Trefi Ardal) a ddilynir gan Blaenau (Canol Tref Leol) a Chanolfannau Cymdogaeth.
- 6.22 Mae Cynllun Gofodol Cymru yn dynodi Glynebwy fel anheddiad allweddol sydd â rôl hollbwysig yn llwyddiant Rhanbarth y Brifddinas. Fel canlyniad, bydd gan Lynebwy rôl fanwerthu isranbarthol. Mae'n nod gan y Cynllun Datblygu Lleol gynnal canol tref cryf, deniadol a deinamig sy'n hygyrch iawn gyda llawer iawn o ddewis mewn siopa cymharu (dim bwyd) a chyfleustra (bwyd) a gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd da. Mae'r Cynllun yn cydnabod fod gan ganol y dref y galluedd ffisegol ar gyfer twf pellach yn ei ddarpariaeth manwerthu a gwasanaeth.
- 6.23 Mae Canol Trefi Ardal a Lleol yn rhan bwysig o hierarchaeth manwerthu Blaenau Gwent a'i ffabrig cymdeithasol, economaidd a ffisegol. Yn ogystal â darparu cyfleusterau siopa lleol mae ganddynt hefyd amrediad o wasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth.
- 6.24 Mae Canolfannau Tref Ardal yn gyffredinol yn fwy ac fel arfer yn cynnwys amrywiaeth helaethach o ddefnyddiau manwerthu a defnyddiau eraill, yn cynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, cyfleusterau hamdden a swyddfeydd busnes. Fel canlyniad, maent yn gyffredinol yn fwy masnachol o ran eu natur ac yn denu nifer cymharol fwy o siopwyr. Mae Canol Tref Leol yn gyffredinol yn llai o ran maint ac amrywiaeth defnyddiau ac yn fwy tebygol o gadw cymeriad preswyl. Mae maint a chymeriad Canol Trefi Ardal yn golygu eu bod yn fwy tebygol o allu darparu'n foddhaol ar gyfer amrediad a chymysgedd mwy o ddefnyddiau heblaw manwerthu yn cynnwys swyddfeydd busnes a chyfleusterau hamdden masnachol.
- 6.25 Mae gan siopau lleol rôl hollbwysig wrth gynnal canolfannau cymdogaeth llai a gostwng yr angen i breswylwyr deithio i gyflawni anghenion bob dydd. Gall canolfannau cymdogaeth gynnwys er enghraifft siop gyfleuster fechan, siop bapurau newydd ac is swyddfa bost.
- 6.26 Dynododd Prosiect Manwerthu Blaenau'r Cymoedd (CACI Ionawr 2008) fod cyfleoedd, ym mhob un o'r 5 ardal manwerthu, i wella ansawdd y cynnig

manwerthu, drwy ddenu manwerthwyr annibynnol da a gwella ansawdd yr adeiladau manwerthu a'r amgylchedd manwerthu.

- 6.27 Mae cyfraddau isel perchnogaeth ceir ym Mlaenau Gwent, ynghyd â lefelau uchel o amddifadedd, yn golygu fod angen i'r Cyngor sicrhau y gall holl aelodau'r gymuned gyrchu'r ardaloedd manwerthu. Mae hyn yn cyfeirio at fynediad ar fws, car, cerdded a beicio ynghyd â chylchredeg mewnol a darpariaeth parcio.
- 6.28 Mae Cynlluniau Gweithredu Canol Tref ar gael ar gyfer y Prif Ganol Tref a Chanol Trefi Ardal, sy'n dynodi cynlluniau adfywio. Mae Cynllun Gweithredu Adfywio ar gyfer Canol Tref Leol Blaenau.
- 6.29 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi fframwaith ar gyfer datblygu manwerthu ym Mlaenau Gwent dros gyfnod y Cynllun. Er mwyn mynd i'r afael ag angen manwerthu lleol, mae'r Cynllun yn dynodi tir ar gyfer 10,200 m sg o ofod llawr cymharu a 2,445 m sg o ofod llawr cyfleustra dros gyfnod y cynllun. Caiff tir ei ddyrannu ar gyfer datblygiad manwerthu dan Bolisi R1. Mae manylion llawn y cyfrifiadau hyn yn y Papur Cefndir Manwerthu a ddiweddarwyd.
- 6.30 Diffiniwyd ffin canol tref ar gyfer pob canol tref yn yr hierarchaeth manwerthu. Dangosir ffiniau canol trefi yn y Map Cynigion ac ar gynlluniau yn Atodiad 5.

Amcanion, Polisiâu Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcanion:** 1 a 7
- **Polisiâu Rheoli Datblygiad:** DM1, DM2, DM5 a DM6
- **Dyraniadau:** AA1 a R1
- **Papur Cefndir:** Manwerthu (wedi'i ddiweddarau)

SP4 Cyflenwi Tai Ansawdd Da

1. I ostwng mewnfudo a denu pobl i'r ardal:
 - a. Gwneir darpariaeth ar gyfer datblygu 3,907 annedd newydd er mwyn sicrhau'r 3,500 annedd newydd sydd eu hangen i gynyddu'r boblogaeth i 70,849 erbyn 2021;
 - b. Rhoddir cefnogaeth i'r cynigion i adfywio ardaloedd o dai cymdeithasol;
 - c. Cefnogir gwelliannau tai sector preifat; a
 - ch. Cefnogir cynigion i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd.
2. I sicrhau y caiff angen tai lleol ei gyflawni ac y caiff cymunedau cysylltiedig cynaliadwy eu creu:
 - a. Cyflwynir cymysgedd o fathau, meintiau a daliadaeth anheddau yn cynnwys o leiaf 335 annedd fforddiadwy i gyflawni anghenion poblogaeth bresennol a dyfodol Blaenau Gwent; a
 - b. Gwneir tir ar gael i ddarparu ar gyfer lleiniau ychwanegol i sipsiwn a theithwyr.

6.0 POLISIAU STRATEGOL

- 6.31** Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi fframwaith ar gyfer datblygu 3,500 annedd newydd ym Mlaenau Gwent dros gyfnod y Cynllun. Bydd adeiladu a dosbarthu'r nifer hwn o anheddau yn cynorthwyo wrth atal y broses ddiboblogi a sicrhau lefel sefydlog o dwf yn y dyfodol. Yn ôl rhagestyniad poblogaeth 2008 Llywodraeth Cymru, amcangyfrifir y bydd y boblogaeth yn cynyddu o 68,914 yn 2006 i 70,849 yn 2021. Mae'r rhagestyniad cyfatebol ar gyfer aelwydydd gan Lywodraeth Cymru yn dynodi y bydd angen 3,925 aelwyd i ateb y twf hwn mewn poblogaeth. Cafodd y ffigur gofyniad tai ei drosi i ofyniad anheddau o 3,500 oherwydd yr angen i ostwng y gyfradd unedau gwag o 5.7% i 4% dros gyfnod y Cynllun. I ddarparu digon o dir i ddarparu ar gyfer y rhagestyniad twf, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gwneud darpariaeth ar gyfer adeiladu 3,907 annedd. Mae hyn yn cynrychioli 407 (12%) uned yn fwy na'r ffigur gofyniad o 3,500 i ganiatáu ar gyfer dewis a hyblygrwydd. Mae manylion llawn y cyfrifiadau hyn yn y Papur Cefndir Poblogaeth a Thai.
- 6.32** Bydd gofynion Llywodraeth Cymru i godi'r holl dai cyngor i Safon Ansawdd Tai Cymru yn arwain at drawsnewid ardaloedd mawr o dai ym Mlaenau Gwent. Bydd y Cyngor yn parhau i asesu hyfywedd cynlluniau adnewyddu tai'r dyfodol ar draws y Fwrdeisdref Sirol a bydd yn parhau i geisio ffynonellau cyllid i wella ansawdd, oes ac effeithiolrwydd ynni'r stoc tai ar draws pob daliadaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i gynnig Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i gynorthwyo deiliaid tai i addasu eu heiddo a hyrwyddo byw annibynnol ar gyfer defnyddwyr anabl. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor yn gweithredu Strategaeth Tai Gwag i ddefnyddio adeiladau a fu'n wag am gyfnod hir sydd ag effaith negyddol ar aneddiadau ar hyn o bryd. Bydd yr holl gamau gweithredu hyn yn cyfrannu at wella'r ardal ac felly ostwng allfudo a denu pobl i'r ardal.
- 6.33** Mae cyflenwi cymunedau cysylltiedig cynaliadwy yn bwysig iawn i'r Strategaeth. I greu cymunedau cynaliadwy, mae'n rhaid i ddatblygiadau gynnwys cymysgedd o fathau, meintiau a daliadaeth anheddau, yn cynnwys anheddau fforddiadwy newydd. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Tai Leol (2006) yn dynodi fod angen darparu 86 uned y flwyddyn sy'n gyfartal â 1,290 dros gyfnod y Cynllun. Mae'r ffigur yma'n delio gyda'r cefnwlwyth, angen cyfredol ac angen disgwylidig dros gyfnod y Cynllun. Mae'n rhaid i'r lefel angen hefyd roi ystyriaeth i unrhyw effaith a gaiff y sector rhent preifat o gofio y gallai'r sector hynny fod yn fforddiadwy i rai na allai fforddio prynu neu gael morgais ar dai'r farchnad. Mae'r Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy (2010) yn dynodi y gall safleoedd tai ddarparu 10% unedau fforddiadwy heb grant tai cymdeithasol. Gall y Cynllun felly gyflenwi 335 o anheddau newydd fforddiadwy, drwy ddefnyddio goblygiadau cynllunio ar safleoedd sy'n cymhwyso ac yn seiliedig ar amcangyfrif o'r nifer o anheddau eithriad tai fforddiadwy a ddaw ymlaen dros gyfnod y Cynllun.
- 6.34** Mae'r targed o ddarparu o leiaf 335 uned drwy'r system gynllunio yn ffurfio rhan o gyfanswm ehangach o 1,000 o unedau tai fforddiadwy yr amcangyfrifir y medrent gael eu darparu yn defnyddio'r holl ddulliau cyflenwi arall. Mae mwy o wybodaeth am y ffigurau hyn ar gael yn y Papur Cefndir ar Dai Fforddiadwy (2011). Mae Canllawiau Cynllunio Atodol ar Oblygiadau Cynllunio wedi'u diweddarau ar oblygiadau cynllunio yn rhoi manylion sut y cyflawnir hyn.

- 6.35 Mae Asesiad Anghenion Tai Sipsiwn a Theithwyr Blaenau Gwent (Medi 2011) yn dynodi'r angen am 4 llain arall ym Mlaenau Gwent.

Amcanion, Polisiâu Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcanion:** 2, 3, 5 a 6
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM3, DM7, DM8, DM9 a DM12
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, MU3, H1, HC1 a GT1
- **Papur Cefndir:** Poblogaeth a Thai (diweddarwyd) a Tai Fforddiadwy (diweddarwyd).

SP5 Dosbarthiad Gofodol Safleoedd Tai

- a. Er mwyn creu rhwydwaith o ddarpariaeth canolbwyntiau cynaliadwy wedi'u cysylltu, caiff darpariaeth tai newydd ei leoli yn y canolbwyntiau dilynol:

Glynebwy	1,719 annedd
Tredegar	696 annedd
Ebwy Fach Uchaf	438 annedd
Ebwy Fach Isaf	228 annedd

- b. Gwneir lwfans ar gyfer y nifer o anheddau a gwblhawyd yma, cyfraniadau ar hap, safleoedd bach, trawsnewid adeiladau a dymchwel yn gyfanswm o 826 annedd ar draws y Fwrdeisdref Sirol.

- c. Caiff cyflenwi'r ffigur gofyniad tai ei gynyddu mewn cyfnodau pum mlynedd, gan adnabod y newid sylweddol sydd ei angen i gyrraedd y ffigurau uchaf ar gyfer y nifer o anheddau a gwblhawyd.

2006-2011	700
2011-2016	1,300
2016-2021	1,500

- ch. Caiff datblygu ei reoli dros gyfnod y cynllun drwy gyflwyno safleoedd mewn camau fel sy'n dilyn:

Ardal	Cam 1	Cam 2	Cam 3
Glynebwy	45%	55%	60%
Tredegar	25%	25%	20%
Ebwy Fach Uchaf	25%	10%	15%
Ebwy Fach Isaf	5%	10%	5%

- 6.36 Er mwyn creu rhwydwaith o ganolbwyntiau cynaliadwy, dyrannwyd tir yn y pedair ardal canolbwynt yn unol â galluedd yr ardaloedd. Lleolir dros 80% o'r twf yn ardal Blaenau'r Cymoedd gyda 56% o'r twf o fewn prif ganolbwynt Glynebwy. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd Glynebwy, cyfleoedd tir llwyd a'r nifer gyfyngedig o safleoedd addas sydd ar gael yn rhannau deheuol y Fwrdeisdref Sirol.

6.0 POLISIAU STRATEGOL

- 6.37 I gydnabod y newid sylweddol sydd ei angen y gyfradd adeiladu o'r lefelau isel presennol, ystyrir ei bod yn addas cynyddu'r ffigur gofyniad dros gyfnodau pum mlynedd. Ni fydd hyn mewn unrhyw ffordd yn newid y cyfanswm gofyniad ar gyfer cyfnod y Cynllun ond mae'n galluogi trosiant o ffigur is y Cynllun Datblygu Unedol i ofyniad uwch y Cynllun Datblygu lleol. Defnyddir y ffigurau yn yr Astudiaeth Argaeledd Tir Tai i ddynodi'r gofyniad 5-mlynedd; ni fwriedir iddynt gyfyngu datblygiad. Arwydd yn unig yw'r ffigurau cyflenwi mewn camau a chyflwyno safleoedd mewn camau a ddynodir uchod ac ym Mhennod 9 ac os yw'r sefyllfa'n newid, mae'n dderbyniol i ddatblygiadau ddod ymlaen yn gynnar.

Amcanion, Polisiâu Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcanion:** 2 a 3
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, MU3, H1 a HC1
- **Papur Cefndir:** Poblogaeth a Tai (diweddarwyd)

SP6 Sicrhau Hygyrchedd

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau partner, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cynghair Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru, gweithredwyr trafndiaeth gyhoeddus, darparwyr trafndiaeth gymunedol, Network Rail ac Awdurdodau cyfagos i gyflenwi rhwydwaith trafndiaeth cynaliadwy sy'n:

1. Cynyddu cysylltedd drwy wella cysylltiadau beicio, rheilffordd, bws a ffordd:
 - a. Gydag anheddiadau allweddol eraill yn Rhanbarth De Ddwyrain, Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop;
 - b. Rhwng prif ganolbwynt Glynebwy a chanolbwyntiau ardal eraill a ddynodwyd (Tredegar, Brynmawr and Abertillery);
2. Hwyluso a chefnogi blaenoriaethau twf economaidd, adfywio a datblygu, tra'n lleihau niwed i'r amgylchedd adeiledig a naturiol a chymunedau lleol;
3. Hyrwyddo Glynebwy fel canolbwynt trafndiaeth gyhoeddus ranbarthol sy'n integreiddio rhwydweithiau beicio, cerdded, bws a rheilffordd;
4. Hwyluso system integredig a diogel o lwybrau beicio a cherddwyr yn cysylltu aneddiadau gydag ardaloedd cyflogaeth a chanol trefi;
5. Hwyluso cludiant nwyddau ar y rhwydwaith craidd tra'n annog defnyddio rheilffyrdd; a
6. Sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer pobl gyda gofynion mynediad arbennig a symudedd.

- 6.38** I sicrhau fod Blaenau Gwent yn manteisio o gyfleoedd adfywio, mae angen cysylltiadau da gyda thrafnidiaeth genedlaethol a rhanbarthol. Mae agor rheilffordd Glyn Ebwy wedi gwella cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus ond mae angen gwelliannau pellach i'r gwasanaeth rheilffordd yn nhermau estyn y cysylltiad rheilffordd i dref Glynebwy, amllder y gwasanaeth a darpariaeth cysylltiad gyda Chasnewydd. Mae hefyd yn bwysig fod gan Lynebwy wasanaeth trafndiaeth gyhoeddus cyflym i aneddiadau allweddol eraill yn y rhanbarth, megis Merthyr, Y Fenni, Coed Duon, Caerdydd a Chasnewydd. Bydd gwneud Ffordd Blaenau'r Cymoedd yn ffordd ddeuol, sydd i'w gwblhau yng nghyfnod y Cynllun, yn gwella cysylltiadau ffordd gyda Chanolbarth Lloegr a Gorllewin Cymru a bydd yn rhoi cyfleoedd adfywio ar gyfer Blaenau Gwent.
- 6.39** Gall gwelliannau trafndiaeth hwyluso a chefnogi blaenoriaethau twf economaidd, adfywio a datblygu. Mae'r ddau safle strategol yn dibynnu ar ddarpariaeth cysylltiadau ffordd newydd neu well i alluogi datblygu. Y cysylltiadau hyn yw'r ffordd ddosbarthu ymylol sy'n gwasanaethu 'Y Gweithfeydd' a gwelliannau sydd yn yr arfaeth i'r A4046 fydd yn gwasanaethu 'Y Gweithfeydd' a Choridor Gogleddol Glynebwy. Yn ychwanegol, mae llawer o ardaloedd preswyl yn dioddef o strydoedd cul heb ddigon o gyfleusterau parcio gan arwain at broblemau amgylcheddol a diogelwch. Mae angen nifer o gynlluniau priffordd bach ledled y Fwrdeisdref Sirol i drafod y materion hyn. Wrth wneud gwelliannau trafndiaeth, mae'n bwysig lleihau niwed i'r amgylchedd a lle'n bosibl, ceisir buddion amgylcheddol.
- 6.40** Mae gwella cysylltedd rhwng Glynebwy a chanolbwyntiau ardal Tredegar, Brynmawr ac Abertyleri yn elfen allweddol o'r Strategaeth. Mae ailgyflwyno cswllt rheilffordd o Lynebwy i Gaerdydd, rôl newydd ar gyfer Glynebwy fel y prif ganol tref, a darpariaeth gwasanaethau allweddol yn 'Y Gweithfeydd' yn cadarnhau'r angen i gysylltu pob rhan o'r Fwrdeisdref Sirol i Lynebwy. Mae'r dull canolbwynt hefyd yn rhoi cyfle i integreiddio gwasanaethau trên a bws, cerdded a beicio ym Mlaenau Gwent. Mae cysylltedd y canolbwyntiau yn allweddol i rannu buddion adfywio ar draws yr ardal. Os yw buddion adfywio i'w rhannu'n eang, yna mae'n rhaid i'r holl ganolbwyntiau gael cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus da gyda phrif ganolbwynt Glynebwy.
- 6.41** Mae perchnogaeth car isel Blaenau Gwent yn arwain at fwy o ddibyniaeth ar ddulliau eraill o drafndiaeth. Drwy weithio mewn partneriaeth gyda gwahanol gyrff, bydd yn bosibl sicrhau y caiff pob ardal ei gwasanaethu gan nifer o wahanol ddulliau o drafndiaeth a chael mynediad i wasanaethau lleol a rhanbarthol. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth bws yn wael ar benwythnosau a gyda'r nos ac mae angen mynd i'r afael â hyn os nad yw pobl heb geir i gael eu heithrio'n gymdeithasol. Rhaid gostwng amser teithiau, yn neilltuol ar lwybrau bws hirach, os yw trafndiaeth gyhoeddus i fod yn ddewis amgen i deithio mewn car.
- 6.42** Mae cynyddu beicio a cherdded yn hollbwysig i gynnig dulliau amgen o deithio a gostwng allyriadau carbon ond hefyd wrth wella iechyd y boblogaeth leol. Mae gan Blaenau Gwent rai o'r lefelau uchaf o afiechyd a salwch hirdymor yng Nghymru; bydd rhwydwaith hygyrch o lwybrau ynghyd ag ymgyrch hyrwyddo yn gwella iechyd y boblogaeth leol. Mae hefyd yn hollbwysig fod y rhwydwaith yn rhoi cysylltiadau i safleoedd cyflogaeth fel bod gan bobl ddewis o ddulliau teithio i'r gwaith. Er bod gan

6.0 POLISIAU STRATEGOL

Flaenau Gwent rwydwaith helaeth o lwybrau troed, maent ar hyn o bryd yn ddarniog ac nid ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda ac nid oes arwyddbyst da arnynt. Caiff hyn ei unioni gan gamau gweithredu a nodir yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy 2009-2014. Gall y Cynllun Datblygu Lleol sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cael effaith wael ar y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.

- 6.43 Er y derbynnir y bydd mwyafrif helaeth nwyddau yn teithio ar ffordd, gydag angen i'r rhwydwaith ffordd ddarparu ar gyfer hyn, mae agor rheilffordd Glyn Ebwy yn cynnig cyfle ar gyfer nwyddau rheilffordd yng Nglofa Marine, Cwm. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd nwyddau sy'n teithio ar ffordd yn cael eu hannog i ddefnyddio'r rhwydwaith creiddiol. (Gweler Atodiad 6 am fanylion yr hierarchaeth ffyrdd a'r rhwydwaith ffyrdd).
- 6.44 Mae cludiant yn broblem sylweddol i bobl gyda gofynion mynediad a symudedd arbennig ac mae angen eu trin yn narpariaeth trafndiaeth gyhoeddus a llwybrau cerddwyr a beicio.

Amcanion, Polisiâu Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcanion:** 1 a 4
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1
- **Dyraniadau:** T1, T2, T3, T4, T5 a T6
- **Papur Cefndir:** Trafndiaeth

SP7 Newid Hinsawdd

Bydd y Cyngor yn anelu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a gostwng y galw am ynni i wella cynaliadwyedd cymunedau ym Mlaenau Gwent drwy:

1. Mynd i'r afael ag achosion newid hinsawdd drwy:

- a. Annog cynhyrchu mwy o ofynion trydan a gwres y Fwrdeisdref Sirol drwy dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel/di-garbon;
- b. Cefnogi cynigion datblygu sy'n cynnwys rhwydweithiau datganoledig gwres, oeri a phŵer a gaiff eu pweru gan ffynonellau ynni adnewyddadwy, neu sy'n cysylltu gyda rhwydweithiau gwresogi cymunedol/ardal presennol megis yr hyn a gynigir ar MU1 a MU2; a
- c. Hyrwyddo defnydd effeithiol o dir drwy ffafrio tir llwyd a datblygu ar ddwyseddau uwch ar safleoedd sy'n agos at goridorau trafndiaeth neu ganol trefi a dyraniadau defnydd cymysg.

2. Addasu i effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol newid hinsawdd drwy:

- a. Sicrhau fod datblygiadau'n cydymffurfio gydag amcanion cynaliadwyedd a dylunio da;
- b. Cyfeirio datblygiadau newydd ymaith o'r ardaloedd hynny sydd mewn risg uchel o lifogydd; a
- c. Rheoli risg llifogydd drwy gynnwys mesurau mewn dylunio ac adeiladu i ostwng effeithiau llifogydd.

- 6.45 Mae'n awr dystiolaeth wyddonol gadarn a chonsensws fod newid hinsawdd yn digwydd a bod allyriadau gwneuthuredig yn achos sylweddol. Mae'r Polisi hwn yn anelu i roi fframwaith ar gyfer twf cynaliadwy drwy hyrwyddo datblygiad sy'n lliniaru achosion newid hinsawdd ac sy'n gallu addasu i'w effeithiau tebygol.
- 6.46 Mae Asesiad Ynni Adnewyddadwy Blaenau Gwent (2011) yn dynodi fod potensial i fwy o ofynion trydan a gwres y Fwrdeisdref Sirol gael eu cynhyrchu gan dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel/di-garbon. Mae'r technolegau hyn yn cynnwys: gwynt ar y tir, nwy tomen lanw, cnydau ynni, ynni o wastraff, treulio anerobig, nwy carthffosiaeth, pŵer dŵr, biomas, gwres a phŵer cyfun a dulliau adnewyddadwy integredig mewn adeiladau.
- 6.47 I gyflawni hyn, cefnogir cynigion datblygu sy'n cynnwys rhwydweithiau datganoledig ar gyfer gwresogi, oeri a phŵer a bwerir gan ffynonellau ynni adnewyddadwy, neu sy'n cysylltu gyda rhwydweithiau gwresogi cymunol/ardal presennol. Mae prif gynllun 'Y Gweithfeydd' yn cynnwys canolfan ynni yn darparu gwres a phŵer drwy gymysgedd arfaethedig o foeleri nwy, unedau gwres a phŵer cyfun a boeler biomas. Bydd system wresogi ardal a bwerir gan y ganolfan ynni yn gwasanaethu defnyddwyr mawr ar y safle megis y campws dysgu a'r ganolfan hamdden. Bydd boeleri biomas llai unigol ar gyfer yr ysbyty ar ysgol gynradd yn gwasanaethu'r adeiladau hynny.
- 6.48 Mae Fframwaith Adfywio Cynaliadwy Glynebwy yn dynodi fod potensial ar gyfer system wres a phŵer cyfun yng Nghoridor Gogleddol Glynebwy yn darparu gwres a thrydan i rannau dwysedd uchel y safle.
- 6.49 Dylai dyluniad adeiladau gynnwys yr hierarchaeth ynni a nodir yn TAN 22: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy er mwyn gostwng allyriadau carbon. Gall y dull hwn hefyd gynorthwyo wrth sicrhau safonau di-garbon.
- 6.50 Mae angen diogelu a gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig, yn arbennig os yw pobl i gael eu hannog i fyw neu ymweld â'r ardal. Mae angen rheoli'r berthynas gyda datblygiadau newydd neu ddatblygiadau presennol yn ofalus. Caniateir cynigion datblygu lle maent yn cyd-fynd â Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio neu esbonio'n ddigonol yn y Datganiad Dylunio a Mynediad sut y rhoddyd ystyriaeth i'r cyd-destun lleol. Yn nhermau anheddau newydd, bydd angen i gynigion hefyd gydymffurfio gyda Chanllawiau Cynlluniau Atodol y Cyngor - Canllaw Dylunio Model ar gyfer Cymru - Datblygiadau Preswyl.
- 6.51 Gyda phrinder tir y meddir ei ddatblygu, bydd angen dangos y sicrhawyd y defnydd mwyaf effeithiol o dir, gan ffafrio aildefnyddio tir ac adeiladau a ddatblygwyd yn flaenorol yn hytrach na datblygu safleoedd tir glas. Dylai datblygiadau newydd gael eu lleoli i ddefnyddio'r seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau presennol, gyda chynyddu dwysedd ar safleoedd defnydd cymysg a safleoedd gyda mynediad da i gyfleusterau lleol a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- 6.52 Caiff datblygiadau newydd eu cyfeirio ymaith o ardaloedd o risg llifogydd a ddynodir yn TAN 15: Datblygu a Risg Llifogydd fel rhai risg uchel (Parth 6). Ni chaniateir gwasanaethau argyfwng a datblygiad bregus iawn ym mharth C2 ond lle mae'n

6.0 POLISIAU STRATEGOL

rhaid ystyried datblygu arall yn yr ardaloedd hynny dim ond os medrir ei gyfiawnhau ar sail y profion a amlinellir yn TAN 15 y caniateir hynny. Fel rhan o'r prawf cyfiawnhau ar gyfer datblygiad ym mharth C, bydd angen cynnal asesiad rheoli llifogydd i ddangos y gall risgiau a chanlyniadau llifogydd gael eu rheoli mewn modd addas. Dim ond lle gellir cyfiawnhau datblygiad yn y lleoliad hwnnw a'i fod yn bodloni'r asesiad y caniateir unrhyw ddatblygiad.

Amcanion, Polisiâu Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcanion:** 5 a 6
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, a DM4
- **Papur Cefndir:** Asesiad Ynni Adnewyddadwy

SICRHAU CYFLEOEDD AR GYFER TWF ECONOMAIDD CYNALIADWY A HYRWYDDO DYSGU A SGILIAU

SP8 Twf Economaidd Cynaliadwy

Er mwyn cynyddu gweithgaredd economaidd, sicrhau amrywiaeth yn yr economi a sicrhau fod preswylwyr Blaenau Gwent yn uchafu eu potensial economaidd:

- Dyrennir 50 ha o dir ar gyfer dibenion cyflogaeth a busnes i ddiwallu anghenion datblygu economaidd a chyflogaeth;**
- Caiff rolau cyflogaeth ardaloedd diwydiannol sylweddol eu dynodi i gynorthwyo gyda sicrhau amrywiaeth mewn cyflogaeth a chefnogi datblygiad cynaliadwy gweithgynhyrchu;**
- Caiff cyflogaeth mewn iechyd a gofal cymdeithasol ei annog yng nghanol trefi ac mewn cysylltiad gyda'r ysbyty newydd yn 'Y Gweithfeydd;**
- Caiff cynlluniau twristiaeth, hamdden a diwylliannol eu hannog;**
- Caiff mentrau gwledig a thwristiaeth gweithgaredd eu hyrwyddo yn yr ardaloedd gwledig;**
- Caiff seilwaith dysgu o'r radd flaenaf ei roi ar waith i sicrhau fod preswylwyr yn ennill y sgiliau y maent eu hangen; a**
- Caiff cytundebau llafur lleol eu negodi gyda datblygwyr i alluogi pobl**

- 6.53 Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau economaidd-gymdeithasol difrifol ym Mlaenau Gwent, mae'r Strategaeth yn cydnabod fod yn rhaid cymryd dull blaengar i ddatblygu tir ar gyfer dibenion economaidd. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol felly'n dyrannu 50 ha o dir yn seiliedig ar astudiaeth gofynion tir y dyfodol ac angen yn y dyfodol ar gyfer asesiad gofod cyflogaeth. Nod y dull yw diwallu anghenion datblygu economaidd a chyflogaeth a sicrhau fod Blaenau Gwent yn cyflawni ei photensial

economaidd. Mae dadansoddiad ystadegol a chefnidir i gyfrifiadau tir cyflogaeth ar gael yn y Papur Cefndir ar Gyflogaeth.

- 6.54** Mae ymgynghoriad cyn-adnau a chanlyniadau o arolwg 'Byw ym Mlaenau Gwent' (Gorffennaf 2009) yn dangos yn glir yr ystyrir fod rhagolygon swyddi o'r pwysigrwydd pennaf wrth wneud rhywle yn lle da i fyw ynddo, a bod angen gwella hynny ym Mlaenau Gwent. Drwy'r Cynllun Datblygu Lleol, bydd y Cyngor yn ceisio datblygu amgylchedd busnes sy'n sicrhau economi cryf ac amrywiol, swyddi o ansawdd uchel ar gyflog da, ac yn mynd i'r afael â phroblemau anweithgaredd economaidd.
- 6.55** Gwelodd economi Blaenau Gwent newid strwythurol sylweddol yn symud ymaith o ddibyniaeth ar ddiwydiant trwm, oedd yn draddodiadol yn dominyddu'r economi lleol, tuag at weithgynhyrchu a gwasanaethau. Mae maint newidiadau o fewn yr economi byd-eang wedi arwain at drosglwyddo gweithrediadau i lawer o ganolfannau cost is o amgylch y byd. Mae methiant i ddenu lefelau uchel o sectorau technoleg uchel yn dueddiad sy'n gyffredin ym Mlaenau Gwent, Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae'r tueddiad hwn yn achos consyrn sylweddol yn lleol yn nhermau colli gweithgaredd economaidd, maint y colledion swyddi a hefyd yn nhermau goblygiadau tir cyflogaeth a fedrai godi o'r lefel yma o newid.
- 6.56** Mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Blaenau Gwent (2010) yn cydnabod yr angen i sicrhau amrywiaeth yn yr economi ac yn anelu i adeiladu ar arallgyfeirio'r economi lleol drwy hyrwyddo a chefnogi ardaloedd newydd o gyfle, a datblygu cryfderau'r diwydiant gweithgynhyrchu. Mae hyn i'w gyflawni drwy arbenigo yn y diwydiannau technoleg uchel yn seiliedig ar sectorau allweddol megis electroneg.
- 6.57** Y tu allan i weithgynhyrchu mae nifer o sectorau allweddol eraill lle dylai Blaenau Gwent ganolbwyntio ar gyfer yr effaith mwyaf wrth sicrhau amrywiaeth ei heconomi megis gwasanaethau busnes, twristiaeth a hamdden, diwylliant, iechyd a gofal cymdeithasol ac adeiladu.
- 6.58** Bu'r sector gofal cymdeithasol yn tyfu ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig ac mae'n rhoi cyfle sylweddol ar gyfer cyflogaeth ar bob lefel. Bydd datblygu'r ysbyty cyffredinol lleol 96-gwely arfaethedig yng Nglynebwy yn rhoi cyflogaeth ar draws yr holl amrediad o wasanaethau clinigol, gofalu a chymorth.
- 6.59** Dynododd yr Astudiaeth Cystadleurwydd Busnes (2009) ddiffyg mewn cyfleusterau diwylliannol lleol. Mae prosiectau fel Parc Bryn Bach, Canolfan Ddiwylliannol a Chynadledau y Metropole yn Abertyleri a'r Guardian ym Mharc Arael Griffin yn gwneud gwahaniaeth, ond mae cyfleoedd pellach yn bodoli. Gall y sector gyfrannu'n effeithlon at faterion cyflogadwyedd drwy gynnig cyfleoedd i bobl lai profiadol yn ogystal â darparu swyddi diwylliannol a hamdden ansawdd uchel.
- 6.60** Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, caiff mentrau mewn ardaloedd gwledig eu hannog lle nad yw'r cynigion yn effeithio'n annerbiniol ar amwynderau lleol. Mae strategaeth Dringo'n Uwch Llywodraeth Cymru yn anelu i gynyddu'n sylweddol y nifer o bobl sy'n defnyddio amgylchedd naturiol Cymru ar gyfer gweithgareddau awyr agored. Bydd darparu cyfleusterau ar gyfer gweithgareddau awyr agored ac

6.0 POLISIAU STRATEGOL

antur cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig yn annog cyfranogiad, gwella iechyd a denu ymwelwyr. Wrth ddatblygu twristiaeth gweithgaredd bydd yn bwysig sicrhau ei fod yn gynaliadwy, hynny yw, mae'n rhaid i'w effaith ar yr amgylchedd a diwylliant lleol fod yn isel, tra'n helpu i gynhyrchu incwm, cyflogaeth a chadwraeth.

- 6.61 Mae sefydlu'r Hafan Dysgu yn 'Y Gweithfeydd' yn dod â Choleg Gwent a chweched dosbarth pob ysgol ynghyd mewn cyfleuster addysgu a dysgu o'r math diweddaraf gan roi cyfle i wella cyrhaeddiad addysgol a sgiliau galwedigaethol ar bob lefel o sgiliau sylfaenol hyd at addysg uwch.
- 6.62 Mae adfywio Blaenau Gwent eisoes yn darparu cyfleoedd swyddi mewn adeiladu ac mewn tirlunio caled a meddal. Mae rhaglen na welwyd ei thebyg o ddatblygiad yn cynnwys 'Y Gweithfeydd', Coridor Gogleddol Glynebwy, datblygiadau canol tref yn Abertyleri, Brynmawr, Glynebwy a Thredegar, adnewyddu ysgolion, Safon Ansawdd Tai Cymru/trosglwyddo stoc a rhaglenni tai cyhoeddus a phreifat. Defnyddir goblygiadau cynllunio i sicrhau cyflogaeth leol yn y sector adeiladu twf.

Amcanion, Polisiâu Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcanion:** 7, 8, 9 a 10
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM3 a DM10
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, EMP1, EMP2, ED1 a TM1
- **Papur Cefndir:** Cyflogaeth a Chyfleusterau Cymunedol



CREU CYMUNEDAU IACH, DIOGEL A BYWIOG A DIOGELU A GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL AC ADEILEDIG UNIGRYW

SP9 Cymunedau Egniol ac Iach

I greu cymunedau egniol a iach, bydd y Cyngor yn:

- a. Hyrwyddo Parc Rhanbarthol y Cymoedd a chyfleusterau hamdden;
- b. Diogelu a gwella gofodau agored a chyfleusterau chwaraeon a hamdden presennol; a
- c. Diogelu a gwella hygyrchedd i ofodau gwyrdd naturiol ar gyfer holl aelodau'r gymuned.

- 6.63 Mae ardaloedd gwledig yn ffurfio llawer o arwynebedd tir Blaenau Gwent ac mae'n ased cadarnhaol a all gryfhau strategaethau adfywio ac uchafu cyfleoedd twristiaeth. Gall ardaloedd gwledig roi ansawdd bywyd gwell a rhoi manteision i iechyd a lles pobl. Mae'r Polisi hwn yn anelu i geisio datblygu cyfleoedd i Flaenau Gwent gyfrannu at Barc Rhanbarthol y Cymoedd sy'n rhwydwaith o ardaloedd hamdden gwledig a gysylltir gan lwybrau troed a llwybrau beic strategol ac sy'n gyfle allweddol i ddenu twristiaid a buddsoddiad. Caiff twristiaeth gweithgaredd, er enghraifft, beicio mynydd a cherdded ei annog mewn ardaloedd o'r fath. Rhoddir ystyriaeth ffafriol i gynigion datblygu a fyddai'n cyfrannu at gyflenwi Parc Rhanbarthol y Cymoedd, yn cynnwys datblygiad hamdden a thwristiaeth ym Mharc Bryn Bach. Gan ei bod yn bwysig nad yw cynigion yn cael effaith annerbyniol ar ardaloedd presennol o bwysigrwydd amgylcheddol, dylai unrhyw gynigion gydymffurfio â pholisïau DM14, DM15 a DM16.
- 6.64 Ar hyn o bryd mae 65% o boblogaeth Blaenau Gwent yn byw o fewn 400m o'u gofod gwyrdd agosaf ond mae'n nod gan y Cynllun i gynyddu hyn i 80%. Cyflawnir hyn drwy greu gofod agored newydd, gwella mynediad i ofod gwyrdd naturiol presennol, rheoli gofod gwyrdd presennol ar gyfer bioamrywiaeth, a chael gwared â rhwystrau sy'n atal mynediad cyfredol i ofod gwyrdd naturiol.
- 6.65 Mae mynediad i ofod agored cyhoeddus, gofod gwyrdd naturiol a chyfleusterau hamdden yn bwysig wrth hyrwyddo iechyd a lles y cyhoedd a gwella ansawdd bywyd preswylwyr ac ymwelwyr. Bydd y Cyngor felly'n anelu i ddiogelu'r defnyddiau tir hyn i osgoi eu colli gan eu bod yn rhan bwysig o strategaeth y Cyngor i wella iechyd cyhoeddus y boblogaeth breswyl.

Amcanion, Polisiâu Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcanion:** 7 a 11
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM3, DM11, DM12, DM13, DM14, DM15 a DM16
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, CF1, TM1 a L1
- **Papurau Cefndir:** Hamdden, yr Amgylchedd (wedi'i ddiweddarau) a Thwristiaeth

6.0 POLISIAU STRATEGOL

SP10 Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol

Caiff amgylchedd naturiol unigryw a thirlun dynodedig Blaenau Gwent ei ddiogelu a, lle'n addas, ei wella. Cyflawnir hyn drwy:

- a. Diogelu, gwella a rheoli Coedwig Cwm Merddog/Coed Ty'n y Gelli ac Ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Adrannau Brynmawr a Mynydd Llangynidr;
- b. Sicrhau nad yw datblygiad yn cael effaith sylweddol ar safleoedd cyfagos Ystlumod Brynbuga, Coedwig Cwm Clydach, Glastiroedd Aberbargoed, Coedwig Pen y Fâl neu Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg;
- c. Sicrhau y caiff y rhywogaethau Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a ddynodwyd yn lleol eu diogelu a'u gwella
- ch. Diogelu'r nodweddion hynny sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i gymeriad, ansawdd ac amwynder y tirlun;
- d. Cynnal a gwella'r seilwaith gwyrdd, yn cynnwys creu rhwydwaith o safleoedd bywyd gwyllt a choridorau bywyd gwyllt lleol, cysylltiadau a cherrig camu;
- dd. Sicrhau fod datblygiad yn anelu i gynhyrchu budd net mewn cadwraeth natur drwy gynnwys bywyd gwyllt wrth gynllunio, a sicrhau y darperir ar gyfer unrhyw effeithiau y medrid eu hosgoi; a
- e. Sicrhau nad yw cynigion datblygu yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar amgylchedd y dŵr ac yn cyfrannu at wella ansawdd dŵr lle bo'n ymarferol.


6.66 Bu newidiadau sylweddol yn yr amgylchedd naturiol lleol dros y 30 mlynedd diwethaf. Wrth i'r pwysau a roddwyd arno gan ddiwydiant trwm leihau, bu cynnydd sylweddol yn y nodweddion gweledol a bywyd gwyllt sy'n unigryw i'r ardal. Mae'r Strategaeth yn anelu i ddiogelu a gwella'r tirlun, bioamrywiaeth a geoamrywiaeth lleol. Cyflawnir hyn drwy ddynodi, diogelu a gwella safleoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol, Ewropeaidd, cenedlaethol a lleol yn ogystal â chynefinoedd a rhywogaethau ar draws y Fwrdeisdref. Caiff cynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol eu hasesu yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol. Yn unol gyda'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (Cyfarwyddeb Cyngor 92/43/EEC) ni chaniateir datblygiad lle mae'n effeithio ar integriti y safleoedd hyn. Nid yw Blaenau Gwent yn cynnwys unrhyw safleoedd Ewropeaidd, er bod nifer o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn agos. Fodd bynnag, mae'n cynnwys dwy Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae tirluniau dynodedig yn cynnwys dynodiadau lleol megis Ardaloedd Tirlun Arbennig yn ogystal â dynodiadau cenedlaethol megis parciau cenedlaethol. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau perthnasol dan adran 62(2) Deddf yr Amgylchedd 1995 i roi ystyriaeth i'r dibenion y dynodir Parciau

Cenedlaethol ar eu cyfer. Felly ni ddylai unrhyw ddatblygiad o fewn Blaenau Gwent fod ag effaith annerbyniol ar osodiad Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd yn agos iawn.

- 6.67 Mae'r Polisi hwn yn anelu i ddiogelu asedau hamdden a gwyrdd allweddol (Seilwaith Gwyrdd) yn cynnwys rhwydweithiau ecolegol a nodweddion tirlun sy'n bwysig i fioamrywiaeth. Mae'n bwysig cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol o gynefinoedd naturiol a lled-naturiol sydd â graddfa uchel o gysylltedd. Un ffordd o gyflawni hyn fydd drwy ddynodi rhwydweithiau ecolegol pwysig a ddynodwyd fel rhan o'r broses o ddynodi SINC a Gwarchodfeydd Natur Lleol. Bydd dynodi, diogelu a chysylltu coridorau ecolegol yn gymorth wrth alluogi bywyd gwylt i ymdopi gyda newid hinsawdd. Mae Polisi DM15 yn rhoi gwybodaeth bellach i gefnogi'r Polisi yma.
- 6.68 Mae'r amgylchedd naturiol yn amrywiol ac yn eang yn cynnwys diogeliad bioamrywiaeth penodol ar gyfer ardaloedd a chynefinoedd a rhywogaethau yn cynnwys dynodiadau cenedlaethol a lleol. Mae'n bwysig y caiff y rhain eu diogelu rhag datblygiad anaddas ond lle mae'r angen ar gyfer datblygu yn bwysicach na phwysigrwydd cadwraeth natur y safle ac y gellir dangos na all y datblygiad yn rhesymol gael ei leoli mewn man arall, bydd angen lliniaru a/neu ddigolledu i sicrhau nad oes colled net o fioamrywiaeth. Bydd angen lliniaru i wrthbwysu unrhyw effeithiau negyddol a lle nad yw hyn yn bosibl, bydd angen darpariaeth digolledu sy'n gyfwerth o ran gwerth i'r hyn a gollwyd fel canlyniad i'r datblygiad. Gall lliniaru olygu lliniaru ar y safle neu oddi ar y safle a chaiff ei gyflenwi drwy gytundebau A106 ac amodau cynllunio. Fodd bynnag, anogir datblygiad i arwain at welliant net mewn bioamrywiaeth drwy roi ystyriaeth iddo fel rhan o unrhyw ddatblygiad.
- 6.69 Mae'r amgylchedd naturiol hefyd yn cynnwys dŵr. Mae'r polisi hwn yn hyrwyddo diogelu a gwella ansawdd a chyfaint dŵr a reolir o fewn y Fwrdeisdref Sirol, yn cynnwys yr arwyneb ac adnoddau dŵr daear. Ni chaniateir datblygiad os gellir dangos ei bod yn debygol y bydd effaith niweidiol ar yr adnoddau dŵr. Mae polisi DM1 yn rhoi mwy o fanylion a dylid cyfeirio ato wrth ystyried cynigion datblygu sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr.

Amcanion, Polisiâu Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcanion:** 12 a 13
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM14, DM15 a DM16
- **Dyraniadau:** ENV1, ENV2 a ENV3
- **Papur Cefndir:** Yr Amgylchedd (wedi'i ddiweddarau)



6.0 POLISIAU STRATEGOL

SP11 Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Hanesyddol

Caiff amgylchedd adeiledig neilltuol Blaenau Gwent ei ddiogelu, ei gadw a lle'n briodol, ei wella. Cyflawnir hyn drwy:

- a. Diogelu safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol rhag datblygiad anaddas a hefyd ddiogelu adeiladau o bwysigrwydd sylweddol ac ardaloedd cadwraeth a ddynodwyd yn lleol;
- b. Gwella safleoedd o werth hanesyddol neu archeolegol; a
- c. Hyrwyddo twristiaeth treftadaeth.

6.70 Mae gan Blaenau Gwent henebion, adeiladau hanesyddol a thirluniau sy'n adlewyrchu ei harcheoleg a'i hanes cymdeithasol unigryw. Mae gan yr ardal 13 o henebion rhestredig, 53 adeilad rhestredig, 2 ardal gadwraeth, 2 tirlun hanesyddol cofrestredig (sy'n dod yn rhannol o fewn ei ffiniau) ac 1 parc a gardd hanesyddol cofrestredig. Mae hefyd nifer o adeiladau sydd o bwysigrwydd lleol ond na chânt eu diogelu gan bolisiau cenedlaethol. Caiff rhestr o adeiladau o'r fath ei pharatoi yn ystod cyfnod y Cynllun a rhoddir diogeliad iddynt dan y polisi hwn.

6.71 Mae'r ail ardal gadwraeth yn Nhredegar yn rhoi cyfle i annog a hyrwyddo cadwraeth treftadaeth bensaernïol ardal ddeheuol y dref. Mae Gwerthusiad Ardal Cadwraeth a Chanllawiau Dylunio Cynllun Tirlun Tredegar yn nodi cyngor manwl i ddatblygwyr pan fyddant yn cyflwyno ceisiadau cynllunio, Caniatâd Adeilad Rhestredig, Caniatâd Ardal Cadwraeth (yn cynnwys caniatâd i hysbysebion a gwaith dymchwel) o fewn ardal gadwraeth arfaethedig Tredegar. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried bod yr amgylchedd adeiledig hanesyddol yn adnodd gwerthfawr a ddylai gael ei ddiogelu'n bennaf er ei fwyn ei hun yn unol gyda pholisi cynllunio cenedlaethol ond y gellir ei ddefnyddio mewn modd cynaliadwy, er enghraifft, drwy hyrwyddo twristiaeth treftadaeth, ar gyfer dibenion adfywio. Mae'r Strategaeth Twristiaeth yn bwriadu datblygu safleoedd treftadaeth fel atyniadau twristiaeth drwy ddatblygu llwybrau twristiaeth i leoliadau treftadaeth, darparu dehongliad ar y safle a gwella marchnata'r safleoedd. Mae Tyrrau Tŷ Crwn Nantyglo, adeilad y Swyddfa Gyffredinol yng Nglynebwy a Thŷ a Pharc Bedwellte yn dri phrosiect sylweddol a allai gynyddu nifer ymwelwyr i'r ardal. Mae'r dreftadaeth adeiledig yn rhoi hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol bwysig a allai ddarparu cyfleoedd twristiaeth os caiff ei ddatblygu. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn sicrhau y caiff safleoedd eu cadw a'u gwella ac y caiff fframwaith ei rhoi yn ei lle i hyrwyddo cyfleoedd twristiaeth.

Amcanion, Polisiâu Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcanion:** 14
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM17
- **Dyraniadau:** TM1
- **Papur Cefndir:** Yr Amgylchedd (wedi'i ddiweddarau)

SICRHAU CYFLENWAD DIGONOL O FWYNAU A GOSTWNG GWASTRAFF

SP12 Sicrhau Cyflenwad Digonol o Fwynau

Bydd Blaenau Gwent yn cyfrannu at gyflenwadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol drwy:

- a. Gynnal banc tir o leiaf 10-mlynedd o gronfeydd agregau a ganiateir yn unol gyda pholisi cynllunio cenedlaethol a thrin y dyraniad 3Mt a ddynodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol;
- b. Diogelu cronfeydd mwynau presennol ac adnoddau posibl rhag datblygiad a fyddai'n atal echdynnu pellach;
- c. Annog gweithio adnoddau mwynol ymlaen llaw, lle'n briodol;
- ch. Sicrhau fod gweithio mwynau'r dyfodol yn cydymffurfio gyda pholisi cynllunio cenedlaethol yn nhermau diogelu ardaloedd o bwysigrwydd o dreftadaeth naturiol ac adeiledig a chyfyngu effaith amgylcheddol echdynnu mwynau;
- d. Sicrhau nad yw gweithgarddau mwynau a glo yn cael effaith niweidiol ar gymunedau cyfagos a deunyddiau sensitif; a
- dd. Hyrwyddo defnydd effeithiol mwynau a defnyddio deunyddiau heblaw rhai sy'n digwydd yn naturiol yn cynnwys aildefnyddio agregau eilaidd.

- 6.72 Mae cyflenwad digonol a chyson o fwynau yn hanfodol i'r economi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae mwynau'n rhoi'r deunyddiau craidd hanfodol ar gyfer adeiladu, ffyrdd, ynni a'n hanghenion domestig a masnachol. Fodd bynnag, gall echdynnu adnoddau mwynol gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd a'r tirlun.
- 6.73 Mae polisi cynllunio cenedlaethol (MPPW, MTAN1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ddarparu banc tir o 10 mlynedd ar hyd cyfnod y Cynllun yn amodol ar beidio mynd tu hwnt i alluedd amgylcheddol. Roedd y cronfeydd presennol a ganiateir o fwynau craig galed ym Mlaenau Gwent yn 3.006 miliwn tonnall fetrig yn 2009 gan gyfateb â thua 15.6 mlynedd ar gyfraddau echdynnu cyfredol (2008). Mae hyn yn golygu mai dim ond banc tir o 3.6 mlynedd fydd ar ddiwedd cyfnod y Cynllun.
- 6.74 Er mwyn trafod pryderon am gynaliadwyedd, mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau yn dynodi dull dyrannu newydd sy'n seiliedig ar yr egwyddor agosatrywydd a ffocws ar ardaloedd sydd â mwy o alluedd amgylcheddol. Fel canlyniad i'r gwaith hwn, mae'n ofynnol i Flaenau Gwent ddarparu o leiaf 3 miliwn tonnall fetrig o alluedd newydd. Mae caniatâd cynllunio diweddar ar gyfer dyfnhau chwarel Trefil yn darparu 2.24 miliwn tonnall fetrig o'r gofyniad hwn gan adael diffyg o 0.76 miliwn tonnall fetrig o leiaf. Bydd angen i'r Cyngor ddyfarnu

6.0 POLISIAU STRATEGOL

caniatâd cynllunio ar gyfer un ai ail-weithio tomen wedi'i hadfer, ymestyn y chwarel bresennol neu chwarel newydd cyn 2021.

- 6.75 Mae'n nod gan y strategaeth i gydbwyso'r angen am ddiogelu adnoddau mwynol cenedlaethol bwysig a sicrhau y cânt eu hechdynnu mewn modd priodol, yn erbyn effaith posibl datblygiad o'r fath ar ddefnyddwyr preswyl, y tirlun ac ar safleoedd o ddiddordeb cadwraeth natur. Anogir blaen-weithio mewn ardaloedd a ddiogelir lle byddai datblygiad arfaethedig yn sterileiddio'r adnoddau. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol mae'r map cynigion yn dynodi ardaloedd lle na fydd gweithio glo yn dderbyniol, hynny yw 500m o'r ffin drefol ac o fewn dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol o bwysigrwydd amgylcheddol a diwylliannol. O fewn y ffin anheddiad gellir dyfarnu eithriadau lle mae blaen-weithio yn golygu gwaith adfer tir derbyniol cyn datblygiad. Byddai angen i hyn fod ar safleoedd mawr lle gellid dangos na fyddai niwed i amwynderau na'r amgylchedd, bod manteision clir a chadarn, ac y byddai er budd y cyhoeddi ganiatáu datblygu i fynd rhagddo.
- 6.76 Mae'r strategaeth hefyd am hyrwyddo cynnydd yn y defnydd o ddeunyddiau heblaw mwynau sy'n digwydd yn naturiol. Mae ailddefnyddio neu ailgylchu deunyddiau adeiladu a dymchwel a gwastraff diwydiannol yn cyfyngu faint o wastraff a gynhyrchir a hefyd yn cadw ffynonellau prin ac yn gostwng difrod i'r amgylchedd.

Amcanion, Polisiâu Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcan:** 15
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM3, DM18 a DM19
- **Dyraniadau:** M1, M2, M3 a M4
- **Papur Cefndir:** Mwynau (wedi'i ddiweddarau)

SP13 Sicrhau Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy

I helpu sicrhau rheolaeth gwastraff cynaliadwy ar draws Blaenau Gwent, bydd y Cyngor yn sicrhau:

1. Dynodi tir digonol i alluogi datblygu rhwydwaith integredig o gyfleusterau rheolaeth gwastraff ar draws y Fwrdeisdref Sirol drwy:
 - a. Ddyrannu tir i gyrraedd gofyniad Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru o 1-4 hectar (Polisi W1);
 - b. Annog darpariaeth cyfleusterau triniaeth yn yr adeilad ar safleoedd cyflogaeth sylfaenol ac eilaidd (Polisi DM10); a
 - c. Dyrannu tir i gyflawni anghenion lleol
2. Darparu cefnogaeth ar gyfer cyfleusterau, mesurau a strategaethau triniaeth sy'n cynrychioli'r opsiwn amgylcheddol ymarferol gorau, gan roi ystyriaeth i'r hierarchaeth gwastraff ac egwyddor agosatrwydd (Polisi DM20);
3. Gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau storio a chasglu rheolaeth gwastraff cynaliadwy ym mhob datblygiad addas; ac
4. Annog lleihau gwastraff yn ystod adeiladu.

- 6.77** Mae Blaenau Gwent yn cynhyrchu tua 35,000 tonnall fetrig o wastraff bwrdeisiol bob blwyddyn, yn amrywio o ddeunyddiau anadweithiol diniwed i isgynnyrch a gweddillion cemegol. Mae'n bwysig i'r Cyngor reoli goblygiadau defnydd tir y gwastraff hwn mewn modd sy'n dderbyniol ac yn gynaliadwy yn amgylcheddol. Ar hyn o bryd y prif ddull o waredu â gwastraff yw drwy domen lanw. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn symud tuag at arferion rheolaeth gwastraff mwy cynaliadwy yn unol â chyfarwyddyd Ewrop a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cynyddu faint o wastraff bwrdeisiol a ailgylchir neu a gompostir a gostwng faint o wastraff pydradwy a anfonir i domen lanw. Fel canlyniad, mae'n debyg y bydd angen cyfleusterau triniaeth ychwanegol i gyflawni'r amcanion hyn.
- 6.78** Yn unol gyda'r Strategaeth Genedlaethol ar Wastraff a'r Cynllun Rhanbarthol ar Wastraff, bydd y Cyngor yn gweithio i hyrwyddo gostwng, aildefnyddio ac ailgylchu deunyddiau er mwyn gostwng defnydd tir ar gyfer cyfleusterau gwastraff. Mae'r Cynllun Rhanbarthol yn amcangyfrif fod cyfanswm y tir sydd ei angen ym Mlaenau Gwent am gyfleusterau gwastraff erbyn 2013 yn amrywio rhwng 1 a 4 hectar yn dibynnu ar y math o gyfleusterau rheoli gwastraff/adennill gwastraff a ddefnyddir. Mae'r Cynllun yn dynodi bron 6 hectar o dir ar gyfer cyfleusterau uwch, sy'n uwch na'r hyn sydd ei angen yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol.
- 6.79** Caiff safleoedd cyflogaeth sylfaenol ac eilaidd a ddynodwyd drwy Bolisi DM10, EMP1 ac EMP2 hefyd eu hystyried yn lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff newydd. Mae datblygiadau mewn technoleg a chyflwyno deddfwriaeth, polisïau ac arferion newydd yn golygu nad yw llawer o gyfleusterau rheoli gwastraff/adennill adnoddau modern yn edrych yn ddim gwahanol ar y tu allan i unrhyw adeilad diwydiannol ac arall yn y tu mewn maent yn cynnwys prosesau dadweithgynhyrchu diwydiannol neu weithgareddau cynhyrchu ynni nad yw'n ddim gwahanol i lawer o brosesau diwydiannol modern eraill yn nhermau gweithrediad ac effaith. Mae dynodi'r safleoedd hyn fel rhai addas mewn egwyddor ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn rhwydwaith mwy na digonol ac yn dangos fod dewis gwirioneddol o safleoedd addas yn bodoli.
- 6.80** Mae'r Cynllun hefyd yn dynodi safleoedd i ddiwallu gofynion gwastraff triniaeth lleol.
- 6.81** Dylai datblygiad newydd addas gynnwys darpariaeth ar gyfer storio, ailgylchu a rheoli gwastraff. Bydd hyn yn annog gostwng gwastraff, ailgylchu, compostio a gwahanu yn y ffynhonnell, er mwyn cyfrannu tuag at gyrraedd targedau rheoli gwastraff Ewropeaidd a chenedlaethol ac arallgyfeirio gwastraff o domennydd llanw.
- 6.82** Bydd gostwng neu aildefnyddio gwastraff a gynhyrchir drwy ddatblygu safle (yn cynnwys gwastraff dymchwel) yn gostwng faint o wastraff sy'n rhaid ei rheoli a'i waredu maes o law. Bydd hyn yn ei dro yn cyfrannu at ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr a faint o ddeunyddiau adeiladu sylfaenol a gaiff eu hechdynnu, prosesu a'u cludo.

Amcanion, Polisïau Rheoli Datblygu, Dyraniadau a Phapurau Cefndir Perthnasol

- **Amcanion:** 16
- **Polisïau Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM3 a DM20
- **Dyraniadau:** W1
- **Papur Cefndir:** Gwastraff

6.0 POLISIAU STRATEGOL

7.0 POLISIÂU RHEOLI DATBLYGU

- 7.1 Mae'r Bennod hon yn nodi polisiau manwl ar reoli datblygu, a ddefnyddir i sicrhau fod datblygiadau'r dyfodol yn sicrhau'r weledigaeth, amcanion a strategaeth a nodir yn y Penodau blaenorol. **Mae'r polisiau rheoli datblygu hyn yn fwy cyfyngol na'r polisiau strategaeth mwy hyrwyddol ac fe'u defnyddir wrth ochr polisiau cynllunio cenedlaethol fel sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio.**
- 7.2 Strwythurwyd y cynlluniau hyn o amgylch themâu'r Strategaeth a chyn belled ag sy'n bosibl nid ydynt yn ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol. Felly, mae'n bwysig y rhoddir **ystyriaeth lawn i Bolisi Cynllunio Cymru, Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, Cylchlythyrau, Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) atodol a gyhoeddir ar bynciau/materion atodol a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau.** Amlygir pob Polisi a dilynr hynny gan gyfiawnhad o'r dull gweithredu. Mae mwy o wybodaeth ar y cyfiawnhad dros y gofynion polisi ar gael yn y papurau cefndir sy'n cefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol.

SICRHAU FOD DATBLYGIAD YN CREU RHWYDWAITH O GYMUNEDAU CYNALIADWY A BYWIOG

Dylunio

DM1 Datblygiadau Newydd

Caniateir cynigion datblygu os ceir: -

1. Dyluniad Cynaliadwy
 - a. Y sicrheir dyluniad effeithiol o ran ynni;
 - b. Y cynnig yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau drwy ddefnyddio technegau adeiladu cynaliadwy, gan gynnwys mesurau cadwraeth ynni a chadwraeth dŵr, a lle bynnag y bo'n bosibl, ddefnyddio ynni adnewyddadwy;
 - c. Lleihau gwastraff adeiladu a llygredd a bod y cynnig yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer gwahanu, adfer ac ailgylchu gwastraff;
 - ch. Defnyddio cynnyrch ac adnoddau wedi'u hailgylchu neu gynaliadwy mewn adeiladu, lle bo hynny'n ymarferol;
 - d. Bod y cynnig yn gostwng dŵr wyneb sy'n rhedeg ymaith drwy leihau cynnydd mewn arwynebau anhydraidd a defnyddio systemau draeniad cynaliadwy, lle'n addas; a
 - dd. Nad yw'r cynnig yn arwain at golled net mewn bioamrywiaeth ac yn darparu mesurau lliniaru a/neu ddigolledu lle bo angen.
2. Amwynderau
 - a. Byddai'r datblygiad yn gydnaws gyda defnyddiau eraill yn yr ardal;
 - b. Ni fyddai unrhyw effaith gweledol andwyol ar y treflun neu dirlun;
 - c. Ni fyddai unrhyw effaith annerbyniol ar amwynderau defnyddwyr cyfagos;

7.0 POLISI'AU RHEOLI DATBLYGU

- ch. Yn achos datblygiadau preswyl yn cynnwys estyniadau ac is-rannu anheddau, rhaid i anheddau fod o faint priodol i roi lefelau boddhaol o amwynder;
- d. Ni fyddai unrhyw effaith niweidiol i'r amgylchedd dŵr neu risg annerbydol i ansawdd dŵr a reolir (yn cynnwys dŵr daear a dŵr wyneb);
- dd. Mae'r cynnig yn cyfrannu at wella ansawdd dŵr lle bynnag y bo hynny'n ymraferol;
- e. Nid yw'r cynnig yn arwain at allyriadau a gludir yn yr aer sydd ag effaith annerbyniol ar iechyd, amwynder neu amgylchedd naturiol yr ardal o amgylch, gan roi ystyriaeth i effeithau cronus ffynonellau eraill arfaethedig neu bresennol o lygredd aer yn y cyffiniau;
- f. Ni fyddai unrhyw risg annerbydol o niwed i iechyd a/neu amwynder lleol o lefelau annerbyniol o uchel o sŵn, dirgryniad, arogl neu lygredd golau;
- ff. Caiff y tir ei wneud yn sefydlog ac y gall gefnogi'r datblygiad heb risg difrod i adeiladau ar y safle neu dir cyfagos; a
- g. Cymerir mesurau ymarferol ac effeithlon i drin, cynnwys neu reoli unrhyw halogiad.

3. Hygyrchedd

- a. Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth i ddefnydd diogel, effeithlon ac effeithol y rhwydwaith cludiant;
- b. Mae'r cynnig yn sicrhau y dyluniwyd datblygiadau i safon briodol sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiddordebau cerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus cyn diddordebau ceir preifat;
- c. Mae'r cynnig yn sicrhau darpariaeth addas ar gyfer pobl gyda gofynion mynediad a symudedd arbennig;
- ch. Darparwyd parcio, gwasanaethau addas a gofod gweithredol; a
- d. Lle mae polisi cynllunio cenedlaethol yn galw am asesiad trafndiaeth a chynllun teithio, mae'n rhaid iddynt ddangos na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gynhyrchu triapiau a'r galw am deithio.

7.3 Mae Rhan 1 y Polisi hwn yn sicrhau fod pob datblygiad yn gynaliadwy. Mae Deddf Cynllunio ac Ynni 2008 a Pholisi Cynllunio Cymru yn gosod safonau i symud tuag adeiladau mwy cynaliadwy a di-garbon yng Nghymru.

7.4 Mae dylunio ansawdd uchel a chynaliadwy yn hollbwysig os yw Blaenau Gwent i gyfrannu at fynd i'r afael â newid hinsawdd. Bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd gael eu hadeiladu yn unol â safonau cynaliadwyedd a nodir gan Lywodraeth Cymru a'r Cod Cartrefi Cynaliadwy a gofynion BREEAM. Bydd hyn yn sicrhau y caiff gofynion 1 a - d y Polisi hwn eu cyflawni ac y caiff y safonau hyn eu codi drwy gyfnod y Cynllun.

7.5 Bwriedir i Ran 2 y Polisi reoli dau fater - yr effeithiau niweidiol posibl a allai godi o'r ddatblygiad ei hunan a'r effeithiau niweidiol a allai ddigwydd fel canlyniad i leoli datblygiad newydd yn anaddas yn agos at ffynonellau presennol neu ffynonellau a

7.0 POLISIÂU RHEOLI DATBLYGU

gynlluniwyd ar gyfer llygredd neu effeithiau eraill ar amwynderau. Mae'r effeithiau hyn yn bennaf er nad yn llwyr yn gysylltiedig â deunyddiau preswyl. Fel canlyniad, bydd y meini prawf yn weithredol i bob math o ddatblygiad.

- 7.6 Mae llawer o adeiladau segur o fewn Blaenau Gwent a allai fod yn addas i'w troi'n anheddau. Fodd bynnag, i ddiogelu yn erbyn creu unedau is na'r safon, cynigir fod yn rhaid i'r adeiladau fod o faint a dyluniad addas a rhoi gofod i ddiwallu anghenion defnyddwyr y dyfodol, yn unol gyda Gofynion Ansawdd Datblygu - Safonau a Chanllawiau Dylunio (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005) a Pholisi Blaenau Gwent ar Dai Amffeddiannaeth.
- 7.7 Gall ffynonellau posibl o ymyrraeth megis sŵn, dirgryniad, arogl neu olau gael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd y rhai sy'n byw neu'n gweithio'n agos at y safle neu ar rywogaeth a ddiogelir. Lle gall datblygiad arfaethedig gael effaith niweidiol ar amwynder lleol neu rywogaeth a warchodir, gall fod yn ofynnol i'r ymgeisydd gynnwys asesiad o'r effaith tebygol a'r mesurau unioni neu liniaru arfaethedig i leihau'r effaith. Er mwyn lleihau llygredd golau a chynyddu effeithiolrwydd ynni, bydd angen bodloni'r Cyngor fod unrhyw gynllun goleuadau allanol yr isafswm sydd ei angen ar gyfer diogelwch a dibenion gwaith a'i fod yn lleihau llygredd posibl o wawl ac arllwysiad.
- 7.8 Mae Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd (2000/60/EC) yn gosod dull strategol o reoli dŵr a dull cyffredin o ddiogelu a gosod amcanion amgylcheddol ar gyfer pob dŵr daear a dŵr wyneb. Mae'n anelu i ddiogelu ac adfer dŵr glân a sicrhau ei ddyfodol cynaliadwy hirdymor. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn pwysleisio y dylid defnyddio dulliau rheoli cynlluniau i sicrhau y caiff defnyddiau anghydnaws o dir eu gwahanu, er mwyn osgoi gwrthdaro posibl rhwng gwahanol fathau o ddatblygiad. Ar hyn o bryd mae afonydd a dŵr daear y Fwrdeisdref Sirol yn methu cyrraedd y 'Statws Da' sydd ei angen gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr oherwydd gorlifau carthffosiaeth, llygredd o stadau diwydiannol a hen weithfeydd a materion yn ymwneud gyda mudiad pysgod. Mae'r Cyngor yn gweithio i helpu glanhau, diogelu a chadw afonydd Blaenau Gwent drwy nifer o brosiectau amgylcheddol.
- 7.9 Dim ond lle gwneir darpariaeth ddigonol ar gyfer y seilwaith angenrheidiol i sicrhau diogelu ansawdd a chyfaint dŵr a, lle bynnag yn ymarferol, wella ansawdd dŵr y caniateir datblygu. Rhoddir ystyriaeth i ansawdd a chyfaint yr adnodd dŵr a sut mae hyn yn effeithio ar yr amgylchedd ehangach yn nhermau gwella mudiad pysgod drwy gael gwared â rhwystrau, atal gwaethygu pellach ar ecosystemau dyfrol, cynefinoedd cysylltiedig, pysgodfeydd, hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddŵr a rheoli echdynnu dŵr. Disgwylir i ddatblygwyr ymchwilio cyfleoedd ar gyfer gwella ansawdd dŵr drwy gynnwys mesurau i wella ansawdd dŵr yn eu cynlluniau, os na allant arddangos nad yw'n ymarferol gwneud hynny. Gellir rhoi caniatâd cynllunio gydag amodau y sicrhau y mesurau gofynnol, neu gall fod yn ofynnol i ddatblygwyr ymrwymo i Oblygiadau Cynllunio. Gwrthodir ceisiadau na all roi diogeliad digonol i lwybrau dŵr, dŵr daear a dŵr wyneb.
- 7.10 Mae allyriad llygrwyr o wahanol ffynonellau o fewn y Fwrdeisdref Sirol a hefyd llygredd traws-ffin a allyrrir o ffynonellau o fewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill yn

7.0 POLISIŌAU RHEOLI DATBLYGU

effeithio ar ansawdd aer o fewn Blaenau Gwent. Mae'n nod gan strategaeth y Deyrnas Unedig ar ansawdd aer i ddiogelu a gwella ansawdd aer yr amgylchedd yn y Deyrnas Unedig a sicrhau diogelu iechyd y cyhoedd fel canlyniad i ddod i gysylltiad â llygredd aer. Mae'r Strategaeth yn gosod amcanion ar gyfer nifer o lygrwyr allweddol ac mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol adolygu ansawdd aer o fewn y Fwrdeisdref Sirol yn gyfnodol a chymharu hynny gyda'r amcanion mewn lleoliadau lle mae'r cyhoedd yn bresennol yn rheolaidd lle gallent ddod i gysylltiad â llygredd aer.

- 7.11** Daeth adolygiad ac asesiad cyfredol yr Awdurdod Lleol ar ansawdd aer o fewn y Fwrdeisdref Sirol i'r casgliad, yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, ei bod yn annhebygol fod unrhyw un o'r amcanion ansawdd aer y mae'n ofynnol i'r Cyngor roi ystyriaeth arnynt yn cael eu torri ar hyn o bryd nac y bydd hynny'n digwydd yn y dyfodol agos. Mae gan y Cyngor ymrwymiad i sicrhau diogelu safon ansawdd aer o fewn y Fwrdeisdref a hefyd, lle'n rhesymol bosibl, i wella ansawdd aer.
- 7.12** Dylai datblygiadau sy'n debygol o arwain at allyriadau unrhyw un o'r llygrwyr a ddynodir yn strategaeth y Deyrnas Unedig ar ansawdd aer a/neu unrhyw halogwyr eraill a all fod ag effaith niweidiol ar ansawdd aer o fewn y Fwrdeisdref neu sydd â'r potensial i achosi niwed i iechyd dynol a/neu'r amgylchedd felly roi asesiad llawn a manwl o effaith tebygol yr allyriadau hyn. Dylai hyn ddangos hefyd y rhoddyd ystyriaeth i effeithiau cronus ffynonellau eraill arfaethedig neu bresennol llygredd aer o fewn cyffiniau'r datblygiad arfaethedig.
- 7.13** Ni chaniateir datblygiad lle ystyrir y caiff yr allyriadau canlynol i aer effaith annerbyniol ar ansawdd aer presennol a/neu ddyfodol o fewn y Fwrdeisdref neu lle bydd effaith niweidiol annerbyniol ar iechyd y cyhoedd a/neu'r amgylchedd, gan roi ystyriaeth i effeithiau cronus ffynonellau eraill arfaethedig neu bresennol o lygredd aer yn y cyffiniau.
- 7.14** Bu gweithgareddau glofaol dan ddaear mewn rhannau helaeth o ardal Blaenau Gwent ac mae felly o fewn Ardal Atgyfeirio Mwyngloddio Glo. Mae mapiau'n dangos yr Ardaloedd Atgyfeirio Glo ar gael gan y Cyngor, gyda'r datblygydd yn gyfrifol am benderfynu maint a lled ac effeithiau'r cyfyngiadau hyn. Lle cynigir datblygu yn yr ardaloedd hyn, dylai'r datblygydd ymgynghori gyda'r Awdurdod Glo. Caiff yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei lywio gan gyngor gan yr Awdurdod Glo a staff technegol y Cyngor ei hunan os yw datblygiad yn dderbyniol ac os dylid rhoi amodau yn ei gwneud yn ofynnol cymryd mesurau rhagofalu sefydlogrwydd tir i ganiatâd. Mewn achosion eraill gall datblygu effeithio ar ardaloedd tirlithriad. Mewn achosion o'r fath bydd angen i geisiadau gael eu cefnogi gan ymchwiliad geotechnegol ac adroddiad sefydlogrwydd i ddynodi unrhyw fesurau unioni i ddelio gydag unrhyw ansefydlogrwydd. Gall yr ymchwiliad hwn ddangos nad yw'r datblygiad a gynigir yn bosibl ar seiliau diogelwch neu economaidd. Mewn llawer o achosion, bydd angen ymchwiliadau geotechnegol cyn penderfynu ar gais.
- 7.15** Gall ymyrryd ar dir halogedig fod â risgiau i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Lle cynigir datblygiad ar safleoedd y gwyddys neu yr amheuir eu bod wedi eu halogi, neu lle mae'r safle yn agos at safle hen domen lanw, bydd yn ofynnol i'r datblygydd

7.0 POLISIÂU RHEOLI DATBLYGU

gynnal asesiad risg ar y cam cais cynllunio. Mae'n rhaid i hyn sefydlu unrhyw lwybrau halogi posibl a dynodi'r holl fesurau diogelu angenrheidiol, os oes rhai, i ostwng y risgiau a chaniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo.

- 7.16** Mae rhan olaf y Polisi hwn yn sicrhau fod pob datblygiad yn hygyrch. Gall datblygiad gael effaith niweidiol ar weithrediad a defnydd diogel ac effeithiol y rhwydwaith a gwasanaethau trafndiaeth. Gall effeithiau o'r fath godi o lefel y traffig a gynhyrchir ar y rhwydwaith priffyrdd a'r effeithiau posibl ar, er enghraifft, ddibynadwyedd gwasanaethau bws neu ddiogelwch beicwyr a cherddwyr. Mae'r Polisi yn nodi bwriad y Cyngor i wrthod ceisiadau ar gyfer datblygiad a all llesteirio gweithrediad diogel ac effeithiol y rhwydwaith trafndiaeth.
- 7.17** Mae sefydlu hierarchaeth ffyrdd yn hwyluso defnydd effeithiol y rhwydwaith priffyrdd drwy sicrhau y caiff traffig ei sianelu i'r llwybrau mwyaf addas er mwyn cynnal safonau addas ar gyfer yr amgylchedd, amwynderau a diogelwch. Caiff y ffyrdd a ddynodir ar bob lefel o'r hierarchaeth eu nodi yn Atodiad 6.
- 7.18** Dylai pob datblygiad newydd fod yn hygyrch iawn a dylid rhoi tystiolaeth o hyn yn y datganiad Dylunio a Mynediad a gyflwynir i gefnogi ceisiadau cynllunio. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi hierarchaeth trafndiaeth yng nghyswllt datblygiadau newydd sy'n sefydlu blaenoriaethau sydd, lle bynnag y bo'n bosibl, eu bod yn hygyrch yn y lle cyntaf ar droed ac ar feic, yna gan drafndiaeth gyhoeddus ac yn olaf gan gerbydau modur preifat. Mae gan gerdded a beicio rôl bwysig wrth reoli symudiad ar draws y Fwrdeisdref Sirol, yn neilltuol ostwng nifer y teithiau byr a gymerir mewn car. Bydd angen i ddatblygwyr sicrhau fod datblygiadau newydd yn annog cerdded a beicio drwy roi ystyriaeth ofalus i leoliad, dyluniad, trefniadau mynediad, 'llinellau a ddymunir' ar gyfer trafndiaeth ddrwy ddatblygiad, ac integreiddio gyda chysylltiadau presennol a phosibl oddi ar y safle.
- 7.19** Mae gan Flaenau Gwent gynlluniau ar gyfer rhwydwaith cymunedol helaeth (llwybrau a rennir ar gyfer beiciau/cerdded). Lle dynodir y llwybrau arfaethedig ar y mapiau cynigion, caiff maint llawn y rhwydwaith ei ddynodi yn Atodiad 7. Mae'n bwysig y caiff datblygiadau newydd eu cysylltu gyda'r rhwydwaith yma.
- 7.20** Wrth benderfynu ar geisiadau, gall y Cyngor sicrhau fod datblygiadau'n rhoi ystyriaeth i anghenion pobl gyda gofynion mynediad arbennig megis plant, pobl ifanc, yr henoed a phobl gyda gallu symud cyfyngedig.
- 7.21** Mae darparu lleoedd parcio ceir yn ddylanwad sylweddol ar y dewis o ddull trafndiaeth a phatrwm datblygu. Bydd yn nod gan y Cyngor i gyfyngu datblygiadau sy'n cynhyrchu lefel uchel o dripiâu (e.e. swyddfeydd, siopau a defnyddiau hamdden) i leoliadau a gaiff eu gwasanaethu'n dda gan drafndiaeth gyhoeddus. Ymhellach, caiff darpariaeth ar gyfer parcio ei ostwng yn unol gyda gwelliannau mewn hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus. Mae gwybodaeth bellach yn y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar Fynediad, Parcio Ceir a Dylunio.
- 7.22** Mae nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18 yn rhoi cyfarwyddyd ar pryd a lle y mae angen Aseiad Trafndiaeth. Caiff datblygwyr eu hannog i gyflwyno Aseidiadau Trafndiaeth i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau sylweddol,

7.0 POLISIŌAU RHEOLI DATBLYGU

ynghyd â gwybodaeth ddigonol i asesu addasrwydd cais yn nhermau galw am deithio ac effaith. Mae Asesiad Trafnidiaeth yn adolygiad cynhwysfawr a chyson o holl effeithiau posibl datblygiad neu ailddatblygiad arfaethedig, gyda chynllun a gytunwyd i ostwng unrhyw ganlyniadau niweidiol.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcanion:** 4, 5 a 6
- **Polisiâu Strategol:** SP1, SP2, SP4, SP6, SP7 a SP10
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, MU3, AA1, R1, H1, HC1, T1, T2, T3, T4, T5, T6, EMP1, ED1, CF1, TM1, L1, ENV2, ENV3, ENV4, M4 a W1

DM2 Dylunio a Gwneud Lle

Caniateir cynigion datblygu os ceir:-

- a. Eu bod yn addas ar gyfer y cyd-destun lleol yn nhermau math, ffurf, maint a chymysgedd;
- b. Eu bod o ddyluniad da sy'n cadarnhau cymeriad lleol a nodweddion neilltuoel yr ardal neu'n cyfrannu'n gadarnhaol at drawsnewid yr ardal a chodi dwysedd, lle'n briodol;
- c. Bod y datblygiad yn rhoi ystyriaeth i egwyddorion 'Diogel drwy Ddyluniad';
- ch. Yn achos estyniadau i adeiladau, eu bod yn adlewyrchu, ategu neu wella ffurf, lleoliad, deunyddiau, manylion pensaernïol a chymeriad yr adeilad gwreiddiol, ei libart a'r ardal y ehangach;
- d. Dylai cynigion ar gyfer wynebau siop ac arwyddion newydd neu amnewid wneud cyfraniad cadarnhaol i olwg y stryd. Dylai caedau rholer gael eu cynllunio'n sensitif a'u hintegreiddio i ddyluniad cyffredinol wyneb y siop;
- dd. Yn achos y parth cyhoeddus a lleoliadau allweddol fel canol trefi, prif lwybrau a chyffyrdd, bod cymeriad ac ansawdd y ffurf adeiledig o safon uchel o ddyluniad a, lle'n briodol, yn cynnwys celf gyhoeddus; a
- e. Tirlunio a chynllunio, lle'n addas, yn sicrhau gosodiad gweledol addas ar gyfer y cynllun ac yn ei integreiddio i'r cyd-destun ehangach.

7.23 Rhaid i bob datblygiad newydd wella a pharchu eu lleoliad a chyfrannu at yr hunaniaeth leol. Rhaid i ddatblygiadau fod o fath, dull, maint a chymysgedd priodol ar gyfer eu lleoliad neu gyfrannu'n gadarnhaol at drawsnewid yr ardal a chodi dwysedd gan fod gan y Cyngor ymrwymiad i godi safon dylunio pob datblygiad newydd. Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr gyflwyno prif gynlluniau cynhwysfawr ar

7.0 POLISIÂU RHEOLI DATBLYGU

gyfer cynigion preswyl o 50 annedd a mwy ac mae'n rhaid iddynt roi ystyriaeth i'r angen i greu lleoedd ansawdd uchel, cynaliadwy a neilltuol.

- 7.24 Gellir gwneud llawer i ostwng cyfleoedd ar gyfer troseddu drwy reoli, dylunio neu newidiadau i'r amgylchedd. Gall dyluniad a gosodiad datblygiad newydd wneud troseddu'n anos ei gyflawni a/neu gynyddu'r risg o ddarganfod troseddwy'r posibl. Caiff datblygwyr felly eu hannog i roi ystyriaeth i egwyddorion 'diogel drwy ddyluniad' sydd ar gael yn www.securedbydesign.com.
- 7.25 Mae'r Cyngor yn cydnabod dymuniad preswylwyr i aros o fewn eu hanheddau presennol drwy eu haddasu a'u gwella wrth i'w ffordd o fyw a'u hanghenion personol newid. Fodd bynnag, mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng y newidiadau a'r dull y mae gwaith i adeiladau presennol yn unigol a gyda'i gilydd, yn cael effaith ar gymeriad ardal. Mae'n bwysig y caiff estyniadau o'r fath eu dylunio'n dda, yng nghyswllt y prif adeilad a'r strydlyn cyffredinol. Dylai estyniadau fod yn eilaidd i'r adeilad gwreiddiol a, lle'n bosibl, dylai estyniadau gael eu cyfyngu i'r drychiadau cefn ac ochr. Mae cyfarwyddyd manwl yng nghyswllt ceisiadau deiliaid tai yn y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar Ddatblygiadau Deiliaid Tai ym Mlaenau Gwent.
- 7.26 Mae llwyddiant canolfannau masnachol Blaenau Gwent yn hollbwysig ar gyfer cyflawni amcanion y Cynllun Datblygu Lleol. Mae wynebau siop ac adeiladau masnachol yn elfen hanfodol o weithgaredd masnachol Prif Ganol Tref a Chanolfannau Trefi Ardal a Lleol Blaenau Gwent. Os yw ansawdd gweledol strydoedd siopa'r ardal i gael eu gwella, mae wynebau siop wedi'u cynllunio'n dda a'u hadeiladu gyda deunyddiau ansawdd uchel yn hanfodol. Mae'n rhaid i'r dyluniad, cymesuredd a maint wyneb y siop fod yn addas ar gyfer yr adeilad y mae'n rhan ohono ac adeiladau cyfagos. Mae cyfarwyddyd manwl yng Nghyfarwyddyd Cynllunio Atodol y Cyngor ar Wynebau Siop a Hysbysebion.
- 7.27 Er y dylai'r holl ddylunio fod o ansawdd da, mae'n hanfodol fod adeiladau mewn lleoliadau allweddol yn rhoi argraff dda o'r ardal gan y bydd hyn yn gwella delwedd yr ardal. Mae hyn yn ychwanegu at ansawdd bywyd preswylwyr lleol a hefyd yn hwb wrth ddenu buddsoddwyr ac ymwelwyr posibl i'r ardal. Mae gan Flaenau Gwent dreftadaeth ddiwylliannol gref a bydd y Cyngor yn sicrhau fod datblygiadau newydd yn parhau i ychwanegu at ffabrig diwylliannol yr ardal. Wrth ystyried cynigion ar gyfer celf gyhoeddus fel rhan o gynlluniau datblygu, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau comisiynau artistiaid sy'n ychwanegu gwerth diwylliannol i bensaernïaeth, dyluniad y tirlun ac ymdeimlad o le.
- 7.28 Mae'r tirlun a'r amgylchedd naturiol ymysg yr adnoddau lleol pwysicaf ac mae angen diogelu a gwella'r naill a'r llall. Nid yw hyn yn golygu na ddylai fod unrhyw newid ond mae gofyniad am ddatrysiadau dylunio ansawdd uchel sy'n ategu neu'n cyfrannu at gymeriad y tirlun. Yr allwedd yw cynnwys ardaloedd o bwysigrwydd sefydledig a sicrhau y cânt eu diogelu a'u gwella, er enghraifft drwy reoli a chynnwys nodweddion newydd megis coed a phlanhigion brodorol.

7.0 POLISIĀU RHEOLI DATBLYGU

Amcanion, Polisiāu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcanion:** 4, 5 a 6
- **Polisiāu Strategol:** SP1, SP2, SP4, SP6, SP7 a SP10
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, MU3, AA1, R1, H1, HC1, T1, T2, T3, T4, T5, T6, EMP1, ED1, CF1, TM1, L1, ENV2, ENV3, ENV4, M4 a W1

Darpariaeth Seilwaith

DM3 Darpariaeth Seilwaith

Disgwylir i gynigion ar gyfer datblygiadau newydd i gyflawni'r anghenion seilwaith y mae'n eu cynhyrchu, yn cynnwys gwella neu ddarpariaeth seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol. Lle na fedrir sicrhau darpariaeth ar y safle, disgwylir darpariaeth oddi ar y safle neu gyfraniad ariannol. Caiff trefniadau ar gyfer darparu seilwaith eu sicrhau drwy ddefnyddio amodau cynllunio yn gysylltiedig â chaniatâd cynllunio neu oblygiadau cynllunio mewn cytundebau cyfreithiol neu drwy'r Lefi Seilwaith Cymunedol. Bydd yn nod gan y Cyngor i sicrhau, yn amodol ar hyfywedd, y caiff effaith datblygiad newydd ei liniaru i sicrhau ei fod yn cyfrannu at adfywio cymunedau lleol ym Mlaenau Gwent.

- 7.29 Mae llawer o ddatblygiadau newydd yn arwain at ofynion seilwaith drwy roi galw ychwanegol ar wasanaethau presennol, cyfleusterau, seilwaith ac adnoddau amgylcheddol, ar y safle a hefyd ar draws ardal ehangach. Mewn llawer o achosion gall y gofynion hyn gael eu cyflawni drwy ddefnyddio amodau sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio. Lle na fedrir sicrhau gofynion o'r fath drwy amod cynllunio, bydd yr Awdurdod Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio oblygiadau cynllunio fel dull mwy addas. Fel arfer mae oblygiadau cynllunio ar wedd cytundebau cyfreithiol a osodir ar ganiatâd cynllunio sy'n ymrwymo'r datblygydd i ddarparu'r seilwaith gofynnol, neu wneud cyfraniadau ariannol tuag ato, gan felly wneud y cynnig datblygu yn dderbyniol mewn telerau cynllunio.
- 7.30 Mae cyflwyno Rheoliadau Lefi Seilwaith Cymunedol (2010) yn ei gwneud yn anghyfreithlon rhoi ystyriaeth i oblygiad cynllunio os nad yw'r oblygiad yn cyflawni'r holl brofion dilynol:
- a. Angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol mewn telerau cynllunio
 - b. Cysylltiad uniongyrchol â'r datblygiad; a
 - c. Cysylltiad teg a rhesymol mewn maint a math i'r datblygiad
- Caiff unrhyw oblygiad cynllunio a wneir ei lywio gan y profion hyn.
- 7.31 Mae'r Lefi Seilwaith Cymunedol yn dâl newydd y gall, ond nid yw'n ofynnol, i awdurdodau lleol yn Lloegr a Chymru ei godi ar y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn eu hardaloedd. Bydd trafodion y lefi yn rhoi'r seilwaith lleol ac isranbarthol newydd i gefnogi datblygiad ardal yn unol gyda chynlluniau datblygu'r awdurdodau lleol. Er nad yw Blaenau Gwent wedi gwneud unrhyw benderfyniad ffurfiol hyd yma, rhagwelir y gall y mater hwn fod yn un ar fin y gyllell oherwydd y

7.0 POLISIÂU RHEOLI DATBLYGU

rhwystrau presennol hysbys i adfywio a newidiadau i'r rheoliadau adeiladu a all arwain at osod cyfradd nominal ar gyfer y Lefi Seilwaith Cymunedol neu beidio gosod y Lefi.

- 7.32** Mae goblygiadau cynllunio fel arfer yn berthnasol i ddatblygiadau graddfa fwy lle mae angen darparu seilwaith neilltuol a gynhyrchir gan y datblygiad i ganiatáu i'r cynnig datblygu fynd rhagddo. Mae seilwaith yn cynnwys amrediad o wasanaethau/cyfleusterau a ddarperir gan gyfrff cyhoeddus a phreifat. Mewn rhai achosion gall fod angen gwelliannau i ddarpariaeth seilwaith ffisegol, megis mynedfa/allanfa safle a gwelliannau priffordd tu hwnt i ffin y safle. Lle byddai'r datblygiad yn doddi pwysau ar gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol sydd eisoes yn llawn neu bron yn llawn, gellir ceisio gwelliannau i'r gwasanaethau hyn megis: tai fforddiadwy, ysgolion, hamdden, gofod agored cyhoeddus a thrafnidiaeth. Lle mae gan ddatblygiad effaith ar y seilwaith naturiol, gellir ceisio lliniaru ar gyfer nodweddion newydd a/neu wella nodweddion o werth ecolegol neu ddaearegol. Gellir hefyd geisio adfywio drwy ddefnyddio cytundebau marchnad lafur lleol i alluogi pobl i sicrhau cyflogaeth a datblygu sgiliau yn y sector adeiladu twf. Mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd yn 'Y Gweithfeydd' a chaiff ei ymestyn ar draws y Fwrdeisdref Sirol. Nid yw'r rhestr hon yn holl-gynhwysfawr ond mae'n nodweddiadol o'r math o welliannau seilwaith y gall fod eu hangen.
- 7.33** Yn dibynnu ar natur a maint y cynnig datblygu, gallai darparu'r seilwaith gofynnol fod ar ffurf darpariaeth ar y safle, darpariaeth oddi ar y safle neu gyfraniadau ariannol i ddarparu'r seilwaith yn llawn neu'n rhannol. Lle mae angen mwy nag un datblygiad i gyfrannu tuag at math neilltuol o seilwaith, megis cynllun ffordd, gall yr awdurdod lleol gronni cyfraniadau ariannol a'u cadw nes bod cyllid digonol i gyflenwi'r seilwaith. Nid yw'n anarferol chwaith i oblygiadau gael eu cyflwyno dros oes y datblygiad i sicrhau y caiff y seilwaith gofynnol ei gyflenwi ar yr amser priodol. Gellir ceisio goblygiadau yng nghyswllt cynnal a chadw hirdymor cyfleusterau, megis cyfleusterau chwaraeon neu chwaraeon, a allai fod ar ffurf cyfraniad ariannol unigol neu mewn camau.
- 7.34** Y safleoedd Cynllun Datblygu Lleol y disgwylir iddynt gynhyrchu goblygiadau cynllunio yw'r dyraniadau tai hynny o 10 neu fwy o unedau a gynhwysir ym Mholisi H1, dyraniadau cyflogaeth a gynhwysir ym Mholisi EMP1, a dyraniadau manwerthu a gynhwysir ym Mholisi R1. Ar gyfer safleoedd tai rhoddir arwydd o'r gofynion neilltuol (pryd, sut a phryd) ym Mhennod 9 - Cyflenwi a Gweithredu ac mae croesgyfeiriadau at Bolisiâu DM8 Tai Fforddiadwy a DM13 Darpariaeth ar gyfer Cyfleusterau Gofod Agored a Hamdden. Yng nghyswllt ceisiadau yn ymwneud â chyflogaeth a manwerthu, ceisir gofynion lle'n berthnasol ar gyfer cynlluniau traffig, trafndiaeth a phriffyrdd, bioamrywiaeth a geoamrywiaeth; sgiliau a'r farchnad lafur; diogelwch cymunedol; a chelf gyhoeddus.
- 7.35** Yn achos ceisiadau adnewyddu a hap, caiff yr amrediad gofynion a geisir yng nghyswllt cynigion datblygu eu penderfynu ar sail achos unigol, gan roi ystyriaeth i leoliad a natur y datblygiad a'r seilwaith lleol y byddai'n effeithio arno. Bydd adrannau unigol o'r Cyngor yn manylu ar eu gofynion fel rhan o'r broses gais cynllunio. Caiff lefel y ddarpariaeth sydd ei hangen ei chefnogi gan sylfaen tystiolaeth gadarn yn ôl galluedd cyfleusterau presennol a blaenoriaethau'r adran

7.0 POLISIĀU RHEOLI DATBLYGU

berthnasol ar unrhyw amser penodol ac nid ydynt felly'n rhan o'r Cynllun Debygu Lleol.

7.36 Ym mhob achos, lle byddai cynnig datblygu a fyddai fel arall yn cael ei wrthod yn cael ei wneud yn dderbyniol drwy sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i'r seilwaith drwy oblygiad cynllunio, dim ond unwaith y llofnodwyd y goblygiad cynllunio y rhoddir caniatâd cynllunio. Os na fedrir sicrhau cytundeb o'r fath, gwrthodir y cynnig datblygu.

7.37 Caiff Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar Oblygiadau Cynllunio ei uwchraddio i gefnogi'r polisiâu perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol, rhoi sylfaen tystiolaeth cadarn i gefnogi'r polisiâu hynny a manylu ar y gofynion gweithdrefnol penodol. Dylid felly ymgynghori â'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol yng nghyswllt pob cynnig datblygu sy'n debygol o sbarduno gofyniad am ddarparu seilwaith newydd neu well.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcanion:** 3, 7, 9 a 10
- **Polisiâu Strategol:** SP1, SP2, SP4, SP8, SP9 SP11 a SP12
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, MU3, AA1, R1, H1, HC1, EMP1, TM1, M4 a W1

Ynni Adnewyddadwy

DM4 Ynni Carbon Isel a Digarbon

Bydd y Cyngor yn annog cynigion datblygu sylweddol i gynnwys cynlluniau sy'n cynhyrchu ynni o dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel/digarbon. Gallai'r technolegau hyn gynnwys gwynt ar y tir, nwy tomen lanw, cynydu ynni, ynni o wastraff, treulio anerobig, nwy carthffosiaeth, pŵer dŵr, biomas, gwres a phŵer cyfun a solar.

Caniateir y technolegau hyn ar yr amod:

- a. Y gall monitro ac ymchwiliad addas ddangos na fydd y datblygiad yn cael unrhyw effaith niweidiol annerbyniol ar gadwraeth natur a chymeriad ac ymddangosiad y tirlun;
- b. Y gwnaed trefniadau addas ar gyfer cadwraeth a/neu gofnodi nodweddion o ddiddordeb archeolegol, pensaernïol neu hanesyddol lleol;
- c. Y gallant gael eu cyrchu'n ddiogel i ganiatau cynnal a chadw rheolaeth heb effaith niweidiol annerbyniol i'r amgylchedd neu'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus;
- ch. Ni fyddant yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar amwynderau lleol oherwydd allyru sŵn, effaith gweledol, bwrw cysgod, adlewyrchu golau, allyru mŵg, tarthau, nwyon niweidiol, llwch, nac fel arall achosi llygredd i'r amgylchedd lleol;

7.0 POLISIÂU RHEOLI DATBLYGU

- d. Ni fyddant yn arwain at ymyriad electromagnetig i systemau trawsyrru a derbyn presennol (sy'n cynnwys gwasanaethau mordwyo ac argyfwng), gan felly leihau diogelwch y cyhoedd;
- dd. Dynodir derbynnydd lleol gwres ac ynni o'r cynigion a, lle'n briodol, cânt eu cysylltu i/manteisio o'r cyfleuster; a
- g. Gwnaed darpariaeth ar gyfer symud yr holl seilwaith o, ac ailosod y safle yn dilyn terfynu defnydd.

7.38 Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol, mae'r Cyngor wedi paratoi Asesiad Ynni Adnewyddadwy i ddangos lefel bosibl cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Roedd yr asesiad hwn yn dilyn pecyn cymorth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'n edrych ar amrywiaeth eang o ffynonellau ynni adnewyddadwy. Mae'r Asesiad yn cydnabod, wrth gynhyrchu ffynonellau adnewyddadwy o wres yn neilltuol, fod y potensial ar gyfer cynhyrchu ynni gwres yn y Fwrdeisdref Sirol yn is na'r targedau cenedlaethol a osodir yn strategaeth ynni adnewyddadwy y Deyrnas Unedig. Mae felly achos dros graffu'n agosach ar gynigion i asesu eu potensial ar gyfer derbyn neu gynhyrchu ynni adnewyddadwy dros y gofynion a nodir yn y polisi cenedlaethol ar adeiladau cynaliadwy.

7.39 Bydd yn ofyniad gan y Cyngor fod datganiadau ynni'n cael paratoi ar gyfer pob cynnig am ddatblygiad sylweddol (100 neu fwy o fflatiau neu gartrefi a/neu ddarparu 1,000m sg a throsodd o ofod llawr) i nodi sut y gallant wneud cyfraniad at gynyddu lefelau o gynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel/digarbon. Bydd felly'n disgwyl i'r holl gynigion datblygu sylweddol edrych ar y potensial am gynhyrchu ynni adnewyddadwy a/neu dechnolegau carbon isel/digarbon ar y safle a, lle bo'n addas, rannu ynni adnewyddadwy gyda'r gymuned ehangach.

7.40 I hyn o beth, bydd y Cyngor yn cymryd rôl gorfforaethol ragweithiol wrth geisio gwneud ei adeiladau ei hun yn fwy effeithiol o ran ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy, a hefyd yn cynhyrchu Cynllun Cyfleoedd Ynni fel Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol i'r Cynllun Datblygu Lleol i gynorthwyo'r diwydiant datblygu ar gyfer dynodi'n ofodol ffynonellau posibl o ynni adnewyddadwy yn cynnwys ardaloedd addas ar gyfer rhwydweithiau gwynt graddfa lai, ynni dŵr a gwresogi ardal.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcanion:** 6
- **Polisiâu Strategol:** SP7
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, H1, HC1 a EMP1



7.0 POLISI'AU RHEOLI DATBLYGU

Manwerthu

DM5 Rheoli Prif Canol Tref a Chanol Trefi Ardal

Caiff cynigion datblygu sy'n cynnwys newid defnydd safle llawr daear yn y Prif Ganol Tref a Chanol Trefi Ardal eu rheoli yn y modd dilynol:

- a. Dynodi Ardaloedd Manwerthu Sylfaenol lle mai dim ond defnyddiau A1 a ganiateir.
- b. Annog defnyddiau A2, D1 a D2 y tu allan i'r Ardal Fanwerthu Sylfaenol.
- c. Ni chaniateir defnyddiau A3 lle maent yn peri niwed i fywiogrwydd, hyfywedd a chymysgedd manwerthu yr ardal fel canlyniad i amllder y math yma o ddefnydd.
- ch. O fewn canol trefi, ni chaniateir newid defnydd unedau llawr daear i unedau preswyl.

- 7.41 Mae'r polisi hwn mewn grym ar gyfer Prif Ganol Tref Glynebwy a Chanol Trefi Ardal Brynmawr, Tredegar ac Abertyleri.
- 7.42 Mae siopa yn cyfrannu at fywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol trefi a hefyd yn fanteisiol i'r economi lleol, ac yn gallu ategu amcanion hamdden a thwristiaeth y Cynllun hwn. Mae felly'n hollbwysig i ddiogelu craidd manwerthu'r prif ganol trefi a gwrthwynebu datblygiadau sy'n niweidio neu'n tanseilio'r swyddogaeth yma.
- 7.43 Dynodwyd craidd manwerthu y cyfeirir ato fel Ardal Fanwerthu Sylfaenol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y Prif Ganol Tref a Chanol Trefi Ardal. Dangosir ffiniau'r Ardaloedd Manwerthu Sylfaenol ar y map cynigion a hefyd mewn cynlluniau yn Atodiad 5.
- 7.44 Mae'r polisi yma'n cyfyngu Ardaloedd Manwerthu Sylfaenol i ddefnyddiau A1. Ystyrir bod clystyru defnyddiau A1 yn fanteisiol i fywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canol trefi. Mae'r cymysgedd o ddefnyddiau o fewn y Canol Trefi yn dangos fod canran uchel o unedau o fewn yr Ardaloedd Manwerthu Sylfaenol ar hyn o bryd yn rhai dosbarth A1 (cyfeirio'n unig at lefel daear safleoedd). Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y Papur Cefndir ar Fanwerthu.
- 7.45 Caiff amrywiaeth o ddefnyddiau eu hannog y tu allan i'r Ardaloedd Manwerthu Sylfaenol. Dylid annog datblygiadau defnydd cymysg yn cyfuno manwerthu gyda deunyddiau adloniant a hamdden i hyrwyddo canolfannau bywiog yn ogystal â gostwng yr angen i deithio i ymweld ag amrywiaeth o gyfleusterau. Gall defnyddiau hamdden fod o fudd i'r canol trefi, a gyda sylw digonol i ddiogelu amwynderau, gallant gyfrannu at economi lwyddiannus gyda'r nos.

7.0 POLISIÂU RHEOLI DATBLYGU

- 7.46 Ni ddylai nifer a chrynhoad sefydliadau bwyd a diod ddominyddu canol tref ac felly niweidio cymeriad a swyddogaeth cyffredinol y canolfannau. Bydd y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar Siopau Pryd ar Glud Poeth a Thafarndai yn cael ei ddiweddarau i roi cyfarwyddyd pellach i gefnogi'r Polisi yma.
- 7.47 O fewn ffiniau canol trefi, ni chaniateir newid defnydd unedau llawr daear i fod yn unedau preswyl er y caiff trosi loriau cyntaf ac ail loriau adeiladau o fewn canol y dref ei ganiatáu a'i annog. Gall trosi gofod gwag a segur ar loriau cyntaf ac ail loriau ardaloedd manwerthu fod yn ychwanegiad defnyddiol i'r stoc preswyl a rhoi bywyd newydd i ganol trefi.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- Amcanion: 1
- Polisiâu Strategol: SP1, SP2 a SP3
- Dyraniadau: AA1 a R1

DM6 Rheoli Canol Tref Leol Blaenau

Bydd y cynigion datblygu canlynol yn rheoli ymgorffori newid defnydd adeiladau llawr daear yng Nghanol Tref Leol Blaenau:

- Cefnogir gwasanaethau manwerthu, proffesiynol ac ariannol, adloniant a hamdden a defnyddiau cymunedol.**
- Ni chaniateir defnyddiau A3 lle maent yn niweidio bywiogrwydd, hyfywedd a chymysgedd manwerthu yr ardal fel canlyniad i amlhau'r math yma o ddefnydd.**
- Yn achos newid defnydd i breswyl, cafodd cadw y safle manwerthu ar gyfer dibenion manwerthu/masnachol ei ymchwilio'n llawn heb lwyddiant drwy farchnata ar gyfer gofod manwerthu/masnachol addas ar gyfraddau marchnad rhesymol am o leiaf 12 mis.**

- 7.48 Mae gan ganol trefi lleol rôl hanfodol fel manau siopa a hefyd oherwydd eu bod yn rhoi cyfle i ystod eang o wasanaethau gael eu cyflwyno'n lleol mewn lleoliadau sy'n hygyrch drwy ddewis trafndiaeth yng nghanol cymunedau.
- 7.49 Disgwylir i Blaenau weithredu fel Canolfan Siopa Leol, yn bennaf yn gwasanaethu preswylwyr Nantyglo a Blaenau. Bydd y pwyslais ar siopa cyfleustra (bwyd) gydag elfen o siopa cymharu (nwyddau heblaw bwyd) dydd-i-ddydd, Caiff amrywiaeth o gyfleusterau a defnyddiau eu hannog yn gyson gyda graddfa a swyddogaeth y Ganolfan i gyflawni anghenion dydd-i-ddydd pobl.
- 7.50 Mae'r cynnydd sylweddol yn y nifer o safleoedd pryd ar glyd poeth a thafarndai yng Nghanol Tref Leol Blaenau wedi arwain at i breswylwyr lleol, busnesau lleol ac eraill yn yr ardal fynegi pryder am fywiogrwydd yr ardaloedd siopa ac amwynderau

7.0 POLISIŌAU RHEOLI DATBLYGU

preswyl. Mae'r Polisi hwn yn anelu i ddiogelu cymeriad a swyddogaeth canol y dref. Mae cyfarwyddyd manwl ar safleoedd prydu poeth i fynd a thafarndai yng Nghanol Trefi yn y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol a ddiweddarwyd.

- 7.51 Dros oes y Cynllun, cydnabyddir y daw rhai unedau manwerthu o fewn y canolfannau manwerthu yn segur. Gall unedau gwag gael effaith sylweddol ar ymddangosiad ac amwynder ardal a niweidio amcanion adfywio ehangach. Bydd y Polisi yma'n sicrhau fod hyblygrwydd i ystyried ailddefnyddio'r unedau hyn mewn modd priodol ar gyfer deunyddiau preswyl.
- 7.52 Byddai angen i geisiadau cynllunio ar gyfer newid defnydd i breswyl gael ei gefnogi gan dystiolaeth y cynhaliwyd ymarferiad marchnata 12 mis ar gyfer dibenion manwerthu / masnachol ar gyfraddau marchnad rhesymol. Bydd y Cyngor yn craffu'n agos ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i ddangos nad oes angen yr unedau mwyach ar gyfer dibenion manwerthu/masnachol.

Amcanion, PolisiŌau Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcanion:** 1
- **PolisiŌau Strategol:** SP1, SP2 a SP3
- **Dyraniadau:** AA1 a R1

Tai

DM7 Tai Fforddiadwy

Yn amodol ar hyfywedd a lle mae tystiolaeth o angen, bydd y Cyngor yn anelu i sicrhau 10% o dai fforddiadwy ar bob cynnig preswyl sy'n:

- Cynnwys 10 neu fwy annedd; neu**
- Yn fwy na 28ha mewn arwynebedd safle crynswth, neu**
- Yn fwy na'r trothwy yn (a) neu (b) uchod ar gyfer safleoedd cyfagos.**

- 7.53 Tai fforddiadwy ar gyfer diben y system cynllunio defnydd tir yw tai lle mae dulliau cadarn ar waith i sicrhau ei fod yn hygyrch i rai na all fforddio tai'r farchnad, ar y defnydd cyntaf a hefyd ar gyfer defnyddwyr dilynol (TAN 2, 2006, paragraff 5.1). Mae tai fforddiadwy'n cynnwys tai cymdeithasol ar rent, a ddarperir gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a thai canolraddol, sef tai lle mae'r prisiau neu renti'n uwch na rhent cymdeithasol ond yn is na phrisiau neu renti tai'r farchnad.
- 7.54 Dynododd Aseiad Marchnad Tai Leol Blaenau Gwent (2006) fod angen 86 o unedau fforddiadwy ychwanegol ym Mlaenau Gwent bob blwyddyn dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r angen hwn yn cynnwys 46 o unedau rhent cymdeithasol a 40 o unedau canolraddol. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn cymryd dull hyblyg at nodi'r math o dai i sicrhau fod y datblygiad yn cyflawni anghenion yr ardal leol (fel y'i nodir

7.0 POLISIÂU RHEOLI DATBLYGU

yn yr Asesiad o'r Farchnad Tai Leol) a chynorthwyo i sicrhau cymunedau cymysg a chytbwys.

- 7.55** I sicrhau y caiff tai fforddiadwy eu cyflenwi yn unol â'r angen a ddynodwyd, bydd y Cyngor yn ceisio darparu 10% o dai fforddiadwy ar safleoedd o 10 o unedau preswyl a throsodd neu safleoedd sy'n fwy na 0.28 hecтар mewn maint (arwynebedd crynswth safle). Pan fydd safleoedd cyfagos gyda'i gilydd yn uwch na'r trothwyon hyn ceisir tai fforddiadwy. Mae'r targed canran a gynhwysir yn y polisi uchod yn cydnabod fod hyfywedd datblygu yn y Fwrdeisdref Sirol yn ystyriaeth bwysig a bydd angen negodi'r union fath a faint o dai fforddiadwy i'w cyflenwi ar sail safle-wrth-safle.
- 7.56** Mae Strategaeth Tai Gwag y Cyngor yn dynodi 200 annedd sy'n hirdymor wag. Gall yr adeiladau hyn gael effaith niweidiol sylweddol ar gymeriad ac ymddangosiad anheddiad. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn a chynyddu cyfanswm darpariaeth tai fforddiadwy, bydd y Cyngor mewn rhai amgylchiadau yn ceisio cyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr. Er enghraifft, lle byddai defnyddio gofyniad 10% yn creu 'rhan' o annedd fforddiadwy, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r holl anheddiad gael ei ddarparu ar y safle ac 'annedd rhannol' i'w ddarparu drwy gyfraniad datblygydd yn lle darpariaeth ar y safle. Gall hefyd ddigwydd lle na ystyrir fod darpariaeth ar y safle yn addas ac y medrir cyflenwi unedau priodol ar safle arall ac na all unedau oddi ar y safle gael eu darparu gan nad oes safle arall ar gael.
- 7.57** Mae cyngor pellach ar ofynion tai fforddiadwy yn y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol ar Obygiadau Cynllunio a ddiweddarwyd.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcanion:** 3
- **Polisiâu Strategol:** SP4
- **Dyraniadau:** H1 a HC1



7.0 POLISIŌAU RHEOLI DATBLYGU

DM8 Safleoedd Eithriad Tai Fforddiadwy

Caniateir datblygiadau tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol fel eithriad i bolisi ar setliadau gwledig cyfagos yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol a phob anheddiad arall y de os ceir :

- a. Bod tystiolaeth ar ffurf arolwg anghenion tai lleol fod angen amlwg y medrir ei ddangos yn yr anheddiad ar gyfer llety o'r fath;
- b. Nad oes unrhyw safleoedd wedi eu dynodi yn dod ymlaen o fewn ffin yr anheddiad a allai ddiwallu'r angen yma;
- c. Gellir gwneud trefniadau boddhaol i sicrhau y cedwir yr anheddau fel tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol am byth bythoedd;
- ch. Mae'r cynnig yn cydffinio ac yn ffurfio estyniad rhesymegol i ffin yr anheddiad gan osgoi patrymau rhuban a darniog o ddatblygu; a
- d. Ni fyddai'r cynnig yn ffurfio nodwedd amlwg yn y tirlun.

Er budd creu a chynnal cymunedau cymysg cynaliadwy, dim ond ar gyfer safleoedd o 10 uned neu lai yr ystyrir cynigion.

7.58 Diben y Polisi Eithriad Tai Fforddiadwy yw rhyddhau safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy lle mae prinder safleoedd ar gael i ateb y galw. Dim ond lle mae angen lleol dilys ar gyfer tai fforddiadwy o fewn yr anheddiad dan sylw a lle na all yr angen gael ei gyflawni ar safle arall y caiff safleoedd eithriad ar gyfer tai fforddiadwy yn briodol. Bydd y Cyngor angen cytundeb cyfreithiol yn cyfyngu defnydd yr anheddau i bobl leol sydd angen tai fforddiadwy. Mae cyngor pellach ar hyn yn y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol a ddiweddarwyd ar Obygiadau Cynllunio.

7.59 Yr 'aneddiadau gwledig' y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddynt yw Trefil, Pyllau Bedwellte, Pochin, a Cwm yng ngogledd y Fwrdeisdref a phob anheddiad yn ne'r Fwrdeisdref (a ddynodwyd yn y Cynllun Cyd-destun Aneddiadau ym Mhennod 3.0). Dynodwyd meini prawf llym i sicrhau na chymeradwyid datblygiadau anaddas a fyddai'n cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcanion:** 3
- **Polisiâu Strategol:** SP4
- **Dyraniadau:** H1 a HC1

DM9 Safleoedd Carafannau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Caniateir safleoedd newydd lle:

- a. Mae'r safle wedi ei leoli'n dda yng nghyswllt cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol;
- b. Mae tirlunio a phlannu digonol gyda choed a pherthi addas yn helpu'r safle i doddi i'w leoliad;
- c. Y gellir darparu draeniad dŵr budr a dŵr wyneb ar y safle, yn cynnwys seilwaith addas a chyfleusterau i drin gwastraff;
- ch. Gall y safle ddarparu ar gyfer deunyddiau preswyl a busnesau seiliedig yn y cartref heb achosi niwed i amwynder a chymeriad y safle;
- d. Yn achos safle symudol neu deithio, bod ganddo fynediad da i'r prif rwydwaith priffyrdd (a ddynodir yn atodiad 6).

- 7.60 Mae'r Polisi yn rhoi fframwaith ar gyfer asesu cynigion ar gyfer safleoedd newydd ar gyfer sipsiwn a theithwyr er mwyn ateb unrhyw anghenion nas dynodwyd yn y dyfodol.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- Amcan: 3
- Polisi Strategol: SP4
- Dyraniad: GT1

SICRHAU CYFLEOEDD AR GYFER TWF ECONOMAIDD CYNALIADWY A HYRWYDDO DYSGU A SGILIAU

Cyflogaeth

DM10 Cyfyngiadau Defnyddio Dosbarth – Cyflogaeth

Yn unol â Pholisiau EMP1 a EMP2, bydd y cyfyngiadau dilynol ar gynigion datblygu ar ardaloedd diwydiannol mawr:

1. Ar safleoedd a ddynodwyd fel Safleoedd Strategol, dim ond yn yr achosion dilynol y caniateir datblygu:
 - a. Os yw o fewn dosbarth defnydd B1 a B2
 - b. Darparu cyfleuster neu wasanaeth ategol i'r defnydd cyflogaeth arfaethedig.
2. Ar safleoedd a ddynodwyd fel Parciau Busnes, dim ond yn yr achosion dilynol y caniateir datblygu:
 - a. Os yw o fewn dosbarth B1.
 - b. Darparu cyfleuster neu wasanaeth ategol i'r defnydd cyflogaeth arfaethedig.

7.0 POLISI'AU RHEOLI DATBLYGU

3. **Ar safleoedd a ddyrannwyd neu a ddynodwyd fel Safleoedd Sylfaenol, dim ond yn yr achosion dilynol y caniateir datblygu:**
 - a. O fewn dosbarthiadau B1, B2, B8.
 - b. Defnydd Sui Generis priodol.
 - c. Darparu cyfleuster neu wasanaeth atodol i'r defnydd cyflogaeth presennol ac arfaethedig.

4. **Ar safleoedd a ddyrannwyd neu a ddynodwyd fel Safleoedd Eilaidd, dim ond yn yr achosion dilynol y caniateir datblygu:**
 - a. O fewn dosbarthiadau B1, B2 neu B8.
 - b. Defnydd Sui Generis priodol.
 - c. Darparu cyfleuster neu wasanaeth atodol i'r defnydd cyflogaeth presennol ac arfaethedig.
 - ch. Gwasanaeth masnachol derbyniol

- 7.61 Diben y Polisi yw mabwysiadu dull hyblyg at gyflogaeth i roi'r gwasanaeth gorau i gyflawni'r gofynion tir yn nhermau defnyddiau B1, B2 a B8 yn ogystal â hwyluso twf economaidd parhaus o fewn Blaenau Gwent mewn modd amrywiol a chynaliadwy. Mae'r Polisi hefyd yn anelu i ddiogelu tir a safleoedd presennol sydd dan bwysau cynyddol i gael eu datblygu ar gyfer defnyddiau heblaw cyflogaeth.
- 7.62 Mae mwyafrif stadau diwydiannol ym Mlaenau Gwent yn cynnwys busnesau a gaiff eu categoreiddio o fewn Dosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8 Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd Cynllunio Tref a Gwlad 1987 (fel y'i newidiwyd), fodd bynnag mae hefyd enghreifftiau o ddefnydd Sui Generis ar nifer o ardaloedd cyflogaeth. Byddai enghreifftiau o ddefnyddiau Sui Generis priodol yn cynnwys gwerthwyr nwyddau adeiladwyr, depots cerbydau a swyddau rheoli tacsis.
- 7.63 Caiff pob safle diwydiannol a gaiff ei ddyrannu neu ei ddynodi fel safle sylfaenol neu eilaidd ei ystyried yn addas mewn egwyddor ar gyfer lleoli cyfleusterau rheolaeth gwastraff. Rhaid i gynigion datblygu ar gyfer cyfleusterau rheolaeth gwastraff ar safleoedd cynradd ac eilaidd a ddynodwyd gael eu hystyried yn erbyn darpariaethau eraill y Cynllun a chyfarwyddyd polisi cenedlaethol, yn neilltuoel TAN 15. Cyfeirir at yr ymrwymiad hefyd ym Mholisi SP13, ac mae'r ddau bolisi yn cyflawni gofynion y Strategaeth Genedlaethol ar Wastraff a'r Strategaeth Ranbarthol ar Wastraff.
- 7.64 Gellir caniatáu defnyddiau ategol sy'n disgyn y tu allan i ddefnyddiau dosbarth B, sy'n cefnogi swyddogaeth ehangach safleoedd cyflogaeth ac nad ydynt yn effeithio ar integriti y safleoedd hyn, ar safleoedd a ddyrannwyd neu a ddynodwyd fel Safleoedd Strategol Parciau Busnes, safleoedd Sylfaenol ac Eilaidd. Mae enghreifftiau'n cynnwys caffes a meithrinfeydd.
- 7.65 Byddai enghreifftiau o wasanaethau masnachol y gellid eu hystyried yn dderbyniol ar safle a ddyrannwyd neu a ddynodwyd fel safle eilaidd yn cynnwys iechyd a ffitrwydd, cyfleusterau hyfforddiant, meithrinfeydd dydd (lle nad oes safleoedd eraill ar gael mewn lleoliad canol tref), busnesau atgyweirio a chynnal a chadw cerbydau a deunyddiau eraill na ystyrir eu bod yn addas ar gyfer lleoliad canol tref.

Amcanion, PolisiŌau Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcanion:** 7, 8 a 9
- **PolisiŌau Strategol:** SP8
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, EMP1 a EMP2

Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden

DM11 Diogelu Cyfleusterau Cymunedol a Hamdden

Ni chaniateir cynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleuster cymunedol a/neu hamdden os na:

- a. Ddarperir cyfleuster yn ei le gan y datblygydd un ai ar y safe neu mewn lleoliad hygyrch; neu
- b. Y gellir arddangos fod y cyfleuster yn fwy na'r gofynion.

7.66 Mae cyfleusterau hamdden a chymunedol lleol megis canolfannau chwaraeon ac adeiladau cymunedol yn bwysig i iechyd a lles cymdeithasol ac economaidd yr aneddiadau o fewn y Fwrdeisdref Sirol (mae rhestr o gyfleusterau cymunedol yn y Papur Cefndir Cyfleusterau Cymunedol). Yn ychwanegol, mae'r cyfleusterau hyn yn aml yn rhoi'r elfennau allweddol i gyflawni aneddiadau mwy cynaliadwy drwy ddarparu cyfleusterau o fewn cyrraedd rhwydd pobl ar droed neu feic. Fel canlyniad mae'r Polisi hwn yn anelu i gadw cyfleusterau o'r fath. Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i bob cynnig a all arwain at golli cyfleuster.

7.67 Yng nghyswllt maen prawf b y Polisi yma, bydd angen i geisiadau cynllunio gael eu cefnogi gan dystiolaeth addas er mwyn dangos fod y cyfleuster yn fwy na'r galw.

Amcanion, PolisiŌau Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcanion:** 11
- **PolisiŌau Strategol:** SP9
- **Dyraniadau:** ED1, CF1, TM1 ac L1



7.0 POLISIŌAU RHEOLI DATBLYGU

SICRHAU CREU CYMUNEDAU DIOGEL, IACH A BYWIOG A DIOGELU A GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL

Hamdden

DM12 Darparu Cyfleusterau Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored

Lle mae diffyg sylweddol mewn cyfleusterau chwaraeon awyr agored, ceisir darpariaeth mewn cysylltiad gyda phob datblygiad preswyl newydd o 10 neu fwy o unedau yn seiliedig ar isafswm o 2.4 hectar o ofod agored hamdden fesul 1000 o boblogaeth ragamcanol.

- 7.68 Nod y Polisi hwn yw sicrhau cyfleusterau chwaraeon a chwarae awyr agored mewn cysylltiad â phob datblygiad preswyl newydd o 10 neu fwy o unedau lle byddai'r datblygiad yn arwain at lefel galw sy'n uwch na'r capasiti lleol. Bydd y Polisi yn helpu i wella'r rhwydwaith presennol o ofod gwyrdd a darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau hamdden iach. Mae asesiad diweddar o ddarpariaeth gofod agored yn dangos diffyg mewn gofod chwaraeon a chwarae awyr agored ar draws Blaenau Gwent. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn y Papur Cefndir ar Hamdden.
- 7.69 Mae darpariaeth mewn polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer sicrhau cyfleusterau chwarae a chwaraeon awyr agored. Mae'n esbonio y gall fod cyfiawnhad i awdurdodau cynllunio lleol geisio Goblygiadau Cynllunio i gyfrannu at gynnal cyfleusterau a gofod agored diogel a deniadol, a diwallu anghenion cymunedau newydd.
- 7.70 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu safonau Fields in Trust a chaiff y cyfanswm priodol o ofod agored preswyl ei asesu yn erbyn y safon o 2.4 hectar fesul 1,000 o boblogaeth sef y safon a gymeradwywyd gan Fields in Trust.
- 7.71 Yn gyffredinol ceisir darpariaeth o lefel a safon foddhaol o ofod agored ar bob datblygiad preswyl newydd. Ar gyfer y datblygiadau hynny o **10 annedd neu fwy**, caiff swm y ddarpariaeth gofod agored ar y safle ei gyfrif o boblogaeth ragamcanol y datblygiad a defnyddio isafswm safon o 2.4 hectar o ofod agored hamdden fesul 1,000 o boblogaeth.
- 7.72 Bydd angen i'r union ofynion ar gyfer pob safle gael eu cytuno gyda'r Cyngor gan y gall amgylchiadau lleol olygu fod angen newid y safonau hyn, er enghraifft, leoliad ac ansawdd darpariaeth bresennol. Mae'r Papur Cefndir ar Hamdden yn dynodi'r wardiau lle bydd diffyg mewn darpariaeth ac mae Pennod 9 - Cyflenwi a Gweithredu yn nodi'r cyfleusterau y gellir eu ceisio ar safleoedd tai a ddyrannwyd.
- 7.73 Er y ffafrir darparu cyfleusterau gofod agored ar safle, lle nad yw hyn yn ymarferol bydd y Cyngor yn disgwyl i'r datblygydd roi cyfraniad ariannol at ddarparu gofod agored oddi ar y safle sydd mewn lleoliad priodol yng nghyswllt y datblygiad, neu gyfraniad tuag at uwchraddio gofodau agored presennol cyfagos. Yn yr un modd, bydd hefyd angen cyfraniadau ar gyfer cynnal a chadw unrhyw ddarpariaeth gofod agored yn y dyfodol i ddiwallu'r anghenion yn deillio o'r datblygiad.

7.0 POLISIÂU RHEOLI DATBLYGU

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcanion:** 7 a 11
- **Polisiâu Strategol:** SP9
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, MU3, H1, HC1 a GT1

DM13 Diogelu Gofod Agored

Ni chaiff cynigion datblygu sy'n effeithio ar ofod agored presennol eu caniatáu ond lle gellir dangos: -

- a. Nad oes gan y safle unrhyw werth amwynder, cadwraeth natur neu hamdden sylweddol, a
- b. Bod mwy na digon o gyfleusterau o'r fath yn yr ardal, neu
- c. Y gellir amnewid y golled gyda darpariaeth gyfartal neu fwy yn y cyffiniau; neu
- ch. Bod y datblygiad yn gwella cyfleuster presennol. .

7.74 Mae gofod agored yn cynnwys yr holl dir sydd ar gael i'r cyhoedd ei ddefnyddio ar gyfer defnydd hamdden anffurfiol a ffurfiol. Mae darpariaeth gofod agored ym Mlaenau Gwent yn cynnwys nifer o barciau trefol a gwledig, tir comin, caeau a chyfleusterau chwaraeon cymunedol a hamdden ac ardaloedd chwarae plant. Cydnabyddir fod gan yr holl ofodau hyn rôl allweddol, o gofio am y boblogaeth sy'n drefol gan fwyaf (gyda'r 4ydd dwysedd poblogaeth uchaf yng Nghymru) gan gynnig cyfle i wella iechyd a lles preswylwyr. Mae gofod agored ym Mlaenau Gwent y tu mewn a'r tu allan i ffiniau aneddiadau ac o'r herwydd mae ganddo'r potensial i ddod dan bwysau sylweddol ar gyfer datblygiad. Caniateir datblygu gofod agored lle mae'n ddefnydd priodol, sy'n ymwneud â swyddogaeth y gofod ac yn gwella'r cyfleuster.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcan:** 11
- **Polisi Strategol:** SP9
- **Dyraniadau:** H1, HC1, TM1

7.0 POLISIŌAU RHEOLI DATBLYGU

Yr Amgylchedd Naturiol

DM14 Diogelu a Gwella Bioamrywiaeth

1. Mae'n rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel prosiect ar gynigion datblygu o fewn 10 cilomedr o Ardal Cadwraeth Arbennig Safleoedd Ystlumod Brynbuga a fyddai'n effeithio ar goridorau cysylltu neu'n achosi ymyriad uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r nodweddion.
2. Ni fyddir yn rhoi caniatâd cynllunio o fewn neu'n agos at safleoedd a ddynodir fel Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur a Gwarchodfeydd Natur Lleol, neu sy'n effeithio ar goridorau ecolegol a Chynefinoedd a Rhywogaethau Blaenoriaeth, ond lle mae un ai:
 - a. Yn cynnal neu wella pwysigrwydd ecolegol neu ddaearegol y dynodiad a'r rhywogaeth, neu
 - b. Bod yr angen am y datblygiad yn drech na phwysigrwydd y safle/rhywogaeth ac y gellir dangos na ellir yn rhesymol leoli'r datblygiad mewn man arall ac y gwneir darpariaeth i ddigolledu yn gyfwerth i'r hyn a gollwyd fel canlyniad i'r datblygiad.

7.75 Gallai cynigion datblygu ar dir, er ei fod gryn bellter i ffwrdd (10km) effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig Safleoedd Ystlumod Brynbuga. Agwedd allweddol o'r ystlum pedol llai yw ei allu i symud, sy'n golygu y gallai o bosibl deithio gilometrau lawer o Ardal Cadwraeth Arbennig Safleoedd Ystlumod Brynbuga. Felly mae angen mesurau lliniaru yng nghyswllt datblygiad posibl ym mhob ardal ac eithrio rhannau deheuol pellaf y Fwrdeisdref. Fel canlyniad, mae'n rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel prosiect ar unrhyw gynigion datblygu posibl a allai gael effaith ar goridorau cysylltedd neu achosi ymyriad uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r nodweddion (megis golau, sŵn ac yn y blaen).

7.76 Mae Blaenau Gwent yn ardal gydag amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol, yn cynnwys diogeliad bioamrywiaeth penodol ar gyfer ardaloedd a chynefinoedd a rhywogaethau yn cynnwys dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol. Caiff cynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol eu hasesu yn unol gyda pholisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r elfen hon o'r Polisi yn berthnasol i safleoedd a ddynodwyd yn lleol, er enghraifft y 137 Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur a 6 Gwarchodfa Natur Leol. Mae hefyd yn berthnasol i safleoedd sy'n cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau a ddynodwyd fel blaenoriaethau yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig neu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol a nodweddion tirlun a all roi coridorau ecolegol neu 'gerrig camu' rhwng cynefinoedd.

7.77 Nod y Polisi yw cynnal neu wella diddordeb bioamrywiaeth neu ddaearegol y safle perthnasol, yn cynnwys ei chynefinoedd a rhywogaethau. Er ei bod yn bwysig diogelu bioamrywiaeth a geoamrywiaeth y safleoedd hyn rhag datblygiad anaddas, dylid nodi yn unol gyda pholisi cynllunio cenedlaethol na fydd dynodi safleoedd

7.0 POLISIÂU RHEOLI DATBLYGU

anstatudol fel Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur yn gwahardd gweithgareddau economaidd-gymdeithasol addas.

- 7.78 Lle cynigir datblygu a all achosi difrod annerbyniol, bydd angen gwybodaeth i alluogi cynnal aesiad llawn o'r cynnig a'i effeithiau ar fioamrywiaeth a geoamrywiaeth. Bydd angen gwneud asesiadau o'r fath, yn cynnwys arolygon ecolegol, ar yr adeg priodol o'r flwyddyn a gan bobl gyda chymwysterau addas. Os yw'r angen am ddatblygiad yn drech na phwysigrwydd cadwraeth natur y safle, yna bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau mesurau rhesymol i wrthbwysio unrhyw effeithiau neu golli nodweddion cynefin neu rywogaethau sy'n bresennol ar y safle a all ddigwydd fel canlyniad i'r datblygiad. Cytunir ar fesurau o'r fath cyn dechrau'r datblygiad a chânt eu sicrhau drwy amodau cynllunio perthnasol a/neu oblygiadau cynllunio. Mae Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol y Cyngor ar Fioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yn cynnwys gwybodaeth bellach a chyfarwyddyd i gefnogi'r Cynllun hwn.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcan:** 13
- **Polisi Strategol:** SP10
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, MU3, AA1, R1, H1, HC1, GT1, T5, T6, EMP1, ED1, CF1, TM1, L1, ENV2, ENV3, ENV4, ENV5

DM15 Diogelu a Gwella'r Seilwaith Gwyrdd

Caniateir cynigion datblygu ar yr amod:

1. **Na chollir cysylltedd o fewn y rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Strategol sy'n cynnwys:**
 - a. **Coridorau afonydd**
 - b. **Ardaloedd tirlunio arbennig**
2. **Lle'n briodol, maent yn hwyluso cysylltiadau i Seilwaith Gwyrdd Strategol a Seilwaith Gwyrdd Lleol; a**
3. **Lle'n briodol, maent yn creu gofod agored naturiol a nodweddion i wella'r cysylltiadau rhwng y Seilwaith Gwyrdd.**

- 7.79 Mae'r Seilwaith Gwyrdd yn rhwydwaith o safleoedd cysylltiedig, hygyrch ac amlswyddogaethol (yn cynnwys parciau, coedwigoedd, gofodau agored anffurfiol a gwarchodfeydd natur) yn ogystal â chysylltiadau (megis coridorau afonydd a choridorau bywyd gwyllt) a all ddod â buddion cymdeithasol, iechyd, economaidd ac amgylcheddol lluosog i'r ardal. Mae'r safleoedd yn amlswyddogaethol gan y gellir eu defnyddio ar gyfer gwahanol ddibenion ar wahân i'w gwerth ecolegol, er enghraifft, weithgareddau hamdden a hyrwyddo twristiaeth gyda buddion cysylltiedig yn nhermau iechyd a'r economi.

- 7.80 Mae Seilwaith Gwyrdd Strategol Blaenau Gwent (gweler Atodiad 1 yn y Papur Cefndir ar yr Amgylchedd) yn cynnwys y cribau mynyddoedd a choridorau afonydd. Caiff cribau'r mynyddoedd eu dynodi fel Ardaloedd Tirlun Arbennig, a'u diogelu dan

7.0 POLISIŌAU RHEOLI DATBLYGU

Bolisi ENV2 a chaiff y coridorau afon eu dynodi fel Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur a'u diogelu dan Bolisi ENV3. Islaw'r lefel strategol yma mae Seilwaith Gwyrdd Lleol megis llwybrau beicio, gofod agored anffurfiol, parciau, Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur eraill a gwarchodfeydd natur.

- 7.81 Prif bwrpas y Polisi yma yw sicrhau nad yw'r datblygiad yn arwain at golli cysylltedd rhwng y safleoedd sy'n ffurfio'r Seilwaith Gwyrdd Strategol oherwydd er bod y safleoedd unigol hyn yn bwysig ynddynt eu hunain, y cysylltedd canlynol sy'n dod â gwerth ychwanegol sylweddol ac yn galluogi ymateb i newid hinsawdd.
- 7.82 Nod arall gan y Polisi yw cynyddu cysylltiadau mewn Seilwaith Gwyrdd Strategol a Lleol i helpu uchafu'r manteision y mae'r Seilwaith Gwyrdd yn ei gynhyrchu. Mae'r rhwydwaith beiciau cymunedol a'r Safleoedd Pwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur yn ffurfio sylfaen cysylltiadau rhwng y Seilwaith Gwyrdd Lleol a Strategol. Enghraifft o sut y caiff y cysylltiadau o fewn y Seilwaith Gwyrdd Lleol eu gwella yw Llwybr Ebwy Fach sy'n cysylltu 13 gofod gwyrdd cymunedol sy'n rhoi amrywiaeth o amwynderau o Beaufort i Lanhledd, cyfanswm pellter o bron 16 cilomedr. Lle mae'n bosibl, dylai cynigion datblygu hwyluso cysylltiadau rhwng y Seilwaith Gwyrdd Lleol a'r Seilwaith Gwyrdd Strategol. Dangosodd adroddiad a baratowyd gan ymgynghorwyr fod 65% o'r boblogaeth ym Mlaenau Gwent yn byw o fewn 400m o'u gofod gwyrdd agosaf ar hyn o bryd ond mae'r Cynllun yn anelu i gynyddu hyn i 80%.
- 7.83 Caiff y Seilwaith Gwyrdd hefyd ei wella drwy greu gofod agored newydd a nodweddion naturiol fel rhan o ddatblygiad newydd neu drwy gyfraniadau datblygwyr. Mae'r dull cyflawn hwn yn integreiddio diddordebau bioamrywiaeth, yn rhoi ymateb i newid hinsawdd a galluogi ffyrdd o fyw mwy cynaliadwy ac iach drwy gynnwys buddiannau beicwyr a cherddwyr. Caiff y seilwaith ei ddatblygu a'i wella yn unol gyda nodau ac amcanion Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcan:** 13
- **Polisi Strategol:** SP10
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, H1, HC1, T1, T5, T6, EMP1, TM1 a ENV2

DM16 Diogelu Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd

Caniateir cynigion datblygu ar yr amod na fyddai difrod annerbyniol i goed, coetiroedd a gwrychoedd sydd â gwerth treftadaeth naturiol neu sy'n cyfrannu at gymeriad neu amwynder ardal neilltuol.

- 7.84 Mae coed, coetiroedd a gwrychoedd yn rhan allweddol o'r tirlun, gan wneud cyfraniad cadarnhaol i'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Er mwyn cadw coed, coetiroedd a gwrychoedd o werth treftadaeth naturiol a chadwraeth a lleihau unrhyw effeithiau niweidiol datblygu, mae'n ofynnol i ymgeiswyr asesu'r holl goed a choetiroedd ar neu'n cyd-ffinio â'u safle yn defnyddio argymhellion Safon Brydeinig 5837 ar gyfer coed yng nghyswllt adeiladu mewn cysylltiad â Chyfarwyddyd Cynllunio Atodol y Cyngor: 'Canllaw i Gynnwys Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd mewn Cynigion Datblygu'. Dylid defnyddio'r asesiadau i fod yn sylfaen wrth ddylunio a chânt eu defnyddio gan y Cyngor wrth gyflawni ei oblygiadau statudol yng

7.0 POLISIÂU RHEOLI DATBLYGU

nghyswllt diogelu coed a choetiroedd. Wrth ystyried gwrychoedd, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'w gwerth tirlun, hanesyddol a chadwraeth natur, yn ogystal â'u swyddogaeth fel ffiniau.

- 7.85 Caiff nifer o goed, coetiroedd a gwrychoedd eu diogelu drwy Orchmynion Cadwraeth Coed, Statws Ardal Cadwraeth a Rheoliadau Gwrychoedd. Mae polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn achosion o'r fath sy'n eu diogelu. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â choed, coetiroedd a gwrychoedd sy'n rhan allweddol o'r tirlun ac yn gwneud cyfraniad cadarnhysaol i'w hamgylchedd naturiol ac adeiledig ond na chânt eu diogelu drwy Ddeddfau neu Reoliadau.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcan:** 13
- **Polisi Strategol:** SP10
- **Dyraniadau:** MU1, MU2, MU3, H1, HC1, GT1, T5, T6, EMP1, TM1, L1, ENV2, ENV3, ENV4 a ENV5

Amgylchedd Adeiledig

DM17 Adeiladau a Strwythurau o Bwysigrwydd Lleol

Caiff cynigion i ddatblygu sy'n effeithio ar adeiladau neu strwythurau sy'n gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad a/neu ddiddordeb yr ardal leol eu caniatáu yn unig lle:-

- a. Na fyddid yn niweidio'n sylweddol ar ymddangosiad neilltuol, integriti pensaernïol a gosodiad yr adeilad, a/neu
- b. Y byddai manteision y cynnig yn bwysicach nag unrhyw effeithiau niweidiol.

- 7.86 Mae nifer o adeiladau a strwythurau o fewn Blaenau Gwent sydd, er nad ydynt wedi'u rhestru'n statudol gan Cadw, yn cael eu hystyried o bwysigrwydd lleol sylweddol oherwydd eu gwerth hanesyddol, diwylliannol neu bensaernïol. Mae The Guardian yn Six Bells yn enghraifft o strwythur o bwysigrwydd diwylliannol. Mae adeiladau a strwythurau o'r fath mewn risg o gael eu newid neu hyd yn oed eu dymchwel heb roi unrhyw ystyriaeth i'w pwysigrwydd lleol, gan na chydabuwyd hynny. Dylid annog cadw adeiladau neu strwythurau o'r fath a cheisio defnyddiau addas i gynnal eu cymeriad hanfodol. Caiff rhestr leol o adeiladau o'r fath ei pharatoi o arolygon gweledol ac ymgynghoriad gyda grwpiau diddordeb lleol. Bydd Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol yn gosod y fethodoleg ar gyfer rhestr o'r fath.

- 7.87 Wrth asesu cynigion datblygu am yr adeilad neu strwythur, bydd y Cyngor yn asesu i ba raddau y mae'n parhau yn ei gyflwr gwreiddiol, ansawdd pensaernïaeth yr adeilad unigol a'i sefyllfa a'i ddylanwad ar y treflun neu'r tirlun. Rhoddir ystyriaeth hefyd i effaith cynigion datblygu eraill ar osodiad a chymeriad yr adeilad neu strwythur o bwysigrwydd lleol. Yn bwysig fodd bynnag, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddyladwy i'r gwahaniaeth rhwng adeiladau o bwysigrwydd lleol a'r rhai sydd wedi eu rhestru'n statudol ac felly'r lefel o ddiogeliad a roddir iddynt.

7.0 POLISIŌAU RHEOLI DATBLYGU

Amcanion, PolisiŌau Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- Amcan: 14
- Polisi Strategol: SP11
- Dyraniadau: MU2, H1, HC1 a TM1

Mwynau

SICRHAU FFRAMWAITH DIOGEL I DDARPARU CYFLENWAD DIGONOL O FWYNAU A GWNEUD DARPARIAETH ADDAS AR GYFER CYFLEUSTERAU

DM18 Meini Prawf ar gyfer Asesu Ceisiadau Mwynau

Caniateir cynigion ar gyfer echdynnu mwynau, blaen-echdynnu a datblygiad cysylltiedig, yn cynnwys tipio gwastraff mwynau ac ailweithio tomennydd, lle:

- Ar gyfer mwynau heblaw ynni, sefydlwyd angen ar gyfer y deunydd cysylltiedig, un ai mewn cyd-destun lleol, rhanbarthol neu genedlaethol;
- Lle'n briodol, gwnaed asesiad sy'n dangos na fyddai'n ymarferol i gyflenw'r mwynau o ffynhonellau eilaidd;
- Y bydd manteision i'r economi lleol;
- Effaith gweithrediadau a gweithiau a gweithgareddau cysylltiedig ynghyd â chyfnod y datblygiad ar gymunedau cyfagos a deunyddiau tir y gellir ei lliniaru i lefelau derbyniol, yn cynnwys effeithiau sŵn, golau, llwch a dirgryniad;
- Nad oes effeithiau niweidiol annerbyniol ar ddŵr wyneb, adnoddau dŵr daear a chyflenwadau dŵr;
- Nad oes effeithiau niweidiol annerbyniol ar dirluniau sensitif;
- Y gellir cymryd mesurau i sicrhau nad yw diddordebau ecolegol a bywyd gwyllt yn dioddef effeithiau niweidiol sylweddol, yn arbennig lle gellir effeithio ar ardaloedd dynodedig ac arfaethedig o ddiddordeb cadwraeth natur neu rywogaeth a ddiogelwyd;

7.0 POLISIÂU RHEOLI DATBLYGU

- f. Bod y cynigion yn dderbyniol yn nhermau ystyriaethau priffyrdd a chludiant, yn neilltuol ganlyniadau symudiadau traffig a chyfaint traffig, gyda chludiant ar reilffordd yn cael ei ffafrio, lle'n briodol;**
- ff. Mae'r cynnig yn anhebygol o greu neu waethygu problemau'n gysylltiedig gyda sefydlogrwydd tir yn yr ardal gyfagos;**
- g. Ystyrir effeithiau ar iechyd a diogelwch a'u cael i fod o fewn terfynau derbyniol;**
- ng. Nad oes effaith niweidiol annerbyniol ar nodweddion pwysig yr amgylchedd adeiledig ac ardaloedd archeolegol sensitif, yn cynnwys adeiladau rhestredig a henebion;**
- h. Unrhyw effaith niweidiol ar nodweddion daearegol neu geomorffolegol yn cael ei wrthbwysu gan yr angen am yr adnodd naturiol;**
- i. Nad oes unrhyw effaith gweledol niweidiol annerbyniol; a**
- l. Y darperir cynigion priodol a derbyniol ar gyfer adfer, ôl-ddefnydd ac ôl-ofal.**

- 7.88** Mae'r Polisi uchod yn nodi meini prawf ar gyfer asesu pob cais yn ymwneud â mwynau yn cynnwys ailweithio tomenydd mwynau ar gyfer eu cynnwys mwynol ac mae'n ategu Polisi SP12. Nid yw'n atal rhoi ystyriaeth i bolisiâu eraill lle'n berthnasol, a lle nad yw meini prawf yn berthnasol i'r rhai hynny gael eu hystyried. Mae cyfarwyddyd mwy manwl ar weithredu'r Polisi ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru MTAN 1 a 2.
- 7.89** Wrth ystyried cynigion ar gyfer ennill a gweithio mwynau bydd yn bwysig sicrhau y caiff ardaloedd sensitif yn nhermau'r tirlun, cadwraeth natur, yr amgylchedd hanesyddol ac amwynderau lleol eu diogelu ac y gwneir adferiad digonol pan ddaeth gweithrediadau i ben. Er mwyn rhoi caniatâd cynllunio mae'n rhaid dangos na fydd echdynnu mwynau yn achosi difrod amlwg ac y gall unrhyw effeithiau negyddol gael eu trin drwy amodau neu gytundebau cynllunio. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i ba raddau y gellir lliniaru effeithiau ac unrhyw fanteision amgylcheddol neu economaidd a all godi.
- 7.90** Yn unol gyda pholisi cynllunio cymdeithasol, bydd angen Asesiadau Iechyd ac Effaith Cymdeithasol lle'n addas. Mae hyn yn debygol o ffurfio rhan o unrhyw Ddatganiad Amgylcheddol a gyflwynir gyda'r cynnig.
- 7.91** Dylid cyflwyno cynigion adfer mewn camau i ddechrau cyn gynted ag sydd modd. Lle'n addas, bydd yr awdurdod yn sicrhau adferiad cynyddol ar y cyfle cyntaf. Gall ôl-ddefnyddiau gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth/coetiroedd, gofod agored cyhoeddus, hamdden, cadwraeth natur neu ddatblygiadau eraill. Dylent ffafrio creu

7.0 POLISIĀU RHEOLI DATBLYGU

tirluniau sy'n nodweddiadol o'r ardal a chynefinoedd blaenoriaeth a ddynodir yn y Cynllun Gweithredu Lleol ar Fioamrywiaeth.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcan:** 15
- **Polisi Strategol:** SP12
- **Dyraniad:** M4

DM19 Diogelu Mwynau

Ni chaniateir cynigion datblygu lle byddent yn barhaol yn sterileiddio adnoddau mwynau pwysig o fewn Ardaloedd Diogelu Agregau a Glo a ddynodwyd ar y map Cynigion os nad yw'r:

- a. Adnoddau mwynol yn cael eu hadfer cyn bod datblygiad yn dechrau; neu
- b. Bod y datblygydd yn dangos yn foddhaol fod echdynnu mwynau yn anymarferol, aneconomaidd neu'n annerbyniol yn amgylcheddol; neu
- c. Na fyddai maint a lleoliad y datblygiad yn cael unrhyw effaith sylweddol ar weithio posibl yr adnodd; neu
- ch. Mae'n ddatblygiad dros dro a gellir ei weithredu ac adfer y safle o fewn yr amserlen ar gyfer bod angen y mwynau.

7.92 Yn unol gyda'r polisi cynllunio cenedlaethol, dylai'r Cynllun Datblygu Lleol ddiogelu agregau ac adnoddau glo sylfaenol ac eilaidd rhag datblygiad parhaol a fyddai'n sterileiddio'r adnoddau mwynau. Dylid nodi, yn ôl MPPW, nad yw diogelu "o angenrhaid yn golygu bod cloddio amdanynt yn dderbyniol, ond bod lleoliad ac ansawdd y mwynau yn hysbys, a bod y cyfyngiadau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'u cloddio wedi eu hystyried". (Cynulliad Cenedlaethol Cymru: 2000 para. 13).

7.93. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall datblygu fynd rhagddo o fewn ardaloedd diogelu cyhyd â bod datblygwyr yn dangos bod yr adnodd dan sylw un ai o ansawdd/swm gwael ac na fyddai'n economaidd i'w ecsbloetio, neu na fyddai natur y datblygiad dan sylw yn gwanhau ecsbloetiad yr adnodd. Mae manylion sut y dynodwyd ardaloedd diogelu yn y Papur Cefndir ar Fwynau

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcan:** 15
- **Polisi Strategol:** SP12
- **Dyraniadau:** M2 a M3

DM20 Gwastraff

Caniateir cynigion ar gyfer datblygu cyfleuster casglu neu drin gwastraff lle:

1. Dangosir bod angen lleol neu ranbarthol ar gyfer y cyfleuster; a
2. Mai'r cyfleuster arfaethedig yw'r opsiwn amgylcheddol ymarferol gorau; a
3. Mae'r cais arfaethedig wedi cynnal proses ddethol safle ddilyniannol yn edrych ar:-
 - a. Safleoedd a ddyrannwyd;
 - b. Safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd neu a ddynodwyd fel safle sylfaenol neu eilaidd drwy Bolisi DM11 (y tu allan i ardaloedd risg llifogydd);
 - c. Safleoedd eraill gan roi ystyriaeth i'w haddasrwydd fel y'u dynodwyd drwy'r mapiau Ardal Chwilio yn y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol;
4. Yn achos cyfleuster amwynder dinesig, bod y safle wedi'i leoli yn nhermau mynediad i wasanaethu cymdogaeth neu anheddiad tra'n osgoi effaith niweidiol annerbyniol ar gymeriad, ansawdd amgylcheddol ac amwynderau'r ardal leol;
5. Mae'r cynnig mewn ardal wledig, yn ymwneud ag aildefnyddio adeiladau presennol neu ar dir o fewn neu'n agos at grwpiau o adeiladau presennol neu lle gellir dangos fod angen adeiladau/cyfarpar newydd mae'n rhaid i'r rhain fod ag effaith weledol ac amgylcheddol derbyniol; a
6. Bodloni'r meini prawf dilynol hefyd:
 - a. Yn achos cyfleusterau o raddfa ranbarthol, y lleoliad yn cysylltu'n agos gyda ac yn manteisio o fynediad rhwydd i goridau trafnidiaeth allweddol a lle'n ymarferol yn defnyddio dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth;
 - b. Cynigion yn ymwneud â didoli neu brosesu gwastraff yn cael eu gwneud o fewn adeilad presennol sydd wedi ei adeiladu'n bwrpasol neu ei addasu mewn modd addas, os na fedrir dangos mai dim ond yn yr awyr agored y gellir gwneud neu'r holl weithrediad arfaethedig;
 - c. Bod y datblygiad adeiledig yn gysylltiedig gyda'r dulliau arfaethedig o drin, storio, trin a phrosesu gwastraff yn addas i natur a pheryglon y gwastraff(au) dan sylw;
 - ch. Bydd cynigion ar gyfer llosgi gwastraff a phrosesau thermal yn cynnwys mesurau i uchafu adferiad ynni ar ffurf gwres a thrydan, gan roi ystyriaeth i'r dechnoleg gyfredol, economeg a nodweddion v ffrwd gwastraff dan svlw:

7.0 POLISIŌAU RHEOLI DATBLYGU

- d. Y cafodd cyfleoedd ar gyfer cydleoli a rhwydweithio cyfleusterau Ynni am Wastraff gyda defnyddiau tir ar gyfer ynni megis systemau gwresogi ardal neu ddefnyddwyr ynni graddfa fawr eu hymchwilio'n llawn; a
- e. Na fydd unrhyw effaith niweidiol annerbyniol ar yr amgylchedd oherwydd: llwch ac allyriadau, adar a phla, sŵn, a sbwriel na all gael ei reoli mewn modd addas drwy fesurau lliniaru.

- 7.94 Mae'r targedau yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymu'n Un: Cenedl Un Blaned (Llywdoraeth Cymru, 2010) yn galw am symud sylweddol ymaith o domennydd llanw. Mae cyfleusterau trin gwastraff yn ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill deunyddiau gwastraff a gallant ostwng yn sylweddol faint o wastraff a aiff i domen lanw. Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos fod y cynnig yn gydnaws gyda'r cyfarwyddyd cenedlaethol lleol ac mai dyma'r opsiwn amgylcheddol gorau posibl neu ran o opsiwn amgylcheddol gorau posibl ar gyfer ffrwd gwastraff.
- 7.95 Bydd Blaenau Gwent yn anelu i hwyluso cynnydd yn nifer, math ac amrywiaeth mewn maint cyfleusterau triniaeth yn union gydag Adolygiad Cyntaf y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Mae'r Cynllun yn dyrannu tir i gyflawni'r gofynion hyn. Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn dweud fod y rhan fwyaf o gyfleusterau gwastraff yn debygol o fod ar stadau diwydiannol presennol, gyda thomennydd llanw a chompostio windrow yn debygol o fod yn addas ar ffermydd fel rhan o arallgyfeirio ffermydd, yn arbennig lle medrir dangos fod allbwn y broses i gael ei ddefnyddio'n lleol. Mewn achosion o'r fath, mae'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn cynnwys mapiau Ardaloedd Chwilio i'w defnyddio wrth ddynodi safleoedd newydd ar gyfer mewn-lenwi a rheolaeth gwastraff awyr-agored/cyfleusterau adennill adnoddau. Caiff datblygwyr eu hannog i ddefnyddio'r argymhellion i ddynodi safleoedd safle addas.
- 7.96 Ar gyfer diben y Polisi hwn, mae prosiectau trin gwastraff yn cynnwys gwahanu gwastraff, ailgylchu, compostio, trin a throsglwyddo gwastraff arbennig, triniaeth thermol gwastraff yn cynnwys llosgi, pyrolysis, nweiddio a threulio anerobig. Caiff cynigion ar gyfer ymestyn cyfleusterau presennol ac ailgylchu gwastraff adeiladu a dymchwel ehfyd eu hystyried dan y Polisi yma.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Dyraniadau Perthnasol

- **Amcan:** 16
- **Polisi Strategol:** SP7 SP13
- **Dyraniad:** W1



8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

- 8.1 Mae'r Bennod hon yn dynodi sut y caiff y Strategaeth ei chyflwyno yn y fan a'r lle, hynny yw, lle mae datblygiad newydd i gael ei leoli a lle mae tir i gael ei ddiogelu rhag datblygiad.

SICRHAU RHWYDWAITH O GYMUNEDAU CYNALIADWY A BYWIOG

Ffiniau Aneddiadau

SB1 Ffiniau Aneddiadau

Er mwyn rheoli twf gofodol, dynodir ffin anheddiad er mwyn:

1. Hyrwyddo defnydd llawn ac effeithlon o dir trefol drwy ddiffinio'r ardal lle caniateir datblygu fel arfer; a
2. Atal datblygiad anaddas mewn ardaloedd gwledig.

- 8.2 Mae ffiniau aneddiadau yn ddull allweddol ar gyfer helpu i gyflawni amcan y Cynllun Datblygu Lleol o uchafu defnydd tir. Diffiniant yr ardal lle caniateir datblygiad fel arfer, yn amodol ar bolisiâu o fewn y Cynllun hwn ac ystyriaethau cynllunio sylweddol.
- 8.3 Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, y tu allan i ffin anheddiad, gall mewnlenni sensitif o fylchau bach rhwng grwpiau bach o dai, neu estyniadau bach i grwpiau, fod yn dderbyniol er y bydd llawer yn dibynnu ar gymeriad y wlad o amgylch a nifer y grwpiau o'r fath yn yr ardal. Caiff ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygu mewn ardaloedd gwledig eu trin yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol neu yn unol â Pholisi DM8 tai fforddiadwy.
- 8.4 Cafodd ffiniau aneddiadau eu hasesu'n ofalus ac maent yn dilyn ffiniau presennol rhesymegol lle bynnag y bo'n bosibl. Caiff y ffiniau eu dangos ar y Map Cynigion.

Amcanion a Pholisiâu Strategol Perthnasol

- Amcan: 6
- Polisi Strategol: SP7

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

Safleoedd Defnydd Cymysg

MU1 Coridor Gogleddol Glynebwy


Yn unol â Pholisi SP1 dyrennir tir i'r gogledd o Ganol Tref Glynebwy ar gyfer adeiladu tua 805 o gartrefi, canolbwynt hamdden masnachol, gwsanaethau ochr ffordd, cyflogaeth, safle cyflogaeth strategol defnydd cymysg a rhwydwaith o gysylltiadau gwyrdd.

- 8.5 Mae'r safle yn ymestyn o ganol y dref mewn cyfeiriad gogledd orllewinol i Ffordd Blaenau'r Cymoedd gan ffurfio ardal dairochrog o dir o tua 78 hectar. Mae'r safle'n cynnwys ardaloedd o ddatblygiad adeiledig presennol ynghyd ag ardaloedd mwy o dir gwag. Gallai nifer o'r datblygiadau presennol o fewn y coridor newid oherwydd adleoli cyfleusterau presennol i'r Gweithfeydd. Fel canlyniad, mae angen strategaeth glir i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o'r safleoedd gwag.
- 8.6 Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y Coridor Gogleddol yw creu "cyfres o ddatblygiadau sy'n ategu ac yn gwella bywiogrwydd Glynebwy fel cymuned gynaliadwy. Bydd cefnogi canol tref fywiog yn canolbwyntio ar fanwerthu yn agweddau allweddol o'r coridor gyda datblygiad preswyl cynaliadwy a darparu cyfleusterau preswyl cynaliadwy a gwell cyfleoedd economaidd a chyfleusterau hamdden yn y gogledd yn manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer mynediad gwell a gyflwynir gan y cynllun i ailgyflunio ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd.
- 8.7 *Bwriedir y bydd y datblygiadau yn cyrraedd safonau uchel o ran cynaliadwyedd a safonau dylunio trefol. Bydd y datblygiadau yn manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan osodiad amgylcheddol yr ardal drwy barth cyhoeddus ansawdd uchel a seilwaith gwyrdd. Bydd ategu'r cyfleoedd addysgol a gyflwynir yn 'Y Gweithfeydd' gyda gofod cyflogaeth addas a chreu cyfleoedd ychwanegol mewn sectorau marchnad megis twristiaeth yn ffocws allweddol. Bydd y Coridor Gogleddol yn cefnogi esblygiad tref a chanol tref Glynebwy fel prif ganolbwynt ym Mlaenau Gwent ac ardal Blaenau'r Cymoedd."*
- 8.8 Mae nifer o gyfyngiadau ar hyd Coridor Gogleddol Glynebwy y bydd angen rhoi ystyriaeth iddynt yn y datblygiad cyfredol, yn fwyaf arbennig:
- Safleoedd lleol o bwysigrwydd ar gyfer cadwraeth natur;
 - Gosodiad amgylcheddol;
 - Llif traffig a gwelliannau i briffyrdd; a
 - Materion perchnogaeth tir.
- 8.9 Caiff datblygiad y safle ei lywio gan ddogfen Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Glynebwy. Mae'r fframwaith wedi asesu potensial datblygu'r ardal ac wedi dynodi'r elfennau dilynol:
- **Safle cyflogaeth strategol defnydd cymysg** - ar dir yn Rhyd-y-Blew (29.8ha gyda 13.2ha ohono yn yr ardal a ddynodwyd ar gyfer datblygu)

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

- **Cyflogaeth a gwasanaethau ochr ffordd** - ym Mryn Serth (22.8ha gyda 10.5 ha ohono yn yr ardal datblygu fynegol)
- **Canolbwynt hamdden masnachol** - deunyddiau hamdden masnachol a deunyddiau cysylltiedig A3 (4ha); a
- **Preswyl** - 805 o gartrefi yn cynnwys 10% tai fforddiadwy ar dri pharsel o dir (23 ha). (*Dylid nodi nad yw'n ofynnol i'r holl gyfleusterau presennol i adleoli i alluogi darparu 805 o gartrefi*).
- **Rhwydwaith o gysylltiadau gwyrdd** - i ganiatáu integreiddio effeithlon y Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth natur ac ardaloedd cynefinoedd allweddol eraill.

Ffigur 4: Cysyniad Mynegol Coridor Gogleddol Glynebwy



Amcanion a Pholisïau Strategol a Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 1, 2, 3, 5, 6, 7, 8, 9 a 11
- **Polisïau Strategol:** SP1, SP4, SP5, SP7, SP8, SP9 a SP10
- **Polisïau Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM3, DM4, DM7, DM10, DM12, DM14, DM15 a DM16

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

MU2 'Y Gweithfeydd'

Yn unol â Pholisi SP1 dyrennir tir ar safle'r hen waith dur ar gyfer defnydd cymysg yn cynnwys adeiladu ysbyty newydd, hafan dysgu, canolfan hamdden, meysydd chwarae, canolfan gelfyddydau, tua 520 cartref, canolbwynt busnes, canolfan ymwelwyr hanes teulu a hel achau, canolfan adnoddau amgylcheddol a pharc gwlypdir.

8.10 Mae ardal yr hen waith dur yn rhedeg ar hyd gwaelod Cwm Ebwy i dde ddwyrain canol tref Glynebwy. Mae tua 3 cilometr o'r gogledd i'r de a hanner cilometr o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae gan y safle'r fantais o ganiatâd cynllunio amlinellol. Mae'r Prif Gynllun a Datganiad Mynediad gwreiddiol yn gosod rhaglen 10 mlynedd ar gyfer datblygu wedi'i rannu'n 5 cam rhwng 2008 a 2018. Mae'r prif gynllun diwygiedig yn cynnwys fframwaith fynegol wedi'i diwygio gyda phedwar cam i redeg am uchafswm o 4 blynedd yr un i ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd datblygu er bod dyddiad 2018 yn parhau i fod yn arwydd bras o'r amserlen a ragwelwyd ar gyfer cyflenwi'r cynllun. Caiff datblygiad y safle ei lywio gan y prif gynllun diweddaraf a dogfennau sy'n ei gefnogi.

8.11 Y Weledigaeth yw

"Y Gweithfeydd yw adfywio safle'r hen waith dur yng Nglynebwy sy'n trawsnewid y safle i fod yn ardal fywiog a neilltuol. Mae'n brosiect £350 miliwn a fydd yn creu lleoedd newydd ar gyfer dysgu, gweithio a hamdden. Caiff ei integreiddio i'r canol tref presennol i wneud cysylltiadau cryfach a dolenni i dirnodau lleol pwysig. Mae'r cynllun yn cynnwys sicrhau cartrefi newydd, ysgol gynradd ac ysgol anghenion addysgol arbennig, ysbyty, gofod llawr masnachol, hafan dysgu, parc islawr, parc gwlypdir cwm canolog, estyniad 2km i'r rheilffordd a chyswllt mecanyddol. Cafodd rhai o'r prosiectau eu cwblhau eisoes (e.e. Ysbyty Aneurin Bevan a'r ganolfan adnoddau amgylcheddol) ac mae eraill yn mynd rhagddynt (Yr Hafan Dysgu a'r Swyddfeydd Cyffredinol). Caiff Y Gweithfeydd ei gydnabod yn eang ar draws Cymru a Phrydain fel patrwm o brosiect cynaliadwy a chaiff ei yrru gan bedwar amcan allweddol: economaidd, cymdeithasol, adnoddau ac amgylcheddol, sydd i gyd yn rhoi ei hygredded gwyrdd i'r prosiect. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys cadw hanes a threftadaeth yr ardal, cynnwys y gymuned wrth ddatblygu'r safle a chreu manteision cyflogaeth a masnachol ehangach ar gyfer Blaenau Gwent."


8.12 Elfennau allweddol yw:

- **Ysbyty Aneurin Bevan** – Ysbyty Cyffredinol Lleol gyda 96 gwely
- **Y Cwm Canolog a'r Parc Gwlypdir** - coridor gwyrdd yn rhedeg drwy'r safle;
- **Canolfan Adnoddau Amgylcheddol** - Darparu cyfleuster addysg ar gyfer plant lleol a'r gymuned i ymchwilio treftadaeth ac ecoleg y safle;
- **Cyflogaeth** - 5ha o ofod masnachol a busnes wedi'i leoli'n bennaf yn ymyl safle'r ysbyty;
- **Preswyl** - tua 520 o gartrefi ar wahanol ddwyseddau ar draws y safle a adeiladwyd i safonau uwch na'r hyn sydd ei angen yn genedlaethol ac yn cynnwys 20% tai fforddiadwy;

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

- **Hafan Dysgu** - mae'r Hafan Dygu yn cynnwys darpariaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer rhai 14-19 oed. Bydd safle'r Gweithfeydd hefyd yn cynnwys ysgol 3-16 21ain ganrif dros ddau safle fydd yn darparu addysg gynradd, canolfan blant integredig ac addysg uwchradd ac adleoli Ysgol Arbennig Pen y Cwm
- **Canolfan Hamdden a Meysydd Chwarae** - Datblygir canolfan hamdden newydd a meysydd chwarae i ddarparu cyfleusterau hamdden newydd ar gyfer y gymuned;
- **Canolfan Chwaraeon** - Caiff canolfan chwaraeon newydd ei datblygu i ddarparu rhaglen gelfyddydol/diwylliannol cymunedol a phroffesiynol;
- **Strategaeth Islawr** - Caiff amrywiaeth o ddeunyddiau eu hystyried ar gyfer yr isloriau yn cynnwys chwaraeon a hamdden, gofod arddangosfa, marchnadoedd haf ar gyfer bwyd a chrefftau yn cynnwys coffe a chyfleusterau addysg a hamdden;
- **Manwerthu** - Dim ond cyfleusterau cyfleustod lleol fydd yn yr elfen fanwerthu yn cynnwys siopau lleol ac unedau masnachol llai;
- **Canolfan Ynni** - Canolbwynt ynni;
- **Canolfan Ymwelwyr Hanes Teulu a Hel Achau** - Daw'r cyn Swyddfeydd Cyffredinol (adeilad rhestredig Gradd II*) yn ganolfan ymwelwyr gan ddod â threfnadaeth ddiwydiannol yn fyw ac arddangos un o'r archifau mwyaf yng Nghymru.
- **Parth Cyhoeddus** - Ffocws ar ddilyniant o sgwariau cyhoeddus yn rhedeg drwy'r safle.

Figur 5: Cynllun Cysyniad Mynegol o'r Gweithfeydd



Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13 a 14
- **Polisiâu Strategol:** SP1, SP4, SP5, SP6, SP7, SP8, SP9, SP10, SP11
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM3, DM4, DM7, DM10, DM12, DM14, DM15, DM16 a DM17

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

MU3 Ffatri NMC a Depo Bysiau

Yn unol â Pholisi SP1 dyrennir tir yn safle Ffatri NMC a'r Depo Bysiau ar gyfer defnydd cymysg yn cynnwys: 60 cartref a chyfleoedd ar gyfer cyfleusterau masnachol/hamdden/cymunedol i weithredu fel dolen gyswllt rhwng canol y dref a Pharc Manwerthu Glanllyn.

- 8.13 Mae ailddatblygu Ffatri NMC a'r Depo Bysiau yn sylfaenol i adfywiad llwyddiannus Canol Tref Ardal Brynmawr. Mae'r safle hanner ffordd rhwng Parc Manwerthu Glanllyn a Chanol Tref Ardal Brynmawr. Mae'r safle yn ddarn trionglog o dir 2.95ha o faint. Mae'r safle'n cynnwys adeiladau ffatri graddfa fawr.
- 8.14 Mae Adroddiad Gweledigaeth ar gyfer Safleoedd Cyswllt Canol Tref Brynmawr (2008) a baratowyd gan McGregor Smith a DTZ wedi dynodi y bydd ailddatblygu'r safle yn helpu i sicrhau fod canol y dref yn manteisio o bresenoldeb stôr fawr Asda a datblygiad Parc Manwerthu Glanllyn. Fe wnaeth yr Adroddiad asesu potensial datblygu'r safle a dynododd yr elfennau dilynol:
- **Preswyl** - uchafswm o 60 o gartrefi yn cynnwys 10% o dai fforddiadwy; a
 - **Cyfleoedd Cyfleusterau Masnachol / Hamdden / Cymunedol** i weithredu fel dolen gyswllt rhwng Canol Tref Ardal Brynmawr a Pharc Manwerthu Glanllyn.
- 8.15 Bydd elfen breswyl ailddatblygiad y safle yn cynnal a chynyddu'r boblogaeth breswyl a fydd yn ei dro yn helpu i adfywio canol y dref drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr.
- 8.16 Ystyrir bod cynnig hamdden Brynmawr yn gyfyngedig ar hyn o bryd ac mae'r potensial yn bodoli i ddatblygu cyfleuster masnachol / hamdden / cymunedol, a fyddai'n helpu i gynyddu cyfleusterau i'r gymuned a denu mwy o ymwelwyr i'r dref.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 1, 3, 5, 6 a 11
- **Polisiâu Strategol:** SP1, SP3, SP4, SP5, SP7, SP8 a SP9
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM3, DM7, DM12, DM14 a DM16

Ardal Weithredu

AA1 Ardal Weithredu

Dynodwyd Ardaloedd Gweithredu yn y lleoliadau dilynol:

1. Porth Deheuol, Glynebwy
2. Sgwâr y Farchnad, Glynebwy

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

- 8.17 Mae Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Glynebwy wedi dynodi'r ffactorau allweddol dilynol ar gyfer Prif Ganol Tref Glynebwy:
- Yr angen i ddatblygu'r cysylltiadau o ardal adfywio Y Gweithfeydd;
 - Galw a ddynodwyd am safle manwerthu bwyd yng nghanol y dref fel stôr angor;
 - Y cyfle i wella seilwaith trafndiaeth gyhoeddus a gostwng trafndiaeth trwodd fel canlyniad i'r Ffordd Ddosbarthu Ymylol o fewn Y Gweithfeydd; a
 - Cyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd adfywio canol y dref fel canlyniad i adleoli ac ailddatblygiad rhai o'r adeiladau sector cyhoeddus yn y Coridor Gogleddol.
- 8.18 Mae Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Glynebwy wedi asesu potensial datblygu canol y dref ac mae wedi dynodi'r meysydd gweithredu dilynol:
- **Porth Deheuol:** Cynigir porth deheuol newydd ar gyfer Prif Ganol Dref Glynebwy yn cynnwys canolbwynt masnachol a chysylltiad uniongyrchol, diogel a chyfleus i gerddwyr rhwng canol y dref a'r Gweithfeydd (Polisi MU2). Byddai canol y dref yn manteisio o fwy o ymwelwyr fel canlyniad i ddatblygiad swyddfa arfaethedig a stôr fwyd newydd. Mae'r datblygiad yn cynnig cyfle i wneud datganiad tirnod sylweddol ar bwynt allweddol lle bydd y cyswllt mecanyddol yn dod â phobl o safle 'Y Gweithfeydd'. Er mwyn creu'r cyswllt optimwm hwn, mae angen i'r A4046 gael lon cerbydau gyda mesurau tawelu traffig. Mae hefyd gyfle i ymchwilio datblygu tir ar ochr arall yr A4046 ar safle'r orsaf betrol bresennol. Gallai hyn roi cyfle i ddatblygydd sector preifat wella'r cymysgedd ac ansawdd y gofod llawr manwerthu a masnachol yn y dref.
 - **Sgwâr y Farchnad:** Mae ailddatblygiad Sgwâr y Farchnad, Glynebwy i roi cyswllt allweddol gyda safle Coridor Gogleddol Glynebwy. Mae'r cynnig yn cynnwys ailgynllunio trefniant y gyffordd gyda gwell symudiadau cerddwyr. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiad defnydd cymysg.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 1 a 8
- **Polisiâu Strategol:** SP1, SP2, SP3 a SP8
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM3 a DM5

R1 Dyraniadau Manwerthu

Dyrennir tir ar gyfer datblygiad manwerthu yn y lleoliadau dilynol:

Rhif Polisi	Enw'r Safle	Canolbwynt	Arwynebedd Gwerthiant Net (m sg) Mynegol	Math cynnig
Ymrwymadau (caniatâd cynllunio yn Ebrill 2009)				
R1.1	Parc Manwerthu Rhyd y Blew	Glynebwy	6,000	Manwerthu heblaw bwyd
R1.2	Ymestyn Canolfan Siopa Parc yr Ŵyl	Glynebwy	1,400	Cymharu
R1.3	Ymestyn Stôr Tesco, Dynesfa	Glynebwy	1,700	Cyfleustra a Chymharu

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

Rhif Polisi	Enw'r Safle	Canolbwynt	Arwynebedd Gwerthiant Net (m sg) Mynegol	Math cynnig
	Gogledd Orllewin			
Cynigion				
AA1.1	<i>Porth Deheuol</i>	<i>Glynebwy</i>	500	<i>Cyfleustrs</i>
AA1.2	<i>Sgwâr y Farchnad</i>	<i>Glynebwy</i>	1,300	<i>Cymharu</i>
R1.4	Stryd y Farchnad	Glynebwy	600	Cymharu

- 8.19 Fel rhan gyfannol o raglen Blaenau'r Cymoedd, comisiynwyd CACI i gynnal gwiriad iechyd canol tref ac arolwg agweddau siopwyr ym mhob un o'r 11 canol tref o fewn ardal Blaenau'r Cymoedd. Roedd y gwiriad iechyd a'r gwaith arolwg yn cynnwys pob un o'r 5 canol tref ym Mlaenau Gwent.
- 8.20 Gan ddefnyddio'r data yma ac asesiadau eraill ar effaith manwerthu, a gynhyrchwyd ar gyfer cynigion manwerthu diweddar, o fewn Blaenau Gwent amcangyfrifir bod angen 1,085 m sg (net) o ofod llawr manwerthu cyfleustra a 2,960 m sg (net) o ofod llawr cymharu erbyn 2021. Mae'r asesiad yn rhoi ystyriaeth i'r ochr gyflenwi sy'n ddatblygiadau/cynigion manwerthu sydd â chaniatâd cynllunio presennol yn Ebrill 2009. Mae dadansoddiad ystadegol a chefnidir i'r gofynion gofod llawr manwerthu yn y Papur Cefndir ar Fanwerthu.

Manwerthu Cyfleustra

- 8.21 Er bod lefel cymharol dda o wariant ar nwyddau cyfleustra o fewn Blaenau Gwent, yr amcan wrth ddyrannu safleoedd newydd ar gyfer darpariaeth stôr fwyd ychwanegol yw cynyddu'r canran o breswylwyr sy'n siopa ar gyfer bwyd o fewn y Fwrdeisdref Sirol a hefyd gynnal bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi ardal a lleol.
- 8.22 I drin y galw nas bodlonwyd am fanwerthu cyfleustra, dyrennir 500 m sg (ardal werthiant net fynegol) o dir ar y porth deheuol ym mhrif ganol tref Glynebwy ar gyfer stôr fwyd. Cynigir y caiff y 585 m sg arall o ofod llawr cyfleustra ychwanegol ei gyflawni drwy gynlluniau ailddatblygu yng nghanol trefi.

Manwerthu Cymharu

- 8.23 Yn nhermau nwyddau cymharu, amcangyfrifir fod angen 2,960 m sg (net) o ofod llawr manwerthu cymharu i ddarparu ar gyfer twf a chadw mwy o wariant preswylwyr o fewn y Fwrdeisdref Sirol. Byddai hyn yn creu mwy o gyflogaeth a byddai hefyd er budd cynaliadwyedd.
- 8.24 I drin y galw nas bodlonwyd, mae'r Cynllun yn dyrannu tir yn Sgwâr y Farchnad a Stryd y Farchnad ym mhrif ganol tref Glynebwy ar gyfer manwerthu cymharu. Cynigir y caiff y 1,060 m sg arall o ofod llawr cymharu ychwanegol ei gyflawni drwy gynlluniau ailddatblygu yng nghanol y trefi.
- 8.25 Caiff ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau manwerthu ar ymyl y canol ac allan o'r dref eu trin yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol.

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

8.26 Mae disgrifiadau manwl o'r safleoedd manwerthu arfaethedig yn y ddogfen disgrifiadau safle.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- Amcanion: 1 a 8
- Polisiâu Strategol: SP1, SP2, SP3 a SP8
- Polisiâu Rheoli Datblygu: DM1, DM2, DM3, DM5 a DM6

Tai

H1 Dyraniadau Tai a HC1 Ymrwymadau Tai

Yn unol â Pholisi SP5, dynodwyd tir ar gyfer datblygiadau preswyl yn y lleoliadau dilynol:

Rhif Polisi	Enw Safle	Arwynebedd Ha	Unedau
Glynebwy			
H1.1	Trehelyg	0.63	22
MU1	Coridor Gogleddol Glynebwy	23	805
HC1.1	I'r gogledd o Fflatiau Cwrt Cwmyrdderch, Cwm	1.18	16
HC1.2	Heol Letchworth	0.93	16
HC1.3	Hen Iard 45, Heol Gwaith Dur	3.49	82
HC1.4	Ger Pant-y- Fforest	1.63	21
HC1.5	Heol Elan	1.2	43
HC1.6	Tir yn Heol y Coleg	1.04	41
HC1.7	Ger Maes Chwaraeon, Gwaun Helyg	2.92	69
HC1.8	Iard Higgs	0.99	29
HC1.9	Heol y Mynydd	0.47	22
HC1.10	Rhiw Briery	0.94	33
MU2	'Y Gweithfeydd'		520
		Cyfanswm	1,719
Tredegar			
H1.2	Cartref Aneurin Bevan	0.38	13
H1.3	Greenacres	0.50	18
H1.4	Tir ger Ffordd y Siartwyr	2.89	101
HC1.11	Adfail Garej Bysus, Heol Woodfield	0.36	11
HC1.12	Hen Ffatri LCR, Stryd Charles	0.25	14
HC1.13	Hen Safle Ffatri, Pochin	0.65	28
HC1.14	Tir Fferm Dofednod, Stryd Brenhines Victoria	0.84	3
HC1.15	Fferm Tŷ Gwyn Uchaf, Nantybwich	1.44	38
HC1.16	Hen Ffatri LCR, gyferbyn ag Ysgol Gyfun Tredegar	0.62	47
HC1.17	Peacehaven	4.81	147

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

Rhif Polisi	Enw Safle	Arwynebedd Ha	Unedau
HC1.18	Gwaith Aur, Sirhywi	0.17	16
HC1.19	BKF Plastics, Ashvale	1.83	54
HC1.20	Safle Ysgol Babanod Sirhywi	0.84	23
HC1.21	Iard y Gorfforaeth	0.75	23
HC1.22	Rhiw Parc	13.09	160
		Cyfanswm	696
Ebwy Fach Uchaf			
H1.5	Ysgol Garnfach, Nantyglo	0.81	28
H1.6	Tŷ Crawshay, Brynmawr	0.71	25
H1.7	Ysgol Babanod a Hen Iard Griffin, Brynmawr	1.04	36
H1.8	Safle Hafod Dawel, Nantyglo	0.74	44
H1.9	Gorllewin o'r Tir Hamdden, Nantyglo	0.42	15
H1.10	Tir i ddwyrain Heol Blaenau, Brynmawr	0.72	25
H1.11	Tir i'r gogledd o Winchestown, Nantyglo	0.43	15
<i>MU3</i>	<i>Ffatri NMC a Depot Bysus</i>		60
HC1.23	Recticel a Hen Safle Ffatri Gwalia, Brynmawr	0.96	45
HC1.24	Tir yn Stryd Clydach, Brynmawr	0.64	12
HC1.25	TSA Woodcraft, Stad Ddiwydiannol Sgwâr Noble, Brynmawr	0.71	25
HC1.26	Roberto Neckwear, Heol Limestone, Nantyglo	0.74	19
HC1.27	Fferm Cwm, Blaenau	9.01	78
HC1.28	Capel Salem, Heol Waun Ebwy a Chyffordd Heol Pond, Nantyglo	0.26	11
		Cyfanswm	438
Ebwy Fach Isaf			
H1.12	Safle Glofa Six Bells, Six Bells	1.47	40
H1.13	Warm Turn, Six Bells	0.93	32
H1.14	Ysgol Gyfun Roseheyworth, Abertyleri	0.95	33
H1.15	Hen Gwrt Mount Pleasant, Brynithel	0.52	18
H1.16	Hillcrest View, Cwmtyleri	0.83	22
H1.17	Chwarel ger Heol Fferm Cwm, Six Bells	0.64	22
HC1.29	Yn Heol Fferm Cwm	0.68	20
HC1.30	Hen Ysgol Iau Swffryd	0.41	18
HC1.31	Tir yn Stad Penrhiw, Brynithel	1.02	23
		Cyfanswm	358
Cyfanswm Saleoedd Newydd (H)			1,374
Cyfanswm Ymrwymadau Tai (HC)			1,707
CYFANSWM DYRANIADAU			3,081

8.27 Mae dyrannu safleoedd ar gyfer cartrefi newydd yn bwysig wrth sicrhau fod tir digonol ar gael i ateb gofynion poblogaeth y dyfodol. Bydd hyn yn cyfrannu at amrywiaeth yn y stoc tai a sicrhau dyfodol cynaliadwy, sicr a hyfyw ar gyfer yr ardaloedd canolbwynt. Mae'r tir a ddynodwyd dan y Polisi yma'n cynnwys:

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

- **(H)** Safleoedd newydd a ddynodwyd fel bod yn addas ar gyfer datblygiad preswyl neu ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau'n cynnwys tai fel canlyniad i broses asesu gadarn ar gyfer safleoedd posibl; a
- **(HC)** Safleoedd gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer tai neu ar gyfer cyfuniad o ddefnyddiau'n cynnwys tai fel ar 1 Ebrill 2009 (mewn rhai achosion yn amodol ar lofnodi Cytundeb Adran 106).

8.28 Caiff yr Ymrwymadau Tai eu diweddarau drwy'r adolygiad o'r Cynllun. Os yw cyfnod caniatâd wedi dod i ben yna cynhelir adolygiad o'r safle i ddynodi'r rheswm am hyn. Os ystyrir fod y safle ar gael i'w ddatblygu, caiff y safle ei asesu o gymharu â'r broses safleoedd a wnaeth gais i weld os yw'n addas cynnwys y safle fel dyraniad yn y Cynllun.

8.29 Er mwyn ysgogi twf yn y farchnad breswyl, mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi dyrannu tir ar gyfer adeiladu 1,374 o gartrefi eraill yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes â chaniatâd cynllunio (1,707). Dynodwyd nifer yr unedau ar y safleoedd hyn drwy ddefnyddio dwysedd cyfartalog o 35 yr hectar. Mynegol yw'r ffigurau hyn, fodd bynnag, a gall dwyseddau uwch neu is fod yn dderbyniol lle mae'r datblygiad arfaethedig yn trin ystyriaethau polisi eraill yn cynnwys dylunio a chynaliadwyedd (Polisi DM1). Dyrannwyd yr unedau ar draws amrywiaeth o safleoedd er mwyn cynnig dewis a hyblygrwydd. Bydd hyn yn cyfrannu at amrywiaeth yn y stoc tai a sicrhau dyfodol hyfyw a chynaliadwy ar gyfer aneddiadau yng ngogledd y Fwrdeisdref Sirol. Bydd aneddiadau yn ne'r Fwrdeisdref Sirol yn dibynnu'n fwy helaeth ar safleoedd bach a datblygiadau ar hap.

8.30 Mae disgrifiadau manwl o'r dyraniadau hyn yn y ddogfen disgrifiadau safleoedd.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 2, 3 5, 6, 7 a 16
- **Polisiâu Strategol:** SP1, SP4, SP5, SP6, SP7, SP10, SP13
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM3, DM4, DM7, DM12, DM13, DM14, DM15, DM16, DM17 a DM20

GT1 Llety Sipsiwn a Theithwyr

Dyrennir tir i'r de o Safle Sipsiwn a Theithwyr Cwmcrahen a all ddarparu 6 llain.

8.31 Mae Asesiad Anghenion Tai Sipsiwn a Theithwyr Blaenau Gwent (Medi 2011) yn dynodi'r angen am 4 llain arall ym Mlaenau Gwent. Cynigir y caiff y galw hyn ei gyflawni drwy ymestyn y safle presennol yng Nghwmcrahen.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcan:** 3
- **Polisi Strategol:** SP4
- **Polisi Rheoli Datblygu:** DM9

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

Trafnidiaeth

T1 Llwybrau Beiciau

Caiff y rhwydwaith presennol o lwybrau beiciau a llwybrau cymunedol eu hymestyn a'u gwella drwy gwblhau'r cynlluniau dilynol:

1. Llwybr Blaenau'r Cymoedd yn cysylltu Naw Bwa Tredegar a Brynmawr
2. Cyswllt o Ffordd Blaenau'r Cymoedd i Stad Ddiwydiannol Rhasa
3. Ffordd Blaenau'r Cymoedd i Lynebwy a Cwm
4. Cwm i Aber-big
5. Cyswllt o Ffordd Blaenau'r Cymoedd i Drefil
6. Cyswllt o Ffordd Blaenau'r Cymoedd i Stad Ddiwydiannol Tafarnaubach
7. Hilltop i Lyn Ebwy i Fanmoel
8. Brynmawr i Flaenafon
9. Estyn Llwybr Ebwy Fach o Abertyleri i Aber-big a chwblhau'r adran goll drwy Blaenau
10. Cyswllt i Lynnoedd Cwmtyleri
11. Aber-big i Royal Oak
12. Royal Oak i Swfrydd

8.32 Mae sicrhau cynnydd sylweddol yn nifer y tripiâu byrrach drwy gerdded a seiclo yn ffactor allweddol mewn trafndiaeth fwy cynaliadwy. Mae darparu rhwydwaith strategol a lleol ansawdd uchel o lwybrau penodol ar gyfer y dulliau hyn yn elfen hanfodol wrth sicrhau'r twf hwn.

8.33 Ni chafodd y cyfluniadau llwybr penodol ar gyfer y gwelliannau uchod eu hystyried yn fanwl eto ac mae'r cynlluniau ar wahanol gamau o gael eu datblygu. Dangosir cyfluniadau llwybr mynegol ar Fap Cynigion y Cynllun Datblygu Lleol a dim ond cyfeiriad cyffredinol y llwybr a ddangosir. Nid yw'r dyraniadau ar y Map Cynigion, felly, yn gyfyngol.

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

- 8.34 Mae'r llwybrau beicio arfaethedig yn hyrwyddo cynaliadwyedd, yn annog ffyrdd mwy iach o fyw a chynyddu gweithgaredd corfforol, ac yn cyfrannu at ffyniant economaidd yr ardal.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 4 a 11
- **Polisiâu Strategol:** SP1, SP2, SP6 a SP6
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1 a DM15

T2 Gwelliannau i'r Rhwydwaith Rheilffordd a Gorsafoedd

Diogelir tir ar gyfer y gwelliannau dilynol i'r rhwydwaith rheilffyrdd:

1. Estyn y cysylltiad rheilffordd o Parcffordd Glynebwy i Dref Glynebwy
2. Darparu gorsaf a chyfnewidfa bws newydd yng Nglynebwy
3. Estyn y cysylltiad rheilffordd i Abertyleri
4. Darparu gorsaf newydd a chyfleuster Parcio a Theithio yn Abertyleri
5. Darpariaeth gorsaf nwyddau yng Nglofa Marine

- 8.35 Mae agor rheilffordd Cwm Ebwy ar gyfer gwasanaethau teithwyr yn gyfle ardderchog i gynyddu defnydd y rheilffyrdd. Mae un trêrn yr awr ar hyn o bryd ond mae cynlluniau i gynyddu hyn i ddau yr awr gyda gwasanaeth i Gasnewydd. Gwelliannau eraill fydd yn cynyddu defnydd ac annog defnyddwyr ceir i newid i'r rheilffordd yw: estyn y cysylltiad rheilffordd o Parcffordd Glynebwy i Dref Glynebwy a darparu gorsaf a chyfnewidfa bws newydd yn Nhref Glynebwy.

- 8.36 Mae'r estyniad arfaethedig i reilffordd Cwm Ebwy i Abertyleri yn rhoi cyfle ardderchog i gynyddu defnydd y rheilffordd yn yr ardal hon. Caiff yr estyniad i'r llinell ei ategu gan ddarpariaeth gorsaf a chyfleuster parcio a theithio newydd.

- 8.37 Mae cyfle i ddatblygu gorsaf nwyddau rheilffordd yn safle cyflogaeth Glofa Marine.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 4 a 7
- **Polisiâu Strategol:** SP1, SP2 a SP6
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1 a DM18

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

T3 Diogelu Seilwaith Rheilffordd Segur

Diogelir seilwaith rheilffordd segur i'r dwyrain o Frynmawr rhag datblygiad a fyddai'n cyfyngu ei ddefnydd ar gyfer trafndiaeth yn y dyfodol.

- 8.38 Gellid o bosibl aildefnyddio'r rheilffordd segur ar gyfer dibenion trafndiaeth. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, caiff y llwybr hwn ei ddiogelu rhag datblygiad gan fod posibilrwydd realistig y caiff ei aildefnyddio ar gyfer dibenion trafndiaeth yn y dyfodol. Bydd y Cyngor yn cefnogi defnyddio'r tir yn y cyfamser ar gyfer llwybrau cerddwyr, beicio a marchogaeth yn cynnwys rhannu cyfleusterau.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcan:** 4
- **Polisi Strategol:** SP6
- **Polisi Rheoli Datblygu:** DM1

T4 Gwelliannau i Wasanaethau Bws

Dynodir y gwelliannau dilynol i wasanaethau bysus:

1. **Cynllun Blaenoriaeth Bws ar hyd coridor bws Brynmawr i Gasnewydd**
2. **Gwelliant cyfnewidfa bws ym Mrynmawr**
3. **Gwelliant cyfnewidfa bws yng Nglynebwy**

- 8.39 Mae'r Polisi hwn yn cefnogi gwelliant i wasanaethau bws ym Mlaenau Gwent. Dynodir y coridor bws Brynmawr i Gasnewydd yn y Cynllun Trafndiaeth Rhanbarthol ar gyfer cynllun blaenoriaeth bws. Bwriedir mai'r coridor fydd ffocws y mesurau blaenoriaeth lôn a chyffordd. Mae cynlluniau hefyd i wella cyfnewidfeydd bws ym Mrynmawr a Glynebwy.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 1 a 4
- **Polisiâu Strategol:** SP3 a SP6
- **Polisi Rheoli Datblygu:** DM1

T5 Ffyrdd Newydd i Hwyluso Datblygiad

Dynodir y cynlluniau priffordd dilynol i hwyluso datblygiad newydd:

1. **Adeiladu ffordd ddosbarthu ymylol drwy Y Gweithfeydd**
2. **Gwelliannau yn yr arfaeth rhwng y ffordd ddosbarthu ymylol a'r A465**

8.40 Er y gellir cael mynediad yn uniongyrchol i'r rhan fwyaf o safleoedd datblygu o'r rhwydwaith priffyrdd presennol, bydd y ddau safle strategol angen cynlluniau priffordd i hwyluso eu datblygiad. Mae angen adeiladu ffordd ddosbarthu ymylol drwy'r Gweithfeydd i roi mynediad i safle adfywio Y Gweithfeydd. Mae angen y gwelliannau sydd yn yr arfaeth i'r A4046 rhwng Ffordd Blaenau'r Cymoedd a'r ffordd ddosbarthu ymylol i liniaru problemau priffordd yn Heol y Fynwent a sicrhau y gall y ffordd ddarparu ar gyfer y llif traffig ychwanegol o'r Gweithfeydd a safleoedd defnydd cymysg strategol 'Coridor Gogleddol Glynebwy'. Bydd gwelliannau hefyd yn rhoi ystyriaeth i newidiadau mewn llif traffig fel canlyniad i wneud Ffordd Blaenau'r Cymoedd yn ffordd ddeuol.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcan:** 4
- **Polisi Strategol:** SP6
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM14, DM15 a DM16

T6 Gwelliannau i Briffyrdd i Hybu Adfywio

Dynodir y cynlluniau priffordd dilynol i hwyluso adfywio'r ardal:

1. **Gwneud Ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd (Tredegar i Frynmawr) yn ffordd ddeuol**
2. **Gwelliannau yn yr arfaeth i'r A4046 i'r de o Cwm**
3. **Gwelliannau yn yr arfaeth i'r A4048 i'r de o Dredegar**
4. **Gwelliannau ar-lein i'r A467 i'r de o Abertyleri**

8.41 Dynodir yr A465 fel rhan o'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (TENS) ac mae'n gyswllt strategol allweddol yn y rhwydwaith cenedlaethol o gefnffyrdd yn cysylltu Gorllewin Cymru gyda Chanolbarth a Gogledd Lloegr. Mae hefyd yn ffurfio ffordd isranbarthol bwysig ar hyd coridor Blaenau'r Cymoedd o Abertawe yn y gorllewin i'r Fenni yn y dwyrain. Mae'r cynllun i wneud 25 milltir o'r ffordd yn ffordd ddeuol yn bwysig, a hefyd felly'r effaith bosibl ar gymunedau sydd wedi eu sefyllfa ar hyd ac yn

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

agos at goridor Blaenau'r Cymoedd. Mae disgwyliad y bydd y gwelliant yn cynhyrchu gweithgaredd economaidd a buddsoddiad newydd parhaus.

- 8.42 Mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i gwblhau gwneud Ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd yn ffordd ddeuol erbyn 2020. Hyd yma, cwblhawyd dwy adran, rhwng Merthyr a Thredegar a'r Fenni a Gilwern. Mae'r cam nesaf yn cynnwys cwblhau'r darn rhwng Tredegar a Gilwern. Mae hyn i'w wneud mewn dau gam, disgwylir y cwblheir y rhan rhwng Tredegar a Brynmawr erbyn 2014 ac mae'r gwaith ar ran Brynmawr i Gilwern i ddechrau erbyn 2014 (Cynllun Trafnidiaeth Genedlaethol, 2009).
- 8.43 Un o'r prif broblemau trafndiaeth sy'n wynebu ardal Blaenau'r Cymoedd yw'r mynediad gwael i'r de, yn arbennig i'r de o Cwm. Er mwyn hwyluso adfywio, ac i alluogi creu rhwydwaith o ganolbwyntiau cysylltiedig a chysylltiadau gydag aneddiadau eraill yn y rhanbarth yn llawn, mae angen gwneud gwelliannau i'r coridor yma.
- 8.44 Yn yr un modd, mae cwblhau ffordd osgoi Tredegar wedi gwella hygyrchedd i gyfeiriad y gogledd ond mae problemau'n dal i fod ar y A4048 i'r de o Dredegar. Er mwyn hwyluso cysylltiadau gydag aneddiadau eraill yn y rhanbarth, mae angen gwneud gwelliannau i'r coridor yma.
- 8.45 Un o'r prif broblemau trafndiaeth sy'n wynebu ardal strategaeth y de yw mynediad ffordd gwael. Er y gwnaed gwelliannau ffordd ar yr A467 ar ei hyd, mae problemau ar y rhan i'r de o Abertyleri, yn arbennig yn Warm Turn. Mae angen gwelliannau i lif traffig a gostwng tagfeydd. Er mwyn hwyuluso adfywio, a galluogi creu rhwydwaith llawn o ganolbwyntiau cysylltiedig a chysylltiadau gydag aneddiadau eraill yn y rhanbarth, mae angen gwneud gwelliannau yn y coridor yma.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcan:** 4
- **Polisi Strategol:** SP6
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM14, DM15 a DM16



8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

SICRHAU CYFLEOEDD AR GYFER TWF ECONOMAIDD CYNALIADWY A HYRWYDDO DYSGU A SGILIAU

Cyflogaeth

EMP1 Dyraniadau Cyflogaeth

Cafodd y safleoedd dilynol eu dyrannu ar gyfer dibenion cyflogaeth, yn unol â'u statws yn yr hierarchaeth cyflogaeth a ddynodwyd ym Mholisi DM10:

Rhif Polisi	Enw'r Safle	Canolbwynt	Arwynebedd Datblygu Mynegol (Ha)
Safleoedd Strategol (Dosbarthiadau Defnydd B1 a B2 a chyfleuster neu wasanaeth ategol i'r defnydd cyflogaeth arfaethedig)			
MU1	Rhyd-y-Blew	Glynebwy	13.2
Parciau Busnes (Dosbarth Defnydd B1 a chyfleuster neu wasanaeth ategol i'r defnydd cyflogaeth arfaethedig)			
MU2	Canolbwynt Busnes y Gweithfeydd	Glynebwy	3.5
EMP1.1	Tir ym Mharc yr Ŵyl	Glynebwy	0.7
EMP1.2	Tir ym Mharc Busnes Tredegar	Tredegar	2.1
EMP1.3	Tir yn Stad Ddiwydiannol Rising Sun	Ebwy Fach Uchaf	1.6
Safleoedd Sylfaenol (Dosbarthiadau Defnydd B1, B2, a B8, defnydd Sui Generis priodol a chyfleuster neu wasanaeth ategol i'r defnydd cyflogaeth arfaethedig)			
MU1	Bryn Serth	Glynebwy	10.0
EMP1.4	Rhasa Llwyfan A	Glynebwy	3.4
EMP1.5	Rhasa Llwyfan B	Glynebwy	3.7
EMP1.6	Tir yn Waun-y-Pound	Glynebwy	4.6
EMP1.7	Glofa Marine	Glynebwy	3.4
EMP1.8	Parc Busnes Crown Llwyfan A	Tredegar	0.7
EMP1.9	Parc Busnes Crown Llwyfan B	Tredegar	1.6
EMP1.10	Tir ym Mharc Busnes Roseheyworth	Ebwy Fach Isaf	1.5
Cyfanswm Arwynebedd y Medrid ei Ddatblygu			50.0 ha

8.46 Mae Polisi SP8 yn cydnabod bod yn rhaid cymryd dull blaengar i fynd i'r afael â rhai o'r problemau economaidd-gymdeithasol ym Mlaenau Gwent wrth ddatblygu tir ar gyfer dibenion economaidd. Mae felly angen i'r Cynllun Datblygu Lleol ddyrannu 50 ha o dir er mwyn ateb anghenion datblygu economaidd a chyflogaeth. Bwriedir i'r dull sicrhau fod Blaenau Gwent yn cyflawni ei botensial economaidd. Mae'r Polisi hefyd yn anelu i ddiogelu tir cyflogaeth a safleoedd presennol sydd dan bwysau cynyddol i gael eu datblygu ar gyfer defnyddiau heblaw cyflogaeth.

8.47 Cafodd y dyraniad Parc Busnes yng nghanolbwynt busnes Y Gweithfeydd, tir ym Mharc yr Ŵyl, tir ym Mharc Busnes Tredegar a thir yn stad ddiwydiannol Rising Sun eu dynodi'n llwyr ar gyfer dosbarth B1. Mae hyn yn cynnwys swyddfeydd a

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

sefydliadau ymchwil ond gall hefyd gynnwys diwydiant ysgafn lle mae'n addas mewn ardal breswyl. Mae gan ddefnyddiau o'r fath rôl bwysig yn nhermau meithrin entrepreneuriaeth a datblygu diwylliant menter, ffactorau sydd o bwysigrwydd allweddol os yw'r economi lleol, ac yn wir ranbarthol, i dyfu mewn modd cynaliadwy.

8.48 Mae'r safleoedd sylfaenol dynodedig ar hyn o bryd yn cynnwys cymysgedd o ddosbarthiadau defnydd ac, o'r herwydd, cânt eu hystyried yn addas ar gyfer dosbarthiadau B1, B2 a B8, sef busnes a diwydiant cyffredinol a deunyddiau warws.

8.49 Mae disgrifiad manwl o'r dyraniadau safle yn y ddogfen disgrifiadau safle.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 5, 6, 7, 8, 9 a 16
- **Polisiâu Strategol:** SP1, SP7, SP8, SP10 a SP13,
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM3, DM4, DM10, DM14, DM15, DM16 a DM20

EMP2 Diogelu Ardal Gyflogaeth

Caiff y safleoedd dilynol eu diogelu ar gyfer defnydd cyflogaeth yn unol â'u statws yn yr hierarchaeth cyflogaeth a ddynodwyd ym Mholisi DM10:

Rhif Polisi	Ardal Cyflogaeth	Canolbwynt
Parciau Busnes (Dosbarth defnydd B1 a chyfleuster neu wasanaeth ategol i'r defnydd cyflogaeth arfaethedig)		
EMP2.1	Parc Busnes Tredegar	Tredegar
Safleoedd Sylfaenol (Dosbarthiadau defnydd B1, B2, a B8, defnydd sui generis addas a chyfleuster neu wasanaeth ategol i'r defnydd cyflogaeth arfaethedig)		
EMP2.2	Stad Ddiwydiannol Rhasa	Glynebwy
EMP2.3	Stad Ddiwydiannol Waun-y-Pound	Glynebwy
EMP2.4	Parc yr Ŵyl	Glynebwy
EMP2.5	Stad Ddiwydiannol Tafarnaubach	Tredegar
EMP2.6	Parc Busnes Crown	Tredegar
EMP2.7	Gweithdai Heol Pond	Ebwy Fach Uchaf
EMP2.8	Stad Ddiwydiannol Blaenant	Ebwy Fach Uchaf
EMP2.9	Stad Ddiwydiannol Barleyfield	Ebwy Fach Uchaf
EMP2.10	Stad Ddiwydiannol Rising Sun	Ebwy Fach Uchaf
EMP2.11	Stad Ddiwydiannol Cwmtyleri	Ebwy Fach Isaf
EMP2.12	Parc Busnes Roseheyworth	Ebwy Fach Isaf
Safleoedd Eilaidd (Dosbarthiadau defnydd B1, B2, a B8, defnydd sui generis addas, cyfleuster neu wasanaeth ategol i'r defnydd cyflogaeth arfaethedig a gwasanaeth masnachol derbyniol)		
EMP2.13	Stad Ddiwydiannol Cwm Draw	Glynebwy
EMP2.14	Stad Ddiwydiannol Stryd Marine	Glynebwy
EMP2.15	Stad Ddiwydiannol Rhiw Sirhywi	Tredegar
EMP2.16	Stad Ddiwydiannol Stryd y Bont	Tredegar
EMP2.17	Stad Ddiwydiannol Sgŵar Noble	Ebwy Fach Uchaf

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

Rhif Polisi	Ardal Cyflogaeth	Canolbwynt
EMP2.18	Canolfan Fenter Blaenau	Ebwy Fach Uchaf
EMP2.19	Stad Ddiwydiannol Cwmcrachen	Ebwy Fach Uchaf
EMP2.20	Stad Ddiwydiannol Glandwr	Ebwy Fach Isaf
EMP2.21	Stad Ddiwydiannol Llanhilledd	Ebwy Fach Isaf

- 8.50** Yn ogystal â'r tir a ddyrannwyd ar gyfer datblygu cyflogaeth yn y dyfodol (Polisi EMP1), mae nifer o ardaloedd cyflogaeth o fewn y Fwrdeisdref Sirol sydd eisoes â deunyddiau cyflogaeth ar hyn o bryd. Caiff ardaloedd o'r fath eu diogelu rhag datblygiad y tu allan i'r dosbarthiadau hynny a nodir gan y categorieiddio perthnasol (e.e. dosbarth defnydd B1 yn unig ar gyfer Parciau Busnes). Bwriedir i'r polisi diogelu hwn i weithredu law yn llaw â pholisi DM10. Yn y cyswllt hwn, disgwylir i gynigion ar gyfer datblygu tir gwag o fewn y safleoedd hyn i gydymffurfio gyda'r defnyddiau hyn hefyd.
- 8.51** Mae Parc Busnes Tredegar yn ddelfrydol fel lleoliad ar gyfer defnyddiau ansawdd uchel, seiliedig mewn swyddfa sydd wedi'u gerio tuag at amrywio'r sylfaen cyflogaeth a thwf arloesedd a menter o fewn yr economi lleol.
- 8.52** Mae'r safleoedd sylfaenol dynodedig ar hyn o bryd yn cynnwys cymysgedd o ddosbarthiadau defnydd ac, o'r herwydd, cânt eu hystyried yn addas ar gyfer dosbarthiadau defnydd o fewn B1, B2 a B8, sef swyddfeydd, diwydiant ysgafn a chyffredinol, a defnyddiau warws.
- 8.53** Mae'r Safleoedd Eilaidd diffiniedig yn galluogi datblygu defnyddiau sui generis a gwasanaethau masnachol addas i'r datblygiad. Gall y defnyddiau hyn fod â rôl bwysig mewn datblygiad economaidd, er bod angen sicrhau eu bod yn ategu a chefnogi eu gilydd a defnyddiau cyfagos, yn hytrach na gweithredu mewn cystadleuaeth neu'n niweidiol iddynt.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 7, 8 a 9
- **Polisi Strategol:** SP8
- **Polisi Rheoli Datblygu:** DM10

Cyfleusterau Cymunedol

ED1 Darpariaeth Addysg

Dyrannwyd y safleoedd dilynol ar gyfer addysg:

1. **Ysgol Gymraeg Brynmawr – Ysgol gynradd newydd**
2. **Gwastadedd Isaf, Safle Glofa Six Bells - Ysgol gynradd newydd**

- 8.54** Mae'r Polisi yn dyrannu tir y mae'r Adran Addysg ei angen ar gyfer darparu dwy ysgol gynradd newydd:

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

- Ysgol Gymraeg Brynmawr; a
- Gwastatir Isaf Safle Glofa Six Bells.

- 8.55 Cafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer ysgol gynradd Gymraeg newydd i gymryd lle Ysgol Gymraeg Brynmawr ym mis Medi 2008 ar dir i'r gogledd o Stad Ddiwydiannol Rising Sun, Nantyglo. Bydd yr ysgol yn darparu cyfleusterau addysgol ar gyfer 330 o blant ysgol gynradd.
- 8.56 Dynodwyd llwyfan isaf safle glofa Six Bells ar gyfer ysgol gynradd newydd, fel rhan o ailddatblygiad holl safle glofa Six Bells. Mae'r ysgol newydd yn debygol o gael ei datblygu yn 3ydd cam y Cynllun (2016-2021).
- 8.57 Bydd hefyd angen i drin darpariaeth ysgol mewn dalgylchoedd lle nad oes fawr neu ddim capasiti ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer galw ychwanegol sy'n debygol o ddeillio o ddatblygiad tai. Lle bo angen, mewn amgylchiadau o'r fath, ceisir cyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr tuag at ddarparu cyfleusterau addysgol newydd, yn unol gyda Darpariaeth Seilwaith DM3.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisi Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 5, 6, 10 a 13
- **Polisiâu Strategol:** SP7, SP8 a SP10
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2 a DM14

CF1 Canolfan Gymunedol

Dyrannwyd y safle dilynol ar gyfer canolfan gymunedol:

1. Hen Ysgol Babanod Sirhywi, Tredegar

- 8.58 Dynodwyd safle hen Ysgol Babanod Sirhywi, Tredegar ar gyfer canolfan gymunedol newydd ar ran dde-ddwyrainiol y safle. Bydd adran ogleddol y safle ar gyfer 23 o gartrefi fforddiadwy.
- 8.59 Cynigir y bydd y ganolfan gymunedol, a elwir yn 'Ganolfan Seren', yn cynnal amrywiaeth o wasanaethau yn cynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar, gwasanaethau ieuencid, clybiau ieuencid a darpariaeth ar ôl ysgol, dysgu, hamdden, diogelwch cymunedol, cyngor a gwybodaeth, digwyddiadau cymunedol a charnifalau ac ar gael i'w llogi.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 5, 6, 10 a 13
- **Polisiâu Strategol:** SP7, SP8 a SP10
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2 a DM14

Twristiaeth a Hamdden

TM1 Twristiaeth a Hamdden

Dynodwyd y safleoedd dilynol ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig â thwristiaeth:

1. Llethrau'r Cwm Dwyreiniol
2. Gŵyl Gerddi
3. Llynnoedd Glas
4. Tŷ a Pharc Bedwellte
5. Parc Bryn Bach (yn cynnwys gwesty)
6. Tyrrau Tŷ Crwn Nantyglo
7. Llynnoedd Cwmtyleri

Llethrau'r Cwm Dwyreiniol

- 8.60 Mae Llethrau'r Cwm Dwyreiniol a'u hagosatrwydd ar safle Y Gweithfeydd yng Nglynebwy yn sicrhau fod gan y safle botensial gwych ar gyfer datblygu twristiaeth, hamdden ac addysg, drwy hyrwyddo mynediad i ardaloedd gwledig a gwelliannau i'r amgylchedd naturiol drwy blannu coetir. Caiff llawer o'r tir ei drin ar gyfer porthi, gyda ardaloedd sylweddol yn agored ar gyfer mynediad i'r cyhoedd ar gyfer marchogaeth, beicio (yn arbennig feicio mynydd) a cherdded.
- 8.61 Mae'r safle yn gyswllt ffisegol rhwng Canolfan Adnoddau Amgylcheddol yn safle'r Gweithfeydd a Gwarchodfa Natur Cwm Tawel ac mae ganddo ecosystem diddorol a gwerthfawr ei hun. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda grwpiau diddordeb i ddatblygu potensial y safle ar gyfer twristiaeth, hamdden ac addysg.

Gŵyl Gerddi

- 8.62 Mae cynigion i ddatblygu Parc yr Ŵyl i fod yn gyrchfan twristiaeth bwysig. Bydd gwella'r cynnig siopa a'r caffe a darparu cyfleusterau hamdden awyr agored yn denu mwy o ymwelwyr i Barc yr Ŵyl, Caiff cynlluniau arbennig sy'n gydnaws gyda denu ymwelwyr i'r parc eu hannog yn cynnwys gwella tir parc drwy greu troeon coetir a chysylltu'r parc gyda'r ardal siopa.

Llynnoedd Glas

- 8.63 Mae'r Llynnoedd Glas yn agos at Gerrig Aneurin Bevan, ac maent yn ffurfio gofod gwyrdd pwysig rhwng Tredegar a Glynebwy. Mae Ymddiriedolaeth Datblygu Glynebwy a'r Cylch (EVAD) yn cynnig creu parc newydd a sefydlu canolfan ymwelwyr newydd gyda chaffe bwyty. Cynigir hefyd adeiladu canolfan addysg a

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

dysgu, creu gofod hamdden ar gyfer cerdded a rhoi lleoliad pysgota gwell i bobl leol ac ymwelwyr i'r ardal.

Tŷ a Pharc Bedwellte

- 8.64 Gallai twristiaeth gyfrannu sylweddol fwy at economi'r Fwrdeisdref Sirol. Mae atyniadau megis Tŷ a Pharc Bedwellte, sy'n ffurfio rhan o rwydwaith o adeiladau a thirluniau hanesyddol, yn allweddol i ddenu pobl i'r ardal. Cyflawnir hyn drwy adfer Tŷ Bedwellte i roi profiad ymwelwyr, bwyty, gerddi ac ardal digwyddiadau. Mae cynlluniau i'w drawsnewid yn ganolfan ansawdd uchel ar gyfer cynadleddau, priodasau ac ymwelwyr a'i wneud yn atyniad twristiaeth sylweddol.

Parc Bryn Bach

- 8.65 Mae Parc Bryn Bach mewn lleoliad cyfleus yn agos at yr A465 ac mae'n atyniad twristiaeth sylweddol gyda llyn a chanolfan ymwelwyr. Mae'r Parc yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleusterau a gweithgareddau yn cynnwys cerdded, beicio, golff, pysgota, cychod model, hedfan a gweithgareddau antur. Mae potensial i ddatblygu nodweddion twristiaeth y Parc ymhellach, gyda chyfleoedd ar gyfer datblygu gwesty ar y safle a datblygu'r cyfleusterau tŷ bynciau. Dynodwyd Parc Bryn Bach yn Warchodfa Natur Leol ac mae'n debygol o fod yn un o brif elfennau'r Parc Rhanbarthol y Cymoedd arfaethedig a gallai fanteisio o fod mor agos at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Tyrrau Tŷ Crwn Nantyglo

- 8.66 Mae gan Dyrrau Tŷ Crwn Nantyglo botensial fel canolfan treftadaeth ac adnodd addysgol ar gyfer pobl leol ac fel atyniad i ymwelwyr. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda pherchnogion y safle er mwyn ei ddatblygu.

Llynnoedd Cwmtyleri

- 8.67 Mae Llynnoedd Cwmtyleri yn adnodd addysgol a hamdden ar gyfer y gymuned leol ac fe'i defnyddir ar gyfer cerdded, adara a physgota. Mae prosiect cymunedol newydd o'r enw CALON yn dymuno sefydlu porth addysg awyr agored a chanolfan addysg ym Mhafiliwn Jim Owen fel canolfan ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr i ddefnyddio'r potensial sylweddol ar gyfer awyr agored o fewn yr ardal wledig o amgylch Cwmtyleri. Bydd y Ganolfan Calon arfaethedig hefyd yn gwasanaethu fel canolfan gymunedol gan gynnig llogi'r safle, lluniaeth ysgafn a gwybodaeth i dwristiaid.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 11 a 12
- **Polisiâu Strategol:** SP2, SP9 a SP11
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM3, DM11, DM12, DM13, DM14, DM15, DM16 a DM17

SICRHA

DIOGELU A GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL AC ADEILEDIG UNIGRYW A CHYMUNEDAU BYWIOG, DIOGEL AC IACH

Hamdden

L1 Cyfleusterau Hamdden Ffurfiol

Dyrennir tir ar gyfer defnydd hamdden yn:

1. Ffordd y Siartwyr, Tredegar

8.68 Mae'r Polisi yn dyrannu tir y mae Gwasanaethau Hamdden ei angen ar gyfer darpariaeth cyfleusterau hamdden awyr agored yn y safle uchod.

8.69 Dyrennir ardal o dir ar gyfer gofod chwarae anffurfiol yn Ffordd y Siartwyr, Tredegar gydag ardal cicio pêl ar y gweill yn ymyl ardal chwarae bresennol.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 11 a 12
- **Polisiâu Strategol:** SP9
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM12, DM14, DM15 a DM16

ENV1 Lletemau Gwyrdd

Dynodwyd Lletemau Gwyrdd yn y lleoliadau dilynol er mwyn atal cyd-doddi rhwng anheddiadau.

1. Beaufort a Brynmawr
2. Tredegar a Glvnebwv

Yr Amgylchedd

8.70 Dangosir maint yr ardaloedd hyn ar y Map Cynigion Cynllun Datblygu Lleol ac ni chaniateir datblygiad sy'n effeithio ar natur agored y tir rhwng yr ardaloedd hyn.

8.71 Ystyrir bod yr angen i ddiffinio a chynnal gofodau agored rhwng ac o fewn ardaloedd trefol ac anheddiadau i atal ymdoddi'n bwysig i'r Fwrdeisdref Sirol i ddiogelu integriti yr amgylchedd adeiledig a naturiol.

8.72 Er bod polisiâu eraill yn y Cynllun yn anelu i gyfyngu datblygiad mewn ardaloedd gwledig, ystyrir bod angen rhoi diogeliad ychwanegol i ardaloedd o ofod agored pwysig a bregus drwy gyfyngu datblygiad yr ymyl trefol a rhwng anheddiadau. Dynodwyd pob un o'r Lletemau Gwyrdd yn dilyn ystyried ffactorau megis datblygu pwysau, ffurf gwledig a'r potensial ar gyfer ymdoddiad anheddiadau maes o law.

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcan:** 13
- **Polisi Strategol:** SP10

ENV2 Ardaloedd Tirlun Arbennig

Dynodir Ardaloedd Tirlun Arbennig a chânt eu diogelu yn y lleoliadau dilynol:

1. **Gwastad Illtyd Sant ac Ochrau Dwyreiniol Ebwy**
2. **Crib Ddwyreiniol a Mynydd James**
3. **Cwmtyleri a Chwm Celyn**
4. **Mynydd Carn-y-cefn a Chefn yr Arail**
5. **Mynydd Bedwellte, Rhiw Rhymni ac Ochrau Sirhywi**
6. **Cefn Manmoel**
7. **Tir o amgylch Trefil a Garnlydan**
8. **Comin Beaufort**

Disgwylir i ddatblygiadau o fewn yr Ardaloedd Tirlun Arbennig i gydymffurfio gyda'r safonau uchaf o ddylunio, lleoliad, gosodiad a deunyddiau addas i gymerid yr ardal.

8.73 Dangosir Ardaloedd Tirlun Arbennig ar y Map Cynigion Cynllun Datblygu Lleol a chawsant eu dynodi i ddiogelu ardaloedd a ystyrir yn bwysig i dirlun, hanes, diwylliant, bioamrywiaeth a daeareg y Fwrdeisdref Sirol yn gyffredinol. Cafodd yr ardaloedd tirlun hyn eu dynodi ar lefel leol, yn defnyddio methodoleg a gytunwyd yn rhanbarthol. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir i ddynodi'r Ardaloedd Tirlun Arbennig ym Mlaenau Gwent yn adeiladu ar fethodoleg LANDMAP Cyngor Cefn Gwlad ac mae'n ystyried ffactorau megis:

- Amlygrwydd;
- Golygfa - topograffi a golygfeydd dramatig;
- Ardaloedd naturiol - patrymau cyn-ddiwydiannol o ddefnydd tir;
- Natur anghysbell a thawel;
- Bregusrwydd a sensitifrwydd i newid;
- Tirlun lleol prin; a
- Thirluniau arbennig.

8.74 Nid yw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn dynodi unrhyw Ardaloedd Tirlun Arbennig. Mae ffiniau Ardaloedd Tirlun Arbennig Blaenau Gwent yn debyg i Ardaloedd Tirlun Arbennig a ViLLs Caerffili ond nid ydynt yn debyg i'r rhai a ddynodwyd yn Nhorfaen gan iddynt hwy ddefnyddio dull gwahanol drwy ddibynnu'n

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

llwyr ar LANDMAP. Er i Blaenau Gwent ddefnyddio LANDMAP, ategwyd hyn gyda meini prawf lleol ychwanegol.

- 8.75 Er mwyn diogelu nodweddion gweledol pob Ardal Tirlun Arbennig, bydd angen i gynigion datblygu o fewn yr ardaloedd hyn gydymffurfio gyda'r safonau dylunio uchaf posibl.
- 8.76 Rhoddir manylion yr Ardaloedd Tirlun Arbennig yn Adroddiad Ardaloedd Tirlun Arbennig Blaenau Gwent (2009).

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Strategol Perthnasol

- **Amcan:** 13
- **Polisi Strategol:** SP10
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM14, DM15 a DM16

ENV3 Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur

Dynodir safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur yn y lleoliadau dilynol:

Rhif Polisi	Enw Safle	Rhif Polisi	Enw Safle
Ardal Glynebwy			
1.	Llynnoedd a Choetir Rhiw Beaufort	21.	Glastir Waun-Lwyd sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau
2.	Bryn Serth	22.	Waun y Pound
3.	Bwlch-y-Garn Gogledd	23.	Grŵp Pyllau 1
4.	Bwlch-y-Garn De	24.	Grŵp Pyllau 3
5.	Tir Glas Castell-coryn	25.	Grŵp Pyllau 5
6.	Pwll Craig y Deri	26.	Pwll Rhasa
7.	Dol Heol Eastville	27.	Rhyd y Blew
8.	Llyn Parc yr Ŵyl	28.	Afon Ebwy
9.	Llethrau Mynydd Carn-y-Cefn (Gorllewin) (1 o 2)	29.	Llethrau Mynydd Carn-y-Cefn (Gorllewin) (2 o 2)
10.	Dinas Gardd	30.	Pwll Tarren y Trwyn
11.	Pwll Dinas Gardd	31.	Pwll Tŷ Llwyn
12.	Garn-Cam-Isaf	32.	Tir yn Park View, Beaufort
13.	Garnlydan	33.	Tir yn Parkhill Crescent
14.	Hillside gyda llif asidig	34.	Ger Fferm Drysiog
15.	Tir o amgylch y Ganolfan Gwlypdir	35.	Cefn Teras Cwm Newydd
16.	Cae Glan Eithin	36.	Nant-y-Croft Rhasa
17.	Cae Glan Dol	37.	Llethrau Cwm, Parc yr Ŵyl
18.	Pwll 1709/045 Bwlch-y-Garn	38.	Hen Randiroedd
19.	Tir yng nghefn Heol Glwyndr, Rhasa	39.	Dwyrain Penrhiwgwingi
20.	Mynydd Carn-y-Cefn a Chefn-yr-Arail Glyn Ebwy ac Ebwy Fach Isaf	40.	Mynydd Manmoel, Glyn Ebwy a Thredegar

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

Rhif Polisi	Enw Safle	Rhif Polisi	Enw Safle
Ardal Tredegar			
41.	Coedwig Rhiw Sirhywi a Phwll Caerdydd	61.	Glastir Canolfan Hamdden Tredegar
42.	Dol Garnddu	62.	Cae Pyllau Bedwellte
43.	Glastir Caeau Hirgan	63.	Ysgol Bryn Bach
44.	Glastir Stad Ddiwydiannol	64.	Cefn Pyllau Duon
45.	Cae Fferm Isaf	65.	Llyn Nant Trefil
46.	Troedrhiwgwair Isaf	66.	Cae Tŷ Capel
47.	Parc Bryn Bach	67.	Darren Ddu
48.	Pwll Glas Trefil	68.	Llyn Trefil Ddu 1 (1 o 4)
49.	Cronfa Sant Ioan	69.	Llyn Trefil Ddu 2 (2 o 4)
50.	Mynydd Bedwellte	70.	Llyn Trefil Ddu 3 (3 o 4)
51.	Glastir Naw Bwa	71.	Llyn Trefil Ddu 4 (4 o 4)
52.	Glastir Gogledd Pen-y-lan	72.	Glastir Pentref Trefil
53.	Glastir Fferm Milgatw	73.	Pyllau Duon
54.	Cae Fairview	74.	Glastir Troedrhiwgwair Uchaf
55.	Glastir Tir Tŷ Coeden Binwydd	75.	Llyn Scotch Peter
56.	Afon Sirhywi	76.	De Troedygwair
57.	Glastir y Gorlan	77.	Glastir Tir Uchel
58.	Glannau Cronfa Ddŵr Shon Sheffrey	78.	Y Ducky/Ducky Fach
59.	Glastir De Pen-ylan	79.	Glastir Patch Tredegar
60.	Dolydd Fountain Inn		
Ardal Ebwy Fach Uchaf			
80.	Agos at Ysgol Blaen-y-Cwm	93.	Ger Sgwâr Noble
81.	Pwll 1 Ffordd Blaenafon	94.	Afon Clydach
82.	Pwll 2 Ffordd Blaenafon	95.	Coalbrookvale
83.	Slip Bourneville	96.	Coed Troestre
84.	Fferm Bryn	97.	Dwyrain Cwmcelyn
85.	Pwll Brynawelon	98.	Llyn Brynmawr
86.	Pwll Pen y Waun	99.	Gorllewin Cwmcelyn
87.	Pwll Semtex	100.	Ymyl Mulfran
88.	Afon Ebwy Fach	101.	Glastir Arglawdd
89.	Parc Nant y Waun	102.	Pwll Cwrs Golf
90.	Llyn Troestre	103.	Pwll Llwydcoed
91.	Grŵp Pyllau 2, Brynmawr/Beaufort Hill	104.	Tir i ddwyrain Tai Pant View, Coed Cae
92.	Dol Nantyglo		
Ebwy Fach Isaf			
105.	Llethrau Gogledd Fferm Arail	115.	Cefn Bach, Abertyleri
106.	Llethrau De Fferm Arail	116.	Coed y Gilfach
107.	Pwll Arail	117.	Craig Swffryd
108.	Gogledd Fferm Bryntyleri	118.	Cyt Tirpentwys
109.	Gogledd Hendre Gwyndwr	119.	Pwll Fferm Cwm
110.	Afon Tyleri	120.	Coedcae Coch
111.	Safle Glofa Six Bells	121.	Tir i ddwyrain Heol Bourneville
112.	Coedwig Swffryd	122.	Llynnoedd Cwmtyleri
113.	De Fferm Blaentyleri	123.	Dwyrain Fferm Gwastad
114.	Swffryd-fach	124.	Glastir asid Hafod-y-Dafal

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

Rhif Polisi	Enw Safle	Rhif Polisi	Enw Safle
125.	Mulfran, Mynydd Coity, Mynydd James a Gwastad	132.	Fferm Greenmeadow
126.	Cwm Big Gogledd	133.	Cronfa Ddŵr Cwmtyleri
127.	Pwll Swffryd Ganol	134.	Llannerch Padarn Gorllewin
128.	Pwll Coedcae	135.	Coetir Cymunedol Roseheyworth
129.	Gorllewin Fferm Blaentyleri	136.	Llannerch Padarn Dwyrain
130.	Cefn Bach	137.	Coed Argoed
131.	Chwarel yn Fferm Gilfach Wen		

8.77 Nid yw'r ddarpariaeth bresennol o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Safleoedd o Bwysigrwydd Gwyddonol Arbennig yn ddigon ar ben ei hun i gadw bioamrywiaeth Blaenau Gwent. Mae felly'n bwysig dynodi safleoedd bywyd gwyllt a ddynodwyd yn lleol megis Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur. Mae gan Flaenau Gwent 137 Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur ar hyn o bryd a ddangosir ar y Map Cynigion. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i ddynodi nifer o Safleoedd eraill. Cyn gynted ag y cafodd safle ei asesu a'i fod yn cymhwyso fel safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur dan y '*Canllawiau ar gyfer Dethol Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Cymru*' a '*Meini Prawf y Cymoedd Canolog ar gyfer dewis Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur*' (Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent, 2004 a 2008), yna caiff ei statws ei anrhydeddu a bydd y polisi hwn yn weithredol iddo.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 5, 6 a 13
- **Polisiâu Strategol:** SP7 a SP10
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM14, DM15 a DM16

ENV 4 Cynlluniau Adfer Tir

Cynigir cynlluniau adfer tir yn y lleoliadau dilynol:

1. Stryd Pennant, Glynebwy
2. Parc Bryn Bach, Tredegar
3. Cwmcraehen, Brynmawr
4. Baddonau Glofa Llanhilledd, Llanhilledd

8.78 Mae nifer o safleoedd diffaith fel canlyniad i hanes diwydiannol Blaenau Gwent. Fodd bynnag, nid oes angen adfer yr holl dir diffaith gan fod rhai wedi mynd yn ôl yn naturiol; mae er budd y cyhoedd i adael safleoedd o'r fath heb ymyrryd arnynt. Mae llawer o'r safleoedd mewn ardaloedd amlwg iawn a bydd adfer tir yn ei gwneud yn bosibl symud malltod sy'n ddolur llygad ar y tirlun ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

galluogi adfer ardaloedd i'w hymddangosiad naturiol, gan felly wella'r amgylchedd gweledol. Ar yr un pryd gall safleoedd o'r fath fod o werth bioamrywiaeth uchel a gan fod angen arolygon ecolegol ar safleoedd tir llwyd fel arfer, bydd angen un cyn unrhyw waith adfer.

8.79 Mae disgrifiadau manwl o'r cynlluniau ar gael yn y ddogfen disgrifiadau safle.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 6
- **Polisiâu Strategol:** SP2 a SP7
- **Polisiâu Rheoli Datbygu:** DM1, DM14 a DM16

ENV 5 Mynwentydd

Dynodir estyniadau i'r mynwentydd presennol yn y lleoliadau dilynol:

1. **Mynwent Cefn Golau, Tredegar**
2. **Mynwent Dukestown, Tredegar**
3. **Mynwent Blaenau, Blaenau**

8.80 Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn rheoli naw mynwent ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o gapasiti y mynwentydd presennol o fewn Blaenau Gwent. Dynododd adolygiad 2009 fod angen estyniadau i'r mynwentydd presennol mewn tri o'r saith safle. Mae'r Cynllun yn dyrannu tir ar gyfer yr estyniadau hyn.

Amcanion, Polisiâu Strategol a Pholisiâu Rheoli Datblygu Perthnasol

- **Amcanion:** 1
- **Polisiâu Strategol:** SP1 a SP2
- **Polisiâu Rheoli Datblygu:** DM1, DM2, DM14 a DM16

SICRHAU CYFLENWAD DIGONOL O FWYNAU A CHYFLEUSTERAU I ALLUOGI GOSTWNG YN Y GWASTRAFF A AIFF I DOMEN LANW

Mwynau

M1 Diogelu mwynau

Dynodir yr adnoddau mwynau dilynol ar y Mapiau Cynigion:

1. **Adnoddau Calchfaen**
2. **Adnoddau Tywodfaen**
3. **Adnoddau Glo Sylfaenol ac Eilaidd**

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

- 8.81** Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn dynodi ardaloedd diogelu yn unol gyda'r polisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r ardaloedd a ddynodwyd yn seiliedig ar 'Astudiaeth Diogelu Agregau Gwent Flaenorol'. Roedd hyn yn eithrio tywodfaen gwannach a chronfeydd tywod a gro. Mae'r ardaloedd a fapiwyd yn cydymffurfio gyda'r rhai a ddynodwyd gan ardaloedd cyfagos Caerffili a Thorfaen (er i Dorfaen ychwanegu clustog o 200m i'r ardaloedd adnoddau), ond mae'n wahanol i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n diogelu adnoddau gwahanol. Nid yw dynodi ardaloedd i'w diogelu yn cynnwys unrhyw dybiaeth y rhoddid caniatâd cynllunio ar gyfer eu hechdynnu. Diben diogelu yw sicrhau na chaiff yr adnoddau hysbys eu sterileiddio'n ddiangen gan ddatblygiad parhaol (Polisi DM19).
- 8.82** Mae'r adnoddau calchfaen wedi eu cyfyngu i ymylon gogleddol Blaenau Gwent i'r gogledd o Drefil a'r adnoddau tywodfaen yn gyffredinol yn y rhannau canolog a deheuol. (Gweler Atodiad 8 am ddarluniad o'r ardaloedd hyn).
- 8.83** Mae'r Map Cynigion yn dynodi'r ardaloedd adnoddau glo sylfaenol ac eilaidd (fel y'u dynodwyd gan yr Arolwg Daearegol Prydeinig) fel un ardal ddiogelu gan eu bod yn manteisio o'r un ystyriaethau diogelu. Mae'r adnoddau sylfaenol yn cynnwys glo mwy trwchus yn agos at ei gilydd gyda'r ardal adnoddau eilaidd â glo teneuach yn bellach oddi wrth ei gilydd. Mae'r ardaloedd hyn yn gyffredinol yng ngogledd y Fwrdeisdref Sirol ac ar hyd llawr y cwm. (Mae darluniad o'r ardaloedd hyn yn Atodiad 9).

Amcanion a Pholisïau Strategol Perthnasol

- **Amcan:** 15
- **Polisi Strategol:** SP12

M2 Parthau Clustog Mwynau

O fewn Parth Clustog Mwynau:

- a. Gwrthodir unrhyw ddatblygiad arfaethedig a fyddai'n llesteirio echdynnu'r mwynau neu weithrediad y safle; a**
- b. Ni chaniateir unrhyw echdynnu mwynau newydd heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.**

Dynodir y Parthau Clustog Mwynau dilynol ar y Mapiau Cynigion:

- 1. Chwarel calchfaen Trefil, Tredegar (clustog 200 metr)**
- 2. Tomenni Six Bells a Vivian, Six Bells (clustog 500 metr)**

- 8.84** Dangosir parthau clustog mwynau o amgylch pob chwarel a gweithiau mwynau, yn cynnwys safleoedd segur. Diben y parth clustog yw diogelu cronfeydd mwynau ar gyfer eu gweithio yn y dyfodol, drwy sicrhau na chânt eu sterileiddio gan ddatblygiad arall, a hefyd sicrhau nad yw effeithiau amgylcheddol chwarela/mwyngloddio yn cael effaith niweidiol ar ddatblygiadau sensitif (yn cynnwys ardaloedd preswyl,

8.0 DYRANIADAU A DYNODIADAU

